EB (07) 32

Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC

2007/2008

Ebrill 2007

Cynnwys

Tudalen

Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol 3

Pwrpas, gweledigaeth a gwerthoedd 5

Teledu

BBC One (ynghyd ag atodiadau Cenedlaethol) 7
BBC Two (ynghyd ag atodiadau Cenedlaethol) 14
BBC Three 20
BBC Four 23
CBeebies 26
CBBC 29

Radio

BBC Radio 1 32
BBC Radio 2 35
BBC Radio 3 38
BBC Radio 4 41
BBC Radio Five Live 44
BBC Five Live Sports Extra 47
1Xtra 49
BBC 6 Music 52
BBC 7 55
BBC Asian Network 58

Cyfryngau'r dyfodol

bbc.co.uk 61
BBCi 64

Newyddion

BBC News 24 67
BBC Parliament 70

Gwledydd a rhanbarthau

BBC English Local Radio 73
BBC Radio Scotland 77
BBC Radio nan Gàidheal 80
BBC Radio Wales 83
BBC Radio Cymru 86
BBC Radio Ulster/Foyle 89

Ymrwymiadau pellach 92

Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Tua'r un adeg â lansio'r Datganiadau o Bolisi Rhaglenni y llynedd, bu i ni hefyd lansio'r weledigaeth olygyddol *Creative Future* fel rhan o'n cyfraniad i'r drafodaeth ynglŷn â'r Siarter newydd. Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r weledigaeth o wasanaeth BBC cryf â sylfaen eang sy'n gwasanaethu'r holl gynulleidfaoedd trwy wasanaethau amrywiol. Mae ein Siarter newydd yn cadarnhau'r swyddogaeth hon ond mae hefyd yn pwysleisio y dylai'r BBC fod yn atebol i'w gynulleidfaoedd. Bydd Trwyddedau Gwasanaeth sy'n cael eu goruchwylio gan Ymddiriedolaeth y BBC, ochr yn ochr â'r Datganiadau hyn, yn allweddol yn y gwaith o sicrhau hyn.

Mae *Creative Future* yn darparu gweledigaeth eang, a bellach mae angen ei hadolygu a'i throi'n strategaethau gwasanaeth yn sgil setliad ffi'r drwydded. Yn y cyfamser, mae gennym uchelgeisiau o ran yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni ym mhob genre ac yn ein portffolio o wasanaethau ac mae'r Datganiadau'n amlinellu'r uchelgeisiau hyn.

Gall pob aelod o staff ddefnyddio gwefan *College of Journalism*, sef deialog ynglŷn â gwerthoedd a dulliau newyddiadurwyr. Y syniadau syml yw'r rhai gorau'n aml iawn a bydd y wefan hon yn cael effaith wirioneddol ar ein deunydd newyddion, materion cyfoes, gwleidyddiaeth a deunydd ffeithiol arall ar y teledu, radio ac ar-lein. Mae'r manteision i'w gweld yn barod: y BBC yw'r unig ddarlledwr yn y DU sydd wedi bod yn gyson bresennol yn Baghdad ers 2003. Yn ogystal â rhoi adroddiadau diduedd o ferw'r gwrthdaro i gynulleidfaoedd, cynhaliwyd wythnos o raglenni am Irac yn ddiweddar, yn cynnwys rhifyn arbennig o *Question Time* ac arolwg a wnaed yn Irac, gan roi agwedd wahanol ar y stori newyddion bwysig hon.

Ond nid creu effaith enfawr neu etifeddiaeth barhaol yw ein nod gyda phob rhaglen. O ran ein rhaglenni drama, er y bydd Eastenders yn parhau i fynd i'r afael â materion pwysig bywyd, diddanu fydd hi yn y bôn. Mae hyn yn wir hefyd am y gyfres pum rhan *Cranford Chronicles* a'r gyfres *Desperados* ar CBBC, sy'n dilyn hynt a helynt tîm pêl-fasged mewn cadeiriau olwyn; o ran cerddoriaeth, bydd *Electric Proms* yn dychwelyd ar ôl darllediad cyntaf llwyddiannus yn 2006 a bydd Bob Dylan yn parhau i rannu'i hoff ganeuon gyda gwrandawyr 6 Music ar *Theme Time Radio*; a bydd mwy o ddigwyddiadau chwaraeon ar flaenau bysedd gwylwyr gan nad ydynt wedi'u cyfyngu i *Grandstand* ar ddydd Sadwrn bellach.

Ein nod yw sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd trwy raglenni a gwasanaethau sy'n bodoli'n barod, a thrwy ddatblygu rhai newydd. Mae gwasanaethau ar-alw newydd y BBC wedi cael sêl bendith amodol (yn amodol ar fodloni rhai amodau gan Ymddiriedolaeth y BBC) a byddwn yn mynd ati i gael cymeradwyaeth i lansio gwasanaethau newydd eraill, fel gwasanaeth teledu diffiniad uchel a sianel Gaeleg ddigidol i ddiwallu anghenion gwirioneddol y gynulleidfa yn yr Alban. Daw rhywfaint o'r arian i fuddsoddi mewn gwasanaethau newydd o arbedion mewn meysydd eraill – amcangyfrifir y bydd can miliwn o bunnoedd yn y gronfa newydd i bob pwrpas ar gyfer cynnwys a gwasanaethau eleni.

Byddwn yn cyflwyno ein strategaethau gwasanaeth newydd i Ymddiriedolaeth y BBC i'w cymeradwyo yn yr hydref a hwyrach y caiff rhai o'r ymrwymiadau yn y Datganiadau hyn eu hadolygu bryd hynny. [Gweler y nodyn canlynol]

Mark Thompson

Cyfarwyddwr Cyffredinol

Nodyn i Ddatganiadau o Bolisi Rhaglenni 2007/2008

O dan Gytundeb y BBC, mae dyletswyddau statudol y Bwrdd Gweithredol yn ei wneud yn gyfrifol am, ymhlith dyletswyddau eraill, gyfeiriad mewnbwn golygyddol a chreadigol y BBC, rheolaeth weithredol y BBC a gweithredu materion ariannol gweithredol y BBC yn y ffordd orau er mwyn sicrhau gwerth am arian. O ystyried amgylchiadau eithriadol setliad ffi'r drwydded a'r adolygiad cyfredol o strategaethau gwasanaeth y BBC, mae'n bosibl y bydd angen adolygu'r Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC 2007/2008 yn sgil y rhwymedigaethau hynny ar ddiwedd y broses ail-flaenoriaethu / strategaeth wasanaeth gyfredol. Mae disgwyl i'r adolygiad ddigwydd yn hydref 2007 fel ei fod yn ystyried canlyniadau'r broses honno.

Bydd unrhyw adolygiad o'r Datganiadau'n cael ei baratoi gan y Bwrdd Gweithredol ac yn cael ei gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth i'w gymeradwyo yn unol ag adran 21Cytundeb y BBC fel y gall yr Ymddiriedolaeth weithredu'i chyfrifoldebau fel rhan o'i dyletswyddau. Ochr yn ochr â'r broses hon, bydd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried unrhyw amrywiadau i Drwyddedau Gwasanaeth sy'n codi o ganlyniad i gynigion strategaeth y gwasanaeth ac yn adolygu'r rhain ochr yn ochr â'r Datganiadau amrywiol. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gwneud amrywiadau i Drwyddedau Gwasanaeth yn unol â chymalau perthnasol yng Nghytundeb y BBC a'i Fframwaith Gweithredu Trwyddedau Gwasanaeth sydd i'w weld ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn bbc.co.uk/bbctrust. Os bydd unrhyw ddiwygiadau i'r Datganiadau'n cael eu cymeradwyo yn unol â dyletswyddau'r Ymddiriedolaeth, tybir y bydd y Datganiad perthnasol ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys pob polisi fel y'i nodir yn y datganiadau sydd ynghlwm ac, am weddill y flwyddyn, unrhyw newidiadau i'r polisi hwnnw a gymeradwyir gan yr Ymddiriedolaeth.

Pwrpas, gweledigaeth a gwerthoedd

Ein pwrpas

I gyfoethogi bywydau pobl gyda rhaglenni a gwasanaethau sy'n hysbysu, addysgu a diddanu.

Ein gweledigaeth

Bod y sefydliad mwyaf creadigol yn y byd.

Ein gwerthoedd

- Ymddiriedaeth yw sail y BBC: rydym yn annibynnol, diduedd a gonest.
- Mae cynulleidfaoedd wrth wraidd popeth a wnawn.
- Rydym yn ymfalchïo mewn darparu ansawdd a gwerth am arian.
- Creadigrwydd yw enaid ein sefydliad.
- Rydym yn parchu ein gilydd ac yn dathlu ein hamrywiaeth fel y gall pob un wneud ei orau.
- Un BBC ydym: mae pethau mawr yn digwydd wrth i ni weithio gyda'n gilydd.

Pwrpas y BBC

Mae'r BBC yn sefydliad unigryw sy'n eiddo i bobl Prydain ac yn annibynnol ar ddiddordebau gwleidyddol a masnachol.

Pwrpas y BBC, sydd heb newid fawr ddim mewn 80 mlynedd, yw cyfoethogi bywyd pob unigolyn yn y DU trwy ddarparu rhaglenni sy'n hysbysu, addysgu a diddanu.

Mae'r BBC yn rym sylweddol yng nghymdeithas y DU, ac yn cyfrannu at ansawdd bywyd y gymdeithas gyfan trwy ei rhaglenni a'i gwasanaethau. Er mwyn g wneud hyn yn llwyddiannus, rhaid iddi fod yn gynhwysol ac o fudd i bawb fel unigolion yn gyson a pharhaus. Dylai gyffwrdd bywydau pobl mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at eu mwynhad fel unigolion, eu hunangyflawniad, a'u gallu i gymryd rhan yn ein cymdeithas.

Mae'r BBC yn creu gwerth cyhoeddus mewn chwe phrif ffordd:

- **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil**: mae'r BBC yn cefnogi bywyd dinesig a thrafodaeth genedlaethol trwy ddarparu newyddion a gwybodaeth dibynadwy a diduedd sy'n helpu pobl i wneud synnwyr o'r byd a'u hannog i gymryd rhan ynddo.

- **Hyrwyddo addysg a dysgu**: drwy gynnig byd o gyfleoedd addysgol ffurfiol ac anffurfiol i gynulleidfaoedd o bob oed ym mhob cyfrwng, mae'r BBC yn cynorthwyo i greu cymdeithas gyda gwybodaeth a sgiliau cadarn.

- **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol**: mae'r BBC yn cyfoethogi bywyd diwylliannol y DU trwy ddod â thalent a chynulleidfaoedd at ei gilydd i dorri tir newydd, i ddathlu ein treftadaeth ddiwylliannol, ac i ehangu'r drafodaeth genedlaethol.

- **Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU**: trwy alluogi gwahanol gymunedau'r DU i weld beth sydd ganddynt yn gyffredin a'u gwahaniaethau, mae'r BBC yn ceisio creu cymdeithas unedig a goddefgar drwy well dealltwriaeth.

- **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd**: mae'r BBC yn cefnogi cyfraniad y DU at y byd drwy fod yn un o ddarparwyr newyddion a gwybodaeth ryngwladol mwyaf dibynadwy'r byd a thrwy arddangos y gorau o ddiwylliant y DU i gynulleidfa fyd-eang.

Ac wrth hyrwyddo'r dibenion hyn dylai'r BBC helpu i:

- **Drosglwyddo manteision technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd i'r cyhoedd**: mae'r BBC yn arweinydd dibynadwy sy'n tywys pobl amhrofiadol neu ansicr i'r byd digidol newydd, yn lle diogel i blant, yn ffynhonnell ddibynadwy a chywir ar yr awyr ac ar-lein i'r sawl sydd am gael gwybodaeth, ac yn bartner llawn her i'r defnyddiwr mwy profiadol. Bydd y BBC yn flaenllaw yn y newid i deledu digidol yn y DU.

Wrth i'r amgylchedd darlledu ddatblygu – ar draws y llwyfannau teledu, radio a chyfryngau newydd sy'n datblygu – ac wrth i gymdeithas newid, bydd y BBC yn parhau i'n cefnogi wrth i ni weithio a chwarae, gan ddarparu gwerth cyhoeddus yn ei holl raglenni a gwasanaethau amrywiol.

Teledu

BBC One

Cylch gwaith y gwasanaeth

BBC One yw gwasanaeth teledu cymysg mwyaf poblogaidd y BBC ledled y DU ac mae'n cynnig amrywiaeth eang o raglenni o safon. Dyma brif sianel y BBC ar gyfer digwyddiadau cartref a rhyngwladol pwysig ac mae rhaglenni'r sianel yn adlewyrchu'r DU gyfan. Cynyrchiadau gwreiddiol yw cyfran uchel iawn o'r rhaglenni.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Bydd BBC One yn parhau i gomisiynu a darlledu rhaglenni diddorol o safon uchel o bob math sy'n cynnig rhywbeth at ddant pawb. Byddwn yn darparu rhaglenni uchelgeisiol ar raddfa fawr yn rheolaidd – gan gynnwys tymhorau thematig, rhaglenni ffeithiol cofiadwy a digwyddiadau chwaraeon – gyda'r nod o ddenu cynulleidfaoedd mawr o gefndiroedd o bob math.

Bydd BBC One yn canolbwyntio ar raglenni i'r teulu trwy ddarlledu rhaglenni trawiadol o ansawdd uchel ym mhob maes, yn enwedig rhaglenni Drama ac Adloniant ar nos Sadwrn.

Mae BBC One yn ddarparwr awryddocaol ym maes newyddion dyddiol cywir, diduedd a hygyrch. Bydd ein materion cyfoes a newyddiaduraeth defnyddwyr yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau a meysydd diddordeb fel eu bod yn apelio at gynulleidfaoedd eang ac yn cael eu darlledu ar wahanol amserau, gan gynnwys oriau brig.

Dyma'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn hon:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Symleiddio amserlen oriau brig min nos BBC One trwy lansio *The ONE Show*, rhaglen gylchgrawn fyw ddyddiol gydag eitemau o bob cwr o'r DU	Mae symleiddio'r amserlen yn rhoi mwy o gysondeb i'r gynulleidfa. Mae *The ONE Show* yn rhaglen unigryw sy'n adlewyrchu bywydau a phrofiadau pobl ledled y DU
Darparu mwy o raglenni Drama ac Adloniant sy'n apelio at y teulu cyfan ar nos Sadwrn	Cynnal enw da BBC One am ddarparu rhaglenni Drama ac Adloniant, sy'n ffordd effeithiol o gyrraedd cynulleidfa eang ac apelio at rannau gwahanol o'r boblogaeth
Comisiynu a darlledu digwyddiadau trawiadol mewn rhaglenni Ffeithiol, Adloniant Ffeithiol a Drama sy'n gallu dod â chynulleidfaoedd mawr at ei gilydd	Mae gofyn cynnwys digwyddiadau mawr yn yr amserlen er mwyn sicrhau effaith mewn diwydiant cynyddol gystadleuol
Buddsoddi mewn comedi newydd o'r DU sy'n apelio at y gynulleidfa brif ffrwd	Pan fo sianeli eraill yn buddsoddi fwyfwy mewn comedi o du allan i'r DU, mae BBC One wedi ymrwymo i gefnogi talent o'r DU. Mae enghreifftiau eleni yn cynnwys cyfres deledu gyntaf y digrifwr arobryn Omid Djalili yn y DU
Parhau i leihau nifer yr ailddarllediadau oriau brig	Ymateb i alw'r gynulleidfa am lai o ailddarllediadau yn ystod oriau brig

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Nod rhaglenni newyddion BBC One yw ennill bri am adroddiadau a dadansoddiadau gwreiddiol o safon ac ehangder eu cynnwys.

Byddwn yn parhau i ddarlledu tri bwletin newyddion cenedlaethol a rhyngwladol bob diwrnod o'r wythnos, gyda newyddion am 10pm chwe diwrnod yr wythnos, a newyddion rhanbarthol wedi'i gynnwys ym mhob prif fwletin rhwydwaith. Byddwn yn parhau i gynnig rhaglenni newyddion arbennig ar straeon arwyddocaol wrth iddynt ddigwydd ac yn darlledu BBC News 24 dros nos ar BBC One.

Nod ein rhaglenni materion cyfoes yw parhau gyda'r safonau uchaf o ran bod yn gwbl ddiduedd a thrylwyr, buddsoddi mewn ymchwiliadau hirdymor ac adlewyrchu safbwyntiau a phrofiadau o bob math. Bydd *Panorama* yn defnyddio'i lle yn yr amserlen oriau brig i gynnig rhaglenni o ansawdd uchel sy'n trin a thrafod materion cyfoes o bob math i'w chynulleidfa eang.

Bydd BBC One yn:

- Darlledu o leiaf 90 awr o raglenni materion cyfoes, gydag o leiaf 48.5 awr o hynny yn yr oriau brig

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae gan BBC One enw da am adlewyrchu syniadau o bob math yn ei rhaglenni comedi, adloniant, drama a chelfyddydol, ac am roi llwyfan i'r doniau creadigol gorau yn y DU a thu hwnt – un o'r uchafbwyntiau eleni fydd y digrifwr Omid Djalili yn ei raglen sgets a chomedi gyntaf ei hun.

Mae nifer o ddramâu arwyddocaol newydd ar y gweill ar gyfer 2007/2008. Yn eu plith mae *Cranford Chronicles*, cyfres pum rhan newydd gyda Judi Dench; *Sense and Sensibility*; addasiadau cyfoes o bedair stori tylwyth teg glasurol; a ffilm newydd gan Stephen Poliakoff.

Bydd ein rhaglenni adloniant yn adeiladu ar lwyddiant *How Do You Solve a Problem Like Maria?* gyda *Any Dream Will Do*, ymgais i ddod o hyd i seren ar gyfer *Joseph and the Amazing Technicolor Dreamcoat*.

Eleni, byddwn ni'n

- Darlledu o leiaf 45 awr o raglenni celfyddydol a cherddoriaeth

Hyrwyddo addysg a dysgu

Un o brif uchelgeisiau BBC One yw sicrhau bod pob math o bynciau arbenigol a difrifol ar gael ac yn berthnasol i gynulleidfa brif ffrwd eang. Rydym wedi ymrwymo i raglenni ffeithiol a byddwn yn mynd ati i gynnal ein henw da am raglenni natur a gwyddoniaeth. Mae llawer o'n rhaglenni yn archwilio meysydd gwybodaeth anghyfarwydd mewn ffyrdd arloesol ac unigryw, gan ddefnyddio'r technolegau diweddaraf yn aml fel teledu diffiniad uchel.

Mae rhaglenni ar gyfer eleni'n cynnwys *How We Built Britain*, hanes pensaernïaeth Prydain gyda David Dimbleby wrth y llyw. Bydd Victoria Wood yn edrych ar ddylanwad y Frenhines Victoria yn *Where is Victoria?* a bydd Michael Palin yn codi'i bac unwaith eto, gan grwydro Dwyrain Ewrop yn *Palin's Wild East*. Yn ogystal, bydd *Warriors* yn cadarnhau enw da BBC One am raglenni ffeithiol arloesol gyda chyfres o raglenni dogfen unigol sy'n edrych ar ffigurau hanesyddol allweddol.

Yn 2007/2008 mae BBC One yn ymrwymo i:

- 650 awr o raglenni ffeithiol newydd, gan gynnwys rhaglenni gwyddoniaeth, hanes ac addysgol

- Cynnig o leiaf 500 awr o raglenni plant ar y cyd â BBC Two

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Fel prif sianel deledu brif ffrwd y BBC, mae gan BBC One gyfrifoldeb arbennig i ymateb i ddigwyddiadau cenedlaethol o bwys sy'n uno pobl ledled y DU, fel *A Concert for Diana,* cyngerdd sydd wedi'i drefnu ar gyfer yr haf i nodi 10 mlynedd ers marwolaeth Tywysoges Cymru.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda'n cydweithwyr ledled y DU i gynhyrchu a darlledu rhaglenni sy'n adlewyrchu eu bywydau, diddordebau a phrofiadau. Bydd *The ONE Show* yn darlledu'n fyw bob dydd, gan adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU a chroesawu cyfraniadau lleol i raglenni oriau brig.

Yn y flwyddyn i ddod bydd BBC One yn darlledu:

- O leiaf 80 awr o raglenni crefyddol (fel rhan o gyfanswm o 112 awr ar BBC One a BBC Two)
- 260 awr o raglenni chwaraeon

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Mae BBC One yn allweddol fel llwyfan i'r BBC helpu cynulleidfa eang i geisio dirnad digwyddiadau a materion byd-eang. Yn ogystal, bydd ein darllediadau chwaraeon yn parhau i fod yn elfen allweddol o'n hymrwymiad i sicrhau bod ein rhaglenni rhyngwladol yn parhau i fod yn ddeniadol ac apelgar i gynulleidfa brif ffrwd y DU. Yn benodol eleni, mae BBC One yn gobeithio darlledu *Live Earth,* cyngerdd amlwladol i godi ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd.

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae BBC One yn defnyddio technolegau digidol newydd yn rheolaidd i wella profiad y gynulleidfa o'i rhaglenni. Er enghraifft, bydd yn defnyddio technolegau rhyngweithiol wrth ddarlledu chwaraeon er mwyn rhoi mwy o ddewis neu sylwebaeth wahanol i'r gynulleidfa. Yn ogystal, mae gan BBC One swyddogaeth bwysig o ran cefnogi gwasanaethau eraill y BBC, yn enwedig y sianeli digidol, gan roi blas o'u rhaglenni'n rheolaidd.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai BBC One helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei chyrhaeddiad wythnosol ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i BBC One ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	Y gynulleidfa o'r farn bod BBC One yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwyliwr yr awr* BBC One

Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.
- 70% o raglenni a 90% o raglenni oriau brig i fod yn rhai gwreiddiol (darllediad cyntaf ac ailddarllediad).
- Cynnal y patrwm cyffredinol cyfredol o raglenni newyddion gydol y dydd, sef o leiaf 1,380 awr o raglenni newyddion rhwydwaith, gydag o leiaf 275 awr yn yr oriau brig (6–10.30pm).
- O leiaf 3,920 awr o raglenni newyddion rhanbarthol, gydag o leiaf 2,010 awr yn yr oriau brig.

Yn ogystal, mae BBC One yn rhannu'r ymrwymiadau canlynol:

- 1,030 awr o raglenni rhanbarthol yn yr oriau brig, a 355 awr arall ar adegau nesaf at yr oriau brig (e.e. yr awr bob ochr i'r oriau brig) ac eithrio newyddion ar BBC One [ymrwymiad BBC One a BBC Two].

- O ran materion cyfoes, bydd BBC One a BBC Two rhyngddynt yn darparu o leiaf 365 awr o raglenni rhwydwaith, gydag o leiaf 105 awr yn yr oriau brig.

- O leiaf 6,580 awr o raglenni rhanbarthol o bob math ar BBC One a BBC Two, gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol ar gyfer BBC One.

- Dylai o leiaf 95% o raglenni rhanbarthol gael eu gwneud yn yr ardal berthnasol [ymrwymiad BBC One a BBC Two].

Ac ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu allan i'r M25.

- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu allan i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu gwahanol a ddefnyddir ledled y DU.

Atodiad BBC One Scotland

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC One Scotland yn ategu amserlen rhwydwaith BBC One trwy ddarparu rhaglenni o bob math sy'n apelio at gynulleidfaoedd prif ffrwd yr Alban ac sy'n cymryd lle rhaglenni BBC One yn llwyr neu'n eu symud i ran arall o'r amserlen. Mae'r gwasanaeth yn darparu rhaglenni sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth yr Alban i wylwyr yn yr Alban a dyma yw prif gyfrwng y BBC ar gyfer darlledu digwyddiadau pwysig yn yr Alban.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth ar gyfer 2007/2008

Mae BBC One Scotland yn darparu amrywiaeth eang o raglenni teledu unigryw gan adlewyrchu natur amrywiol yr Alban a diwylliant a threftadaeth yr Alban i gynulleidfaoedd yr Alban. Yn arbennig, mae'n darparu gwasanaethau newyddion cywir a diduedd. Mae'r rhaglenni materion cyfoes yn trafod materion dinesig a gwleidyddol, yn rhoi cyd-destun ar gyfer materion yr Alban ac yn hwyluso trafodaeth. Mae BBC One Scotland yn llwyfan i ddigwyddiadau arbennig sydd ag arwyddocâd arbennig i gynulleidfaoedd prif ffrwd yr Alban. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer eleni yn cynnwys:

Blaenoriaeth	***Rhesymwaith***
Darlledu rhaglenni am etholiadau Seneddol a lleol 2007 yr Alban, gyda chamerâu ym mhob canolfan gyfrif ledled yr Alban a phob canlyniad yn cael ei recordio ar-lein. Bydd dadl rhwng yr Arweinwyr hefyd (darllediad cydamserol ar Radio Scotland).	Elfen allweddol o ddarparu gwasanaeth newyddion a materion cyfoes cywir, diduedd ac annibynnol i'n cynulleidfaoedd, fel bod ein cynulleidfaoedd yn gallu dwyn y bobl â phŵer gwleidyddol i gyfrif.
Buddsoddi mewn doniau comedi newydd ac annog amrywiaeth o leisiau mewn rhaglenni, trwy gyflwyno dwy gomedi sefyllfa newydd ar BBC One Scotland	Cydnabod pwysigrwydd meithrin a datblygu doniau newydd o bob cwr o'r Alban a thu hwnt a chofio am awch cynulleidfa'r Alban am gomedi ac adloniant o safon uchel
Darlledu o leiaf 450 awr o raglenni byw neu wreiddiol amrywiol o bob math	Uchelgais i gynnal y detholiad a'r cymysgedd cyfredol a dal ati i ddarparu rhaglenni o safon uchel sy'n diddanu'r gwylwyr

Fframwaith mesur perfformiad

Mae manylion cwotas statudol a rhwymedigaethau eraill i'w cyflawni gan BBC One, ar y cyd â gwasanaethau eraill y BBC, wedi'u cynnwys yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC One. Bydd BBC One Scotland yn gweithio gyda'r gwasanaeth rhwydwaith i fodloni'r gofynion hyn fel sy'n briodol. Yn arbennig:

Cyrhaeddiad: Dylai BBC One Scotland helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei chyrhaeddiad wythnosol ei hun.

Ansawdd: Y gynulleidfa'n rhoi sêl ei bendith i BBC One Scotland ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)

Effaith: Y gynulleidfa o'r farn bod BBC One Scotland yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.

Gwerth am arian: *Cost y gwyliwr yr awr* BBC One Scotland

Ymrwymiadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymiadau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, bydd BBC One Scotland yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC One fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC One.

Atodiad BBC One Wales

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC One Wales yn ategu amserlen rhwydwaith BBC One trwy ddarparu rhaglenni o bob math sy'n apelio at gynulleidfaoedd prif ffrwd Cymru ac sy'n cymryd lle rhaglenni BBC One yn llwyr neu'n eu symud i ran arall o'r amserlen. Mae'r gwasanaeth yn darparu rhaglenni sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth Cymru i wylwyr yng Nghymru a dyma yw prif gyfrwng y BBC ar gyfer darlledu digwyddiadau pwysig sy'n digwydd Cymru.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Mae BBC One Wales yn llwyfan i raglenni o bob math, gan feithrin a defnyddio doniau o Gymru i gyflenwi rhaglenni o safon uchel sy'n uno'r genedl. Yn arbennig, mae'n darparu gwasanaethau newyddion cywir a diduedd. Mae'r rhaglenni materion cyfoes yn trin a thrafod bywyd dinesig a gwleidyddol, yn rhoi cyd-destun ar gyfer materion Cymreig ac yn adlewyrchu safbwyntiau amrywiol yng Nghymru.

Yn y flwyddyn i ddod, mae blaenoriaethau BBC One Wales yn cynnwys:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar gyda mentrau pwysig yn ymwneud ag Etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai, gyda'r nod o ragori ar gyrhaeddiad rhaglenni yn ystod Etholiadau'r Cynulliad yn 2003	Cefnogi ac arddangos ymrwymiad y BBC i gynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil.
Apelio mwy at grwpiau blaenoriaeth yn y gynulleidfa nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd trwy raglenni drama a chomedi o safon uchel a rhaglenni eraill fel *Coal House*, menter hanes realiti aml-lwyfan.	Cefnogi amcan BBC One i wneud y sianel yn fwy apelgar i gynulleidfaoedd iau.

Fframwaith mesur perfformiad

Mae manylion cwotas statudol a rhwymedigaethau eraill i'w cyflawni gan BBC One, ar y cyd â gwasanaethau eraill y BBC, wedi'u cynnwys yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC One. Bydd BBC One Wales yn gweithio gyda'r gwasanaeth rhwydwaith i fodloni'r gofynion hyn fel sy'n briodol. Yn arbennig:

Cyrhaeddiad: Dylai BBC One Wales helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei chyrhaeddiad wythnosol ei hun.

Ansawdd: Y gynulleidfa'n rhoi sêl ei bendith i BBC One Wales ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)

Effaith: Y gynulleidfa o'r farn bod BBC One Wales yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.

Gwerth am arian: *Cost y gwyliwr yr awr* BBC One Wales

Ymrwymiadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymiadau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, bydd BBC One Wales yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC One fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC One.

Atodiad BBC One Northern Ireland

Cylch Gwaith y Gwasanaeth

Mae BBC One Northern Ireland yn ategu amserlen rhwydwaith BBC One trwy ddarparu rhaglenni o bob math sy'n apelio at gynulleidfaoedd prif ffrwd Gogledd Iwerddon ac sy'n cymryd lle rhaglenni BBC One yn llwyr neu'n eu symud i ran arall o'r amserlen. BBC One Northern Ireland yw prif gyfrwng y BBC ar gyfer darlledu digwyddiadau pwysig Gogledd Iwerddon.

Blaenoriaethau'r Gwasanaeth

Mae BBC One Northern Ireland yn ategu uchelgais a phwrpas golygyddol teledu rhwydwaith gyda rhaglenni sy'n adlewyrchu natur ddeinamig ac amrywiaeth bywyd yng Ngogledd Iwerddon. Mae ei rhaglenni'n ceisio apelio at gynulleidfa gyffredinol trwy raglenni newyddion, materion cyfoes, adloniant, dogfen a rhaglenni eraill sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol ac sy'n berthnasol i'r rhanbarth. Yn y flwyddyn i ddod, bydd blaenoriaethau allweddol BBC One Northern Ireland yn cynnwys:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Cynnal sêl bendith y gynulleidfa ar gyfer rhaglenni newyddion BBC One Northern Ireland yn ystod yr oriau brig gyda *BBC Newsline* ac ar adegau eraill yn yr amserlen.	Mae cynulleidfaoedd yn disgwyl adroddiadau a dadansoddiadau awdurdodol ac uchelgais, amrywiaeth a threiddgarwch golygyddol gan BBCNI. Mae BBC One Northern Ireland wedi ymrwymo i gynhyrchu 325 awr o raglenni newyddion a materion cyfoes yn 2007/2008.
Cynhyrchu 100 awr o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion o bob math sy'n adlewyrchu bywyd yng Ngogledd Iwerddon ac yn ategu rhaglenni'r rhwydwaith. Mae enghreifftiau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys *The North West 200, Nolan Live* a *Blueprint NI.*	Dylai BBCNI adlewyrchu a chysylltu â diddordebau a phryderon trawstoriad eang o bobl leol. Dylai gyflenwi rhaglenni o fathau gwahanol sy'n amrywio o ran cynnwys ac arddull.

Fframwaith mesur perfformiad

Mae manylion cwotas statudol a rhwymedigaethau eraill i'w cyflawni gan BBC One, ar y cyd â gwasanaethau eraill y BBC, wedi'u cynnwys yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC One. Bydd BBC One Northern Ireland yn gweithio gyda'r gwasanaeth rhwydwaith i fodloni'r gofynion hyn fel sy'n briodol. Yn arbennig:

Cyrhaeddiad: Dylai BBC One Northern Ireland helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei chyrhaeddiad wythnosol ei hun.

Ansawdd: Y gynulleifa'n rhoi sêl ei bendith i BBC One Northern Ireland ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)

Effaith: Y gynulleidfa o'r farn bod BBC One Northern Ireland yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.

Gwerth am arian: *Cost y gwyliwr yr awr* BBC One Northern Ireland

Ymrwymiadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymiadau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, bydd BBC One Northern Ireland yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC One fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC One.

BBC Two

Cylch gwaith y gwasanaeth

Sianel amrywiol yw BBC Two sy'n apelio at gynulleidfa eang o oedolion gyda rhaglenni treiddgar o sylwedd. Dyma'r sianel deledu BBC sy'n darlledu rhaglenni toreithiog o bob math sy'n cynyddu gwybodaeth pobl a chânt eu hategu gan raglenni comedi, drama a chelfyddydol unigryw.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Bydd BBC Two yn parhau i gomisiynu rhaglenni o safon uchel ym mhob maes sy'n herio ac ehangu gorwelion gwylwyr. Yr her allweddol yn y flwyddyn i ddod yw cynnal amrywiaeth a safon rhaglenni'r sianel, yn enwedig rhaglenni ffeithiol a chomedi, tra'n sicrhau ein bod yn denu cynulleidfa eang.

O fewn hyn, mae blaenoriaethau allweddol y flwyddyn i ddod yn cynnwys:

Blaenoriaeth	Rhesymwaith
Cynnal cyrhaeddiad trwy gynyddu nifer y rhaglenni ffeithiol a ffuglen sy'n apelio at bobl dan 45 oed.	Fel un o wasanaethau prif ffrwd allweddol y BBC, mae gan BBC Two gyfraniad pwysig o ran apelio at wahanol grwpiau o'r gynulleidfa.
Canolbwyntio ar dorri tir newydd mewn comedi trwy ddatblygu comedïau sefyllfa, fformatau comedi a rhaglenni sgetshis newydd a allai apelio at y gynulleidfa brif ffrwd.	Mae gan BBC Two ran bwysig yn y gwaith o ddatblygu rhaglenni comedi a meithrin doniau comedi a allai gael eu trosglwyddo i BBC One maes o law.

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Hyrwyddo addysg a dysgu

BBC Two yw prif sianel datblygu gwybodaeth y BBC. Mae gennym ddau nod: ehangu gorwelion ein cynulleidfa a darparu rhaglenni sy'n bwydo'u diddordebau. Gwnawn hyn trwy greu effaith gyda'n rhaglenni arloesol a rhaglenni am ddigwyddiadau a thrwy gynnig detholiad o raglenni ym mhob maes o bwys. Rydym yn manteisio ar wasanaethau rhyngweithiol i ehangu effaith.

Eleni, byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i bynciau byd natur a gwyddoniaeth gyda'n rhaglenni *Natural World* a *Horizon*. Bydd *Springwatch* ac *Autumnwatch* yn dychwelyd i roi golwg bellach ar gynefinoedd anifeiliaid ledled y DU. Bydd rhaglenni arwyddocaol yn cynnwys *Earth: the Biography* ym maes gwyddoniaeth a *Ganges: Tiger River* ym maes byd natur.

Eleni bydd BBC Two yn:

- Darlledu 500 awr o raglenni ffeithiol newydd.
- Rhannu ymrwymiad gyda BBC One i gynnig o leiaf 500 awr o raglenni plant bob blwyddyn

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae gan BBC Two ymrwymiad i ddarlledu rhaglenni celfyddydol a cherddoriaeth o bob math. Byddwn yn portreadu bywydau cerddorion a pherfformwyr yn *The Seven Ages of Rock*. Bydd rhaglenni celfyddydol yn cynnwys rhaglenni dogfen sylweddol am Rudolf Nureyev ac Andrea Bocelli.

Bydd detholiad o raglenni comedi newydd, dramâu unigryw a ffilmiau o Brydain yn ategu craidd ffeithiol ein hamserlen. Byddwn yn lansio nifer o gomedïau o'r DU, gan gynnwys y gomedi sefyllfa *Roman's Empire, The Life and Times of Vivian Vyle* gyda Jennifer Saunders a *The Peter Serafinowicz Show*.

Bydd BBC Two yn cynnig ein harlwy fwyaf erioed o ffilmiau Prydeinig gyda thymor *British Film* – detholiad eang o ffilmiau a doniau'r DU gyda rhywbeth at ddant pawb. Bydd rhaglenni ffeithiol a dogfen yn cyd-fynd â'r tymor.

Yn y flwyddyn i ddod byddwn ni'n:

- Darlledu o leiaf 200 awr o raglenni celfyddydol a cherddoriaeth, gan gynnwys y diweddaraf yn y byd celfyddydau a diwylliant yn *The Culture Show* a digwyddiad gyda dewisiadau lleol fel bod pobl y tu allan i Lundain yn cael cyfle i fwynhau arddangosfa haf y Royal Academy

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Mae BBC Two yn darlledu rhaglenni dadansoddi'r newyddion a materion cyfoes treiddgar, cywir ac annibynnol sy'n edrych ar amrywiaeth eang o safbwyntiau a materion. Bydd Newsnight yn parhau i ddadansoddi ac ymateb i brif straeon y dydd bob nos yn ystod yr wythnos.

Mae materion amgylcheddol yn bwysig i'n gwylwyr o hyd a byddwn yn mynd i'r afael â rhai agweddau ar y pwnc enfawr hwn yn *It's Not Easy Being Green,* a fydd yn edrych ar agweddau ymarferol bod yn ystyriol o'r amgylchedd. Yn ogystal, bydd tair ffilm gan y gohebydd Tim Samuels yn edrych ar faterion cymdeithasol trwy gynnal digwyddiadau cyhoeddus cofiadwy.

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu o leiaf 100 awr o newyddion
- Darlledu o leiaf 240 awr o faterion cyfoes

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae BBC Two yn adlewyrchu ac yn cynrychioli amrywiaeth ei chynulleidfa, gan gyfleu safbwyntiau, meddyliau a chredoau o bob math yn y DU i'w gwylwyr.

Daw llawer o'n rhaglenni o'n cymunedau neu maent yn cael eu cynhyrchu ar y cyd â chymunedau. Yn y flwyddyn i ddod, bydd *Comedy Map of Britain* a *Coast* yn canolbwyntio ar gymunedau amrywiol yn y DU yn eu ffordd eu hunain. Yn y gyfres arwyddocaol *Great British Journeys* bydd Nick Crane yn cwblhau deg taith trwy ardaloedd gwyllt Prydain ar droed, ar geffyl a hyd yn oed mewn cwrwgl. Byddwn hefyd yn datblygu rhaglenni a fydd yn canolbwyntio ar feysydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd ifanc yn eu harddegau.

Rydym yn darlledu rhai o brif ddigwyddiadau chwaraeon y DU, gan gynnwys tenis, snwcer, bowlio a dartiau, sy'n dod â chymunedau o ddiddordeb at ei gilydd.

Yn 2007/2008 bydd BBC Two yn:

- Darlledu 430 awr o chwaraeon
- Darlledu o leiaf 20 awr o raglenni crefyddol (fel rhan o 112 awr ar BBC One a BBC Two)

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Mae BBC Two yn dilyn agenda ryngwladol eang yn ei materion cyfoes ac yn sicrhau bod rhaglenni ffeithiol, cerddoriaeth a chelfyddydol yn adlewyrchu themâu rhyngwladol. Eleni rydym yn cynllunio tymor o raglenni pwysig i nodi pen-blwydd ymraniad ac annibyniaeth India a Phacistan. Bydd uchafbwyntiau'n cynnwys cyfres ddogfen bwysig am India a Phacistan heddiw, ochr yn ochr â rhaglenni'n trafod themâu hanesyddol gwahanol.

Bydd tymor anthropolegol yn cynnwys *Woman of the Tribe* a chyfres newydd o *Tribe* gyda'r anturiaethwr Bruce Parry.

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae BBC Two yn mynd ati'n rheolaidd i gynyddu effaith rhaglenni trwy'u cysylltu â chynnwys rhyngweithiol fel y gall gwylwyr unigol archwilio'u diddordebau i'r graddau y dymunant.

Er enghraifft, law yn llaw â'r gyfres *Seven Ages of Rock* bydd fideo o wybodaeth ychwanegol unigryw am yr artistiaid, gyda'r wybodaeth honno'n dilyn llinell amser ryngweithiol, a bydd cyfle i ddefnyddwyr rannu eu hatgofion personol am y digwyddiadau allweddol sy'n cael eu trafod yn y rhaglenni gyda'r gerddoriaeth yn gefndir i'w bywydau; a bydd *Springwatch* ac *Autumnwatch* yn parhau i ategu rhaglenni eang eu hapêl trwy arolygon, gwegamerâu byw, negesfyrddau a deunydd fideo unigryw ar gyfer y wefan.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai BBC Two helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei chyrhaeddiad wythnosol ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i BBC Two ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	Y gynulleidfa o'r farn bod BBC Two yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwyliwr yr awr* BBC Two.

Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.
- 70% o raglenni a 90% o raglenni oriau brig i fod yn rhai gwreiddiol (darllediad cyntaf ac ailddarllediad).

Yn ogystal, mae BBC One yn rhannu'r ymrwymiadau canlynol:

- O ran materion cyfoes, bydd BBC One a BBC Two rhyngddynt yn darparu o leiaf 365 awr o raglenni rhwydwaith, gydag o leiaf 105 awr yn yr oriau brig.
- O leiaf 6,580 awr o raglenni rhanbarthol o bob math, gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol ar gyfer BBC One.
- Dylai o leiaf 95% o raglenni rhanbarthol gael eu gwneud yn yr ardal berthnasol [ymrwymiad BBC One a BBC Two].
- 1,030 awr o raglenni rhanbarthol yn yr oriau brig, a 355 awr arall ar adegau nesaf at yr oriau brig (h.y. yr awr bob ochr i'r oriau brig) ac eithrio newyddion ar BBC One [ymrwymiad BBC One a BBC Two].

Ac ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu allan i'r M25.
- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu allan i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu gwahanol a ddefnyddir ledled y DU.

Atodiad BBC Two Scotland

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Two Scotland yn diwallu anghenion a diddordebau arbennig cynulleidfaoedd yr Alban, gan ategu apêl rhaglenni rhwydwaith ar BBC Two.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth ar gyfer 2007/2008

Mae BBC Two Scotland yn cyflawni'i chylch gwaith gan amlaf trwy symud rhaglenni rhwydwaith i wneud lle i raglenni a gynhyrchwyd yn yr Alban ar gyfer cynulleidfaoedd yr Alban. Mae'r rhaglenni'n canolbwyntio ar y celfyddydau, diwylliant a gwleidyddiaeth, gan roi lle blaenllaw i straeon, treftadaeth a doniau lleol. Mae darlledu digwyddiadau cerddorol, diwylliannol a chwaraeon yn rhoi llais i draddodiadau cynulleidfaoedd yr Alban. Yn ogystal, fel y brif sianel deledu ddarlledu ar gyfer rhaglenni Gaeleg, mae'n cynnig rhaglenni o ddiddordeb arbennig i'r gymuned Gaeleg ei hiaith. Mae ein blaenoriaethau eleni'n cynnwys:

Blaenoriaeth	Rhesymwaith
Adlewyrchu a chyfrannu at Flwyddyn Diwylliant yr Ucheldir 2007 yn yr Alban, gydol y flwyddyn, gydag amrywiaeth o gyfresi a rhaglenni unigol	Cydnabod pwysigrwydd sylfaenol hanes, treftadaeth a chelfyddydau lleol i gymunedau'r Ucheldiroedd a'r Ynysoedd a ledled yr Alban
Dathlu Music 07 yr Alban gyda chyfres sylweddol a fydd yn edrych ar wreiddiau cerddoriaeth frodorol yn yr Alban a dylanwadau arni	Adlewyrchu'r cyfoeth o ddawn greadigol yn yr Alban, mewn mathau gwahanol o gerddoriaeth, a'r ffactorau cymdeithasol a gyfrannodd at lunio'r elfen hon o'i threftadaeth ddiwylliannol
Datblygu a chomisiynu cynnwys a allai gael ei ddefnyddio ar sawl llwyfan.	Cynnydd naturiol mewn perthynas ag amcan ehangach BBC Scotland i weithio gyda Seirbheis nam Meadhanan Gaidhlig a chyrff perthnasol i ddatblygu partneriaeth i ddarparu Gwasanaeth Digidol Gaeleg (a gaiff ei lansio o gael cymeradwyaeth).

Fframwaith mesur perfformiad

Mae manylion cwotas statudol a rhwymedigaethau eraill i'w cyflawni gan BBC Two, ar y cyd â gwasanaethau eraill y BBC, wedi'u cynnwys yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC Two. Bydd BBC Two Scotland yn gweithio gyda'r gwasanaeth rhwydwaith i fodloni'r gofynion hyn fel sy'n briodol. Yn arbennig:

Cyrhaeddiad: Dylai BBC Two Scotland helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei chyrhaeddiad wythnosol ei hun.

Ansawdd: Y gynulleidfa'n rhoi sêl ei bendith i BBC Two Scotland ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)

Effaith: Y gynulleidfa o'r farn bod BBC Two Scotland yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.

Gwerth am arian: *Cost y gwyliwr yr awr* BBC Two Scotland

Ymrwymiadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymiadau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, bydd BBC Two Scotland yn cyflawni fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC Two fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC Two.

Atodiad BBC Two Wales

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae gwasanaeth BBC Two Wales yn darparu rhaglenni amrywiol i Gymru, gan apelio at gynulleidfa eang gyda rhaglenni perthnasol a threiddgar. Mae'n darparu amrywiaeth o raglenni sy'n ategu gwybodaeth gwylwyr ynghyd â rhaglenni dogfen am gefn gwlad a'r gymdeithas gyfoes sydd â'r nod o fod yn ddiddorol ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Mae BBC Two Wales yn cyflawni'i chylch gwaith gan amlaf trwy symud rhaglenni rhwydwaith i wneud lle i raglenni a gynhyrchwyd yng Nghymru ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru. Rydym yn canolbwyntio ar raglenni ffeithiol sy'n ehangu gorwelion, gan gynnwys rhaglenni am hanes a chefn gwlad, ac mae cyfran arwyddocaol o raglenni oriau brig yn canolbwyntio ar Gymru - ddoe, heddiw ac yfory. Mae BBC Two Wales hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu arloesedd a doniau newydd yng Nghymru ac yn darlledu amrywiaeth o raglenni o'r prif ddigwyddiadau diwylliannol yng Nghymru. Mae ein blaenoriaethau eleni'n cynnwys:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Cynnig detholiad o raglenni mewn sawl maes fel bod rhywbeth at ddant pawb	Cynorthwyo amcanion BBC Wales a BBC Two i ehangu apêl rhaglenni y tu hwnt i gynulleidfaoedd y cadarnleoedd.
Cyfnerthu chwaraeon fel asgwrn cefn BBC Two Wales trwy ddarlledu dadansoddiadau a thrafodaethau manwl, trwy raglenni rygbi ar *Scrum V* a'r rhaglen newydd *Inside Sport* a fydd yn trafod amrywiaeth eang o chwaraeon a materion chwaraeon.	Mae chwaraeon yng Nghymru yn denu cynulleidfaoedd mawr ac eang i BBC Two yn gyson. Cefnogir hyn gan lefelau gwerthfawrogiad uwch na'r cyfartaledd.

Fframwaith mesur perfformiad

Mae manylion cwotas statudol a rhwymedigaethau eraill i'w cyflawni gan BBC Two, ar y cyd â gwasanaethau eraill y BBC, wedi'u cynnwys yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC Two. Bydd BBC Two Wales yn gweithio gyda'r gwasanaeth rhwydwaith i fodloni'r gofynion hyn fel sy'n briodol. Yn arbennig:

Cyrhaeddiad: Dylai BBC Two Wales helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei chyrhaeddiad wythnosol ei hun.

Ansawdd: Y gynulleidfa'n rhoi sêl ei bendith i BBC Two yng Nghymru ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)

Effaith: Y gynulleidfa o'r farn bod BBC Two yng Nghymru yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.

Gwerth am arian: *Cost y gwyliwr yr awr* BBC Two Wales

Ymrwymiadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymiadau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, bydd BBC Two Wales yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC Two fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC Two.

Atodiad BBC Two Northern Ireland

Cylch Gwaith y Gwasanaeth

Mae BBC Two Northern Ireland yn darparu rhaglenni arbenigol sy'n adlewyrchu anghenion a diddordebau cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon ac sy'n ategu amrywiaeth ac apêl y rhaglenni rhwydwaith ar BBC Two NI.

Blaenoriaethau'r Gwasanaeth

Mae BBC Two Northern Ireland yn cyflawni'i chylch gwaith gan amlaf trwy symud rhaglenni rhwydwaith i wneud lle i raglenni a gynhyrchwyd yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer cynulleidfaoedd lleol. Mae BBC Two Northern Ireland yn ategu rhaglenni'r teledu rhwydwaith gyda rhaglenni arbenigol sy'n adlewyrchu bywyd cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n darlledu rhaglenni materion cyfoes, cerddoriaeth, iaith leiafrifol, chwaraeon a rhaglenni cysylltiedig. Yn y flwyddyn i ddod, bydd blaenoriaethau allweddol BBC Two Northern Ireland yn cynnwys:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Darlledu rhaglenni sy'n adlewyrchu, yn dathlu ac yn archwilio bywyd yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys *The Blackstaff Sessions*, *Hearts and Minds* a rhaglenni am y Milk Cup.	Dylai BBC Two Northern Ireland fod yn gyfrwng ar gyfer rhaglenni arbenigol ac archif. Dylid ei defnyddio hefyd i ehangu cynulleidfa rhaglenni teledu lleol trwy ddarparu ailddarllediadau ar amseroedd priodol.
Adlewyrchu diddordebau lleiafrifol ac arbenigol, gan gynnwys *SRL*, Cwpan Rygbi'r Byd Dan 19 oed ac *ATL Rockschool*	Dylai BBC Two Northern Ireland ddarparu rhaglenni sy'n adlewyrchu traddodiadau chwaraeon, diwylliannol ac ieithyddol ochr yn ochr â darllediadau o Gynulliad Gogledd Iwerddon.

Fframwaith mesur perfformiad

Mae manylion cwotas statudol a rhwymedigaethau eraill i'w cyflawni gan BBC Two, ar y cyd â gwasanaethau eraill y BBC, wedi'u cynnwys yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC Two. Bydd BBC Two Northern Ireland yn gweithio gyda'r gwasanaeth rhwydwaith i fodloni'r gofynion hyn fel sy'n briodol. Yn arbennig:

Cyrhaeddiad: Dylai BBC Two Northern Ireland helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei chyrhaeddiad wythnosol ei hun.

Ansawdd: Y gynulleidfa'n rhoi sêl ei bendith i BBC Two Northern Ireland ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)

Effaith: *llawn her*. Y gynulleidfa o'r farn bod BBC Two Northern Ireland yn *ddeniadol* ac yn

Gwerth am arian: *Cost y gwyliwr yr awr* BBC Two Northern Ireland

Ymrwymiadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymiadau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, bydd BBC Two Northern Ireland yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC Two fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC Two.

BBC Three

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Three yn denu cynulleidfaoedd iau i wasanaeth darlledu cyhoeddus o safon uchel trwy amserlen sy'n cynnwys rhaglenni arloesol o bob math sy'n dangos doniau newydd y DU. Mae'r sianel yn defnyddio'r holl lwyfannau digidol i ddarparu'i chynnwys a meithrin perthynas ryngweithiol gyda'i chynulleidfa.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Mae amserlen BBC Three yn cynnwys rhaglenni o bob math, o newyddion a materion cyfoes i ddrama a'r celfyddydau. Mae adloniant – yn enwedig comedi – yn elfen allweddol o'r sianel a dyma lle'r ydym yn fwyaf tebygol o arbrofi a thorri tir newydd, gan fod yn feiddgar ac arddangos doniau newydd a syniadau newydd. Bydd ein rhaglenni ym mhob maes yn denu cynulleidfaoedd iau yn gyson.

Y blaenoriaethau allweddol eleni yw:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Adeiladu pecyn cyson, cadarn ar gyfer yr oriau brig min nos.	Wrth i ddewis gwylwyr barhau i dyfu, rhaid i BBC Three gynyddu effaith ei rhaglenni i gadw'i chynulleidfa
Cynyddu apêl a chyrhaeddiad y sianel ymysg pobl 16-34 oed trwy gynnig rhaglenni mewn sawl maes sy'n denu ac yn adlewyrchu amrywiaeth ei chynulleidfa darged, fel *The Mighty Boosh* ym maes comedi, *Panic Room* ym maes rhaglenni ffeithiol a digwyddiadau cerddoriaeth byw	Mae BBC Three wedi ymrwymo i ddarparu cynnwys o safon uchel sy'n diddanu, yn addysgu ac yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau mewn amrywiaeth o bynciau mewn gwahanol feysydd
Parhau i fuddsoddi mewn cynnwys a pherfformwyr comedi newydd o'r DU – fel Karen Taylor o *Touch Me, I'm Karen Taylor* – a rhoi cyfle iddynt arbrofi a bod yn feiddgar	Tra bo comedi o UDA yn fwyfwy cyffredin, mae BBC Three yn ymroi i ddatblygu doniau comedi o'r DU i gynnig rhaglenni unigryw sy'n apelio at wylwyr iau
Parhau i gefnogi digwyddiadau trawiadol, e.e. cerddoriaeth, sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cynulleidfa a'u profiad, arwain y ffordd o ran defnyddio llwyfannau digidol newydd fel bod mwy o bobl yn cael cyfle i weld ein rhaglenni	Bydd cynnwys ag effaith sylweddol a'r defnydd o lwyfannau digidol yn cynyddu ymwybyddiaeth o BBC Three a'i henw da ymysg ei chynulleidfa darged

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae BBC Three yn ymroddedig i gefnogi arloesedd creadigol, datblygu doniau newydd a bod yn feiddgar. Rydym yn cefnogi cynnwys newydd o Brydain ym mhob maes. Eleni'n benodol byddwn yn buddsoddi mewn nifer o gomedïau o Brydain fel *Gavin and Stacey*, cyfres wedi'i lleoli yng Nghymru ac Essex, *Adam and Shelley*, rhaglen sgetshis digrif newydd, yn ogystal ag ail gyfres o'r gomedi lwyddiannus *Drop Dead Gorgeous*. Bydd gan bob un o'r cyfresi hyn ei gwefan ei hun.

Mae BBC Three yn fan arbrofi i ddoniau newydd a rhai sy'n dechrau gwneud enw iddynt eu hunain
- cadwch olwg am yr actorion comedi Adam a Shelley Longworth yn *Adam and Shelley.*

Eleni byddwn ni'n:

- Darparu o leiaf 50 awr o raglenni cerddoriaeth a chelfyddydol newydd, gan gynnwys cerddoriaeth fyw o *Glastonbury*, *Reading and Leeds* a *T in the Park*.

- Sicrhau bod o leiaf 20% o'n rhaglenni'n cynnig cymorth rhyngweithiol bob blwyddyn

Hyrwyddo addysg a dysgu

Mae BBC Three yn ceisio creu enw da i'w hun am raglenni sy'n cynyddu gwybodaeth pobl drwy fynd i'r afael â phynciau hen a newydd mewn ffyrdd sy'n teimlo'n wahanol, yn newydd ac yn ddiddorol i gynulleidfaoedd iau. Byddwn yn defnyddio dulliau a fformatau gwreiddiol mewn meysydd ffeithiol arbenigol fel gwyddoniaeth, busnes, magu plant, credo a hil, hyrwyddo dysgu anffurfiol ac ehangu gorwelion unigolion. Eleni byddwn yn dod â materion amgylcheddol i sylw cynulleidfa iau yn y gyfres *Outrageous Wasters.*

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu o leiaf 50 awr o raglenni ffeithiol newydd sy'n cynyddu gwybodaeth bob blwyddyn, gan gynnwys *The Liverpool Nativity* a fydd yn adrodd hanes y Nadolig cyntaf trwy gerddoriaeth Lerpwl

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Mae BBC Three wedi ymrwymo i ddangos newyddion, materion cyfoes a rhaglenni dogfen mewn modd arloesol ac unigryw i ddenu cynulleidfaoedd iau. Cyflwynir y newyddion mewn bwletinau byr o benawdau gydol min nos yn ystod yr wythnos, tra bod rhaglenni dogfen yn canolbwyntio ar adlewyrchu bywyd yn y DU heb fod ofn trafodaeth neu godi nyth cacwn. Ymhlith y pynciau rydym yn gobeithio mynd i'r afael â nhw eleni mae polisi trafnidiaeth, rhyddid sifil a chywirdeb gwleidyddol.

Ar gyfer 2007/2008 byddwn ni'n:

- Darlledu o leiaf 15 awr o raglenni materion cyfoes newydd bob blwyddyn. Eleni, byddan nhw'n cynnwys cyfres newydd o'r rhaglen arobryn *Mischief*, sy'n ceisio mynd i'r afael â materion cyfoes difrifol i roi gwybodaeth i wylwyr iau ac ymgysylltu â nhw

- Sicrhau bod tua 15% o'r oriau darlledu yn cynnwys newyddion, materion cyfoes, addysg, cerddoriaeth a'r celfyddydau, gan gynnwys tymor Body Image arall a fydd yn edrych ar bryderon ac obsesiynau pobl ifanc yn y DU mewn cyfres o raglenni dogfen unigryw

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Nod BBC Three yw ceisio cynhyrchu rhaglenni sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon cynulleidfaoedd iau mewn modd unigryw ac arloesol. Yn arbennig, mae'r sianel yn awyddus i adlewyrchu amrywiaeth ac agweddau amlddiwylliannol cymdeithas y DU yn ein rhaglenni (drwy bortreadu ar y sgrin ac yn y pynciau sy'n cael sylw) ac yn nharddiad ein rhaglenni.

Bydd llawer o'n rhaglenni yn adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau gwahanol y DU, er enghraifft, bydd *Drop Dead Gorgeous* a *The Liverpool Nativity* yn cael eu ffilmio yng Ngogledd Orllewin Lloegr; bydd y gyfres *Gavin and Stacey* wedi'i lleoli yng Nghymru ac Essex.

Yn ogystal, byddwn yn darlledu'n fwy eang na neb arall o wyliau cerddoriaeth byw o bob cwr o'r DU.

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Sianel Brydeinig yw BBC Three yn y bôn sy'n ymrwymedig i dalent a chynnwys o'r DU. Ond rydym yn cydnabod nad ydym yn bodoli mewn gwagle felly rydym hefyd yn darlledu newyddion a materion cyfoes sy'n mynd i'r afael â materion byd-eang a rhaglenni eraill sy'n edrych ar y byd ehangach. Er nad yw'r cynnwys hwn yn ganolog yn rhaglenni'r sianel, rydym serch hynny yn manteisio ar y cyfle i wneud y rhaglenni'n ddiddorol ac yn arloesol, fel *Last Man Standing* a fydd yn dilyn hynt a helynt chwe anturiaethwr o'r byd Gorllewinol wrth iddynt fyw a cheisio integreiddio gyda llwythi brodorol ar draws y byd.

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae BBC Three yn ganolog yn ymdrechion y BBC i adeiladu Prydain ddigidol. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o lwyfannau cyfryngau i sicrhau ein bod ni ar flaen y gad o ran technoleg - lle mae ein cynulleidfaoedd yn disgwyl i ni fod - fel eu bod yn gallu cael gafael ar ein cynnwys a

rhyngweithio ag ef. Bydd o leiaf 20% o'n rhaglenni cynnig cymorth rhyngweithio bob blwyddyn, gan gynnwys am y tro cyntaf eleni, gwasanaeth dangosiad cyntaf llawn o'r holl raglenni comedi a drama ar wefan y sianel. Bydd gwylwyr yr holl wyliau cerddoriaeth a rhai o gyngherddau Radio 1 yn gallu mwynhau'r cynnwys ar sawl llwyfan, gan gynnwys y gwasanaeth botwm coch, cyfle arall i wylio ar y rhyngrwyd a chynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai BBC Three helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynyddu ei chyrhaeddiad wythnosol ei hun, yn enwedig ymysg oedolion iau.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i BBC Three ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos gan gynnwys ailddarllediadau
Effaith:	Y gynulleidfa o'r farn bod BBC Three yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwyliwr yr awr* BBC Three.

Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- Bydd 80% o oriau, a 70% o oriau brig, yn rhaglenni newydd (mae cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys unrhyw raglenni a gomisiynir gan y BBC, heb gynnwys ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar sianel gwasanaeth cyhoeddus arall o eiddo'r BBC). [1]

- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.

Mae'r ymrwymiad canlynol wedi'i wneud i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

- Bydd o leiaf 90% o oriau rhaglenni yn tarddu o'r UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Ac ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu allan i'r M25.

- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu allan i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu gwahanol a ddefnyddir ledled y DU.

[1] I'w adolygu gan Ymddiriedolaeth y BBC yn 2007/08

BBC Four

Cylch gwaith y gwasanaeth

Sianel deledu'n cynnig rhaglenni amrywiol ar gyfer oedolion o bob oed yw BBC Four. Mae'n darlledu detholiad uchelgeisiol o raglenni arloesol o safon uchel sy'n ddeallusol ac yn ddiwylliedig.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Bydd BBC Four yn parhau i gomisiynu a darlledu amrywiaeth eang o raglenni diwylliedig ac arloesol sy'n trin a thrafod pynciau deallusol - o athroniaeth a syniadau, i wyddoniaeth a natur, i hanes, celf a pherfformio. Rydym yn adlewyrchu'r amrywiaeth o weithgarwch diwylliannol yn y DU ac yn cymryd cipolwg ar y byd ehangach hefyd - mae ein rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn arbennig yn rhoi cyd-destun a safbwyntiau byd-eang ac rydym yn cynnig y gorau o ffilmiau, teledu a rhaglenni dogfen rhyngwladol ac ieithoedd tramor. Bydd BBC Four yn ceisio cynyddu'i chynulleidfa gyda detholiad o gyfresi a thymhorau newydd.

Mae blaenoriaethau allweddol y flwyddyn i ddod yn cynnwys:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Parhau i ehangu apêl BBC Four a chryfhau natur unigryw'r sianel gyda rhaglenni fel *Landlords* a *Tibet* yn ein harlwy ffeithiol	Mae BBC Four am gynyddu'i chyrhaeddiad a'i chyfran o'r gynulleidfa, gan ddenu gwylwyr newydd tra'n cynnal ei chylch gwaith unigryw i ddarlledu rhaglenni sy'n cyfoethogi ac yn llawn her
Comisiynu tymhorau hwy o raglenni sy'n cael argraff fawr ac yn cyfrannu at enw da'r sianel, er enghraifft *The Birth of Now*, tymor am yr oes Edwardaidd	Mae tymhorau'n ffordd hynod effeithiol i BBC Four ddefnyddio nifer cyfyngedig o raglenni gwreiddiol i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae BBC Four yn mynd ati i geisio sbarduno, cefnogi ac adlewyrchu'r amrywiaeth o weithgareddwch diwylliannol yn y DU. Mae gennym agenda eang ac rydym yn ehangu'r dewis o ffilmiau a rhaglenni dogfen sy'n cael eu darlledu ar deledu.

O ran cerddoriaeth, byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i *The Proms* a byddwn hefyd yn cynnig tymor o gerddoriaeth glasurol, *Classical Britannia*. Yn *Bird Singing* ceir cydweithrediad artistig rhwng cerddoriaeth a chân yr adar.

Bydd ffotograffiaeth yn thema allweddol i ni eleni. Byddwn yn canolbwyntio ar ffotograffiaeth fel celfyddyd gyda chyfres bwysig *The Genius of Photography* a byddwn yn darlledu cyfres hanes ar ddiwrnodau cynharaf ffotograffiaeth liw. Bydd *Britain in Photographs* yn cwblhau'r arlwy gyda'i gweledigaeth gyfoes o ffotograffiaeth ddigidol y byd sydd ohoni.

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Bydd BBC Four yn parhau i fod yn hafan ddiogel i'r goreuon o blith ffilmiau, rhaglenni teledu a rhaglenni dogfen rhyngwladol ac ieithoedd tramor. Bydd y gyfres *Storyville* yn dathlu 10 mlynedd ers iddi ymddangos ar y sgrin gyntaf a bydd yn parhau fel ein prif lwyfan ar gyfer rhaglenni dogfen rhyngwladol.

Eleni byddwn ni'n darlledu tymor o raglenni am gerddoriaeth a diwylliant Brasil. Byddwn hefyd yn parhau i nodi dyddiadau rhyngwladol pwysig: *Indian School* ac *Office Tigers* fydd ein cyfraniad at dymor ehangach y BBC i nodi 60 mlynedd ers yr ymraniad ac annibyniaeth India a Phacistan, er enghraifft.

Bydd ein rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn parhau i fabwysiadu safbwynt rhyngwladol unigryw.

Dylai BBC Four:

- Ddarlledu o leiaf 30 o raglenni dogfen newydd o bedwar ban byd
- Darparu'r darllediad cyntaf o 20 o ffilmiau rhyngwladol newydd o leiaf bob blwyddyn (Diffinnir fel y darllediad cyntaf yn y DU ar sianel deledu ddigidol)

Hyrwyddo addysg a dysgu

Mae BBC Four yn ceisio cynyddu gwybodaeth gwylwyr trwy gynnig mwy o gyd-destun a bod yn fwy treiddgar nag unrhyw un o sianeli eraill y BBC. Rydym yn cyflwyno amrywiaeth uchelgeisiol o bynciau ac yn aml yn gwneud lle yn yr oriau brig i wneud pethau y mae sianeli prif ffrwd yn ei chael hi'n anodd eu gwneud, fel archwilio un thema'n hynod fanwl.

Yn benodol eleni byddwn yn edrych ar gymdeithas Edwardaidd yn *The Birth of Now*, tymor o raglenni sy'n bwrw golwg newydd ar oes sydd wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ein cymdeithas ni heddiw. O ran gwyddoniaeth, bydd detholiad o raglenni yn edrych ar bwysigrwydd mathemateg a ffiseg o dan adain *The Science You Can't See.* Byddwn hefyd yn bwrw golwg ar hanes crefydd yn *Protestantism.* Byddwn yn defnyddio arbenigwyr yn y rhaglenni uchelgeisiol hyn i egluro a dadansoddi'r materion hollbwysig sydd wrth wraidd y pwnc.

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Bydd BBC Four yn parhau i recordio a darlledu perfformiadau o wledydd a rhanbarthau'r DU.

Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i *Celtic Connections*, gan ddod â'r gorau o gerddoriaeth gyfoes a thraddodiadol i gynulleidfa ehangach. Yn dilyn ein rhaglenni llwyddiannus blaenorol am gerddoriaeth jazz a gwerin, bydd BBC Four yn ehangu'r brand Britannia i gynnwys cerddoriaeth glasurol, llenyddiaeth ffantasi a cherddoriaeth bop.

I ategu *Jekyll and Hyde* ar BBC One*,* bydd *Edinburgh* gan Ian Rankin yn edrych ar drosedd yng Nghaeredin mewn llenyddiaeth ac yn ymchwilio i ragflaenwyr cig a gwaed hanesyddol Dr Jekyll a Mr Hyde.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Mae BBC Four yn darparu newyddion a materion cyfoes byd-eang manwl mewn amrywiaeth o raglenni.

Bydd *Storyville* yn cymryd rhan mewn menter ddemocratiaeth fyd-eang, a fydd yn defnyddio rhaglenni dogfen i archwilio'r broses ddemocrataidd ym mhedwar ban byd.

Bydd *Beryl's Last Year* a *Chelsea Pensioners* yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â gofalu am yr henoed.

Bydd grŵp o raglenni dogfen arsylwadol gan gynnwys *Women's Institute* a *Doctors To Be* diwygiedig yn rhoi darlun pellach o gymdeithas Prydain fel ag y mae heddiw.

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae BBC Four yn defnyddio'i gwefan i annog cymunedau rhithwir i gyfnewid safbwyntiau a syniadau a gafodd eu trafod yn ein rhaglenni. Gan adeiladu ar lwyddiant y llinell amser Ffuglen Wyddonol ar-lein gyda gwylwyr yn ddiweddar, byddwn yn mynd ati eleni i annog ein cynulleidfa i gyfrannu at *The Edwardian Season*, wrth i ni geisio canfod hanesion personol a gwrthrychau ag arwyddocâd hanesyddol o'r cyfnod.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai BBC Four helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynyddu ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.

Ansawdd: Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i BBC Four ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos gan gynnwys ailddarllediadau

Effaith: Y gynulleidfa o'r farn bod BBC Four yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.

Gwerth am arian: *Cost y gwyliwr yr awr* BBC Four.

Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- Bydd 70% o oriau, a 50% o oriau brig, yn rhaglenni newydd (cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys unrhyw raglenni a gomisiynir gan y BBC, heb gynnwys ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar sianel gwasanaeth cyhoeddus arall o eiddo'r BBC).

Mae'r ymrwymiad canlynol wedi'i wneud i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

- Bydd o leiaf 70% o raglenni BBC Four yn tarddu o'r UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Ac ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu allan i'r M25.

- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu allan i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu gwahanol a ddefnyddir ledled y DU.

CBeebies

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae CBeebies yn cynnig rhaglenni o safon uchel sydd wedi'u cynhyrchu yn y DU gan mwyaf i addysgu a difyrru cynulleidfa ieuengaf y BBC. Mae'r gwasanaeth yn darparu amrywiaeth o raglenni sydd â'r nod o annog dysgu trwy chwarae i blant dan 6 oed a hynny mewn amgylchedd diogel.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Mae CBeebies yn darlledu cymysgedd o raglenni newydd o ansawdd uchel ag iddynt thema addysgol gref ac sy'n annog rhyngweithio. Mae llawer o'r cynnwys wedi'i gysylltu â'r cwricwlwm ysgol a chyn-ysgol. Mae'n ategu'r rhaglenni llinol gyda chynnwys digidol rhyngweithiol ym mhob un o'r meysydd cyn-ysgol fel y gall cynulleidfaoedd gymryd rhan neu gyfoethogi eu profiad o raglen.

Yn y flwyddyn i ddod mae blaenoriaethau allweddol CBeebies yn cynnwys:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Lansio a meithrin cynulleidfa i dair rhaglen newydd (*In the Night Garden*, *Tommy Zoom* a *Mama Mirabelle's Home Movies*) fel rhan o'r her gyffredinol i gynnal cynulleidfa wythnosol y gwasanaeth	Dylai CBeebies geisio o leiaf gynnal ei chynulleidfa mewn maes cynyddol gystadleuol
Denu mwy o blant 4-6 oed trwy gyflwyno rhaglenni newydd fel *Tommy Zoom*, *Space Pirates*, *Numberjacks* a *Jackanory Junior* sy'n targedu'r grŵp oed hwn	Nid yw'r BBC yn darparu digon ar gyfer plant 4-6 oed ar hyn o bryd a bydd y rhaglenni newydd hyn yn ein helpu i unioni hyn
Rhoi gwedd newydd i'r gwefannau magu plant i'w gwneud yn fwy deinamig ac yn haws i'w defnyddio. Gofalu eu bod nhw'n declyn magu plant ymarferol i 'ail' gynulleidfa CBeebies	Er mai sianel i blant 0-6 oed yw CBeebies yn bennaf, rydym hefyd yn cynorthwyo rhieni a gofalwyr, a hynny ar y cyd ag adrannau eraill y BBC yn aml
Darparu mwy o gynnwys – rhaglenni cyfan a chlipiau – ar-alw (yn amodol ar gymeradwyaeth).	Pan roddwyd *Charlie and Lola* ar-alw fel rhan o dreial band eang BBC Two, gwelwyd bod galw mawr ymysg gwylwyr iau a rhieni am i gynnwys addas gael ei ddarparu fel hyn

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae cynnwys CBeebies yn ennyn diddordeb plant mewn pob math o bynciau o gelf a choginio i gerddoriaeth a rhythm. Mae enghreifftiau eleni'n cynnwys *In the Night Garden* a *Take a Bow* (gyda'u cymysgedd o ddawns, cerddoriaeth a rhigwm, *Nina and the Neurons* (cyflwyno gwyddoniaeth syml) a *Scribble It* (darlunio).

Mae ein rhaglenni cylchgrawn, gan gynnwys *Tikkabilla,* yn cynnig taith o ddarganfod a dysgu, tra bod ein rhaglenni drama a storïol – fel *Jackanory Junior* – yn tanio dychymyg plant.

Rydym yn annog gwylwyr i gyfrannu'n greadigol bob dydd, o ddathlu pen-blwyddi i ddefnyddio cymwysiadau teledu rhyngweithiol sydd wedi'u cynllunio'n benodol i gefnogi ac ategu rhaglenni'r sianel.

Mae cyfran uchel o gynnwys CBeebies yn cael ei gynhyrchu yn y DU. Yn benodol eleni byddwn ni'n:

- Sicrhau bod o leiaf 75% o'n buddsoddiad mewn rhaglenni newydd o'r DU, gan gynnwys y cyfresi newydd *In the Night Garden* a *Tommy Zoom*

Hyrwyddo addysg a dysgu

Mae CBeebies yn cynnig cymysgedd o addysg ac adloniant ar sail 'dysgu trwy chwarae'.

Mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys wedi'i gysylltu â Chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac Amcanion Dysgu Cynnar ac fe'i datblygir a'i cynhyrchir gan ddefnyddio arbenigwyr cyn-ysgol. Eleni byddwn yn cynnig cymorth gydag iaith a llythrennedd ar ffurf *Something Special*, yn annog dealltwriaeth o rifau yn *Numberjacks*, yn hyrwyddo gwyddoniaeth gyda *Nina and the Neurons* a byddwn yn annog ein gwylwyr ifanc i ehangu eu golwg ar y byd trwy gyfrwng rhaglenni fel *Mama Mirabelle's Home Movies*.

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae ymdeimlad o berthyn yn bwysig i blant bach. Eleni, bydd *Balamory* yn parhau i feithrin ymdeimlad o gymuned a chyflwyno plant i sgiliau cymdeithasol sylfaenol. Mae *Me Too* yn adlewyrchu bywyd yn y feithrinfa ac yn y byd mawr tu allan, gan gyflwyno plant bach i brofiadau a chymunedau newydd.

Nod CBeebies yw chwalu ffiniau posib rhwng plant trwy bortreadu pobl o bob math o gefndiroedd a chydag amrywiaeth o alluoedd. Rydym yn cyflwyno amrywiaeth o wynebau ar y sgrin a byddwn yn parhau i bortreadu pobl o bob math o gefndiroedd a chydag amrywiaeth o alluoedd.

Eleni byddwn ni'n:

§ Darlledu dros 4,500 awr o raglenni

§ Sicrhau bod chwarter yr oriau darlledu yn y DU yn rhaglenni newydd, gan gynnwys rhai sy'n cael eu comisiynu y tu allan i Lundain, fel *Take a Bow, In the Night Garden, The Farmyard Bunch, Scribble It* a *Nina and the Neurons*

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae'r wefan bbc.co.uk/cbeebies hynod boblogaidd yn estyniad naturiol ar y gwasanaeth teledu ac mae'n darparu rhagor o gynnwys gwreiddiol, gemau a chyfleoedd creadigol fel y gall plant bach ryngweithio a chymryd rhan gyda'u hoff gynnwys. Yn ogystal, bydd y gwasanaethau ar-lein a rhyngweithiol yn parhau i gynorthwyo rhieni a gofalwyr trwy roi cyfle iddynt archwilio a dysgu mwy am ofal plant a dysgu cynnar.

Er mwyn tynnu sylw'r gynulleidfa analog at fanteision teledu digidol, bydd CBeebies yn parhau i ddangos rhai o'i rhaglenni gorau ar BBC One to BBC Two.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai CBeebies helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynyddu ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun, yn enwedig ymysg ei chynulleidfa darged.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i CBeebies ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	Y gynulleidfa o'r farn bod CBeebies yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwyliwr yr awr* CBeebies.

Ymrwymiadau Statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- Bydd 80% o oriau yn rhaglenni newydd (cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys unrhyw raglenni a gomisiynir gan y BBC, gan gynnwys rhaglenni newydd a'r holl ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar sianel gwasanaeth cyhoeddus arall o eiddo'r BBC).

Mae'r ymrwymiad canlynol wedi'i wneud i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

- Bydd tua 90% o raglenni'r sianel yn tarddu o'r DU/UE.

Ac ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu allan i'r M25.

- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu allan i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu gwahanol a ddefnyddir ledled y DU.

CBBC

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae Sianel CBBC (CBBC) yn cynnig amrywiaeth eang o raglenni unigryw o safon uchel i blant 6 i 12 oed, gan gynnwys drama, adloniant, comedi, animeiddio, newyddion a rhaglenni ffeithiol. Cynhyrchir y mwyafrif llethol o'r cynnwys yn y DU.

Mae CBBC yn darparu amgylchedd cyffrous, creadigol, difyr a diogel y gall pobl ymddiried ynddo. Mae'r sianel yn canolbwyntio'n arbennig ar ddysgu anffurfiol, gyda phwyslais ar annog cyfranogiad.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Mae CBBC yn cynnig amserlen gymysg gyda chydbwysedd o raglenni gwreiddiol a rhai wedi'u prynu gydol y dydd. Mae'n cynnig rhaglenni newydd a chyffrous o bob math gan gynnwys y gorau o raglenni cyfredol CBBC o BBC One a BBC Two a'r gorau oll o raglenni plant o bob cwr o'r byd. Cynhyrchir cyfran uchel o gynnwys CBBC yn y DU.

Yn y flwyddyn i ddod, mae blaenoriaethau allweddol CBBC yn cynnwys:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Cynnal cyrhaeddiad trwy roi hwb i'n cynnwys gyda rhaglenni newydd yn arbennig ar gyfer plant 6-12 oed – gan gynnwys *Sorcerer's Apprentice, Get 100, Shaun the Sheep, Do Something Different, Roman Mysteries*	Rhaid i CBBC geisio parhau i fod yn unigryw a chynnal ei chynulleidfa ar yr un pryd, her ddeuol mewn amgylchedd cynyddol gystadleuol
Cynnig o leiaf ddau wasanaeth newydd – CBBC World a MyCBBC (teitlau gwaith) – a fydd yn annog ,mwy o gyfranogiad a chynnwys gan wylwyr mewn amgylchedd mwy personol	Mae plant yn treulio mwy a mwy o amser ar-lein ac mae'n rhaid i CBBC gynnig mwy na darpariaeth linol yn unig. Mae cyfathrebu a chyfranogiad yn elfen bwysig o ddefnydd plant o'r cyfryngau
Darparu mwy o gynnwys – rhaglenni cyfan a chlipiau – ar-alw (yn amodol ar gymeradwyaeth).	Mae ymchwil yn awgrymu bod gan blant yr oed hwn archwaeth enfawr am gynnwys sy'n cael ei ddarparu ar-alw ond ychydig iawn o wasanaethau sydd ar eu cyfer hwy'n benodol

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae CBBC yn buddsoddi'n sylweddol mewn rhaglenni gwreiddiol o Brydain i greu amserlen amrywiol gyda blas unigryw'r DU arni gydol y dydd.

Mae ein dolenni cyflwyno byw – sy'n unigryw ymhlith sianeli plant y DU – yn golygu ein bod ni'n gallu rhyngweithio yn y fan a'r lle gyda'n cynulleidfa ac maent yn cael eu cydamseru fwyfwy gyda'n gwasanaethau ar-lein i greu brand cydgysylltiedig i'r llygaid. Rydym yn parhau i gymryd gofal mawr wrth gyflwyno cynnwys sydd wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer plant 6-12 oed yn y ffyrdd mwyaf priodol a difyr.

Mae ein rhaglenni drama ac adloniant Prydeinig, fel *M.I. High* a *Raven* yn tanio dychymyg ein gwylwyr ac yn cynnig tipyn o ryddhad o bwysau eu bywydau bob dydd.

Yn benodol eleni byddwn ni'n darlledu:

- 650 awr o ddrama

- 150 awr o gyflwyno 'byw'

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Mae Sianel CBBC yn cynnig rhaglenni ffeithiol ymhlith eraill sy'n cynorthwyo plant i ddeall a dysgu am faterion sy'n wynebu'r byd y maent yn byw ynddo. Prif ganolbwynt darpariaeth ddinasyddiaeth CBBC yw *Newsround*, yr unig wasanaeth newyddion yn y DU sy'n targedu plant. Fe'i hategir gan ddeunydd ar-lein sy'n cynnwys modiwl dysgu sy'n rhoi cyfle i'n gwylwyr ifanc ddatblygu sgiliau newyddiaduraeth sylfaenol (i fod yn *Press Packers*) a rhannu eu straeon.

Eleni, bydd CBBC yn:

- Darparu o leiaf dri bwletin newyddion byw y dydd
- Darlledu 85 awr o newyddion

Hyrwyddo addysg a dysgu

Nod llawer o raglenni ffeithiol a rhaglenni eraill CBBC yw rhoi cyfle i blant ddysgu a datblygu sgiliau bywyd. Bydd enghreifftiau eleni yn cynnwys *Serious Andes* a *Beat the Boss.* Bydd y ddrama *Desperados* yn edrych ar anabledd – mae'r gyfres yn dilyn hynt a helynt tîm pêl-fasged anabl sy'n rhoi gobaith i fachgen ifanc wrth iddo ddygymod â gorfod defnyddio cadair olwyn ar ôl cael ei anafu mewn damwain.

Mae'n rhaglenni teledu yn cael eu hategu a'u gwella gan bresenoldeb cynhwysfawr ar y we, man diogel ar y we lle gall plant ddarganfod mwy am bynciau sy'n berthnasol iddyn nhw a chysylltu â phlant eraill mewn amgylchedd diogel.

Yn benodol eleni byddwn ni'n:

- Darlledu dros 1,000 awr o raglenni ffeithiol ac ysgol, gan gynnwys *Roar*, *Blue Peter* a *Whizz Whizz Bang Bang*

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae CBBC yn cyflwyno amrywiaeth o wynebau ar y sgrin a bydd yn parhau i bortreadu pobl o bob math o gefndiroedd a chydag amrywiaeth o alluoedd.

Byddwn yn parhau i gyfrannu at gyflwyno'n cynulleidfa i weithgarwch a chyfrifoldeb cymunedol drwy raglenni fel *Blue Peter*, gyda'i hapeliadau elusennol a straeon rheolaidd, lleol sy'n ysbrydoli; *Newsround*, sy'n portreadu'r byd rydyn ni'n byw ynddo; ac ymgyrchoedd eraill ledled y BBC.

Bydd gwledydd BBC Two yn ymuno â Sianel CBBC i ddarparu ar gyfer plant y mae eu gwyliau haf yn cychwyn yn gynharach yn y flwyddyn.

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Mae CBBC yn canolbwyntio ar raglenni o'r DU ond rydym yn parhau i roi cyfle i'n gwylwyr weld y byd a'i bobloedd a'i ddiwylliannau amrywiol trwy lu o raglenni fel *Blue Peter, Serious Andes* a *Raven*. Byddwn yn parhau i ategu cynnwys lleol trwy brynu'r rhaglenni plant rhyngwladol gorau – eleni bydd y gyfres *Dogstar* o Awstralia'n cael ei darlledu yn y DU am y tro cyntaf.

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae rhyngweithio'n sail i'r gwasanaeth ac mae gwasanaethau ar-lein a theledu rhyngweithiol CBBC yn cynnig amrywiaeth o gynnwys treiddgar cysylltiedig. Mae CBBC yn cyfuno'i rhaglenni llinol gyda chynnwys digidol, rhyngweithiol sy'n annog plant i gymryd rhan neu i gyfoethogi eu profiad o raglen neu bwnc.

Er mwyn tynnu sylw'r gynulleidfa analog i fanteision teledu digidol, bydd CBeebies yn parhau i ddangos rhai o'i rhaglenni gorau ar BBC One to BBC Two.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai CBBC helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynyddu ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun, yn enwedig ymysg ei chynulleidfa darged.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i CBBC ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	Y gynulleidfa o'r farn bod CBBC yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwyliwr yr awr* CBBC.

Ymrwymiadau Statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- Bydd 70% o oriau yn rhaglenni newydd (cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys unrhyw raglenni a gomisiynir gan y BBC, gan gynnwys rhaglenni newydd a'r holl ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar sianel gwasanaeth cyhoeddus arall o eiddo'r BBC).

Mae'r ymrwymiad canlynol wedi'i wneud i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

- Bod y sianel yn gwneud tua 75% o'i rhaglenni a'i buddsoddiad yn yr UE/Ardal Economaidd Ewrop.

Ac ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu allan i'r M25.

- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu allan i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu gwahanol a ddefnyddir ledled y DU.

Radio

BBC Radio 1

Cylch gwaith y gwasanaeth

Nod Radio 1 yw diddanu a difyrru amrywiaeth eang o wrandawyr ifanc gyda chymysgedd unigryw o gerddoriaeth gyfoes a sgwrs. Mae'n adlewyrchu bywydau a diddordebau pobl 15-29 oed ond mae hefyd yn croesawu eraill sy'n rhannu diddordebau tebyg.

Mae'n cynnig y gorau o gerddoriaeth newydd, yn cefnogi artistiaid newydd – yn enwedig rhai o'r DU – ac yn rhoi llwyfan i gerddoriaeth fyw. Mae newyddion, rhaglenni dogfen ac ymgyrchoedd cynghori'n trin a thrafod meysydd sy'n berthnasol i oedolion ifanc.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Mae Radio 1 yn diddanu'i chynulleidfa ifanc gyda chymysgedd o raglenni yn ystod y dydd sy'n apelio at bawb a rhaglenni arbenigol gyda'r nos sy'n canolbwyntio ar y gerddoriaeth newydd ddiweddaraf. Mae gwasanaeth ar-lein rhyngweithiol ac ar-alw yn cyd-fynd â'r rhaglenni ar yr awyr er mwyn gofalu bod y rhwydwaith yn parhau i fod yn berthnasol gan fod y cyfryngau'n prysur esblygu yn y byd sydd ohoni.

Ar gyfer y flwyddyn i ddod, mae blaenoriaethau allweddol Radio 1 yn cynnwys:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Parhau i ddatblygu cynnwys rhyngweithiol sy'n ategu'r deunydd ar yr awyr; yn arbennig arbrofi gyda'r hyn sy'n bosibl yn sgil technoleg symudol, er enghraifft darparu deunydd gweledol neu ddeunydd a gynhyrchir gan ddefnyddwyr i gyd-fynd â deunydd sain.	Pobl ifanc sydd fwyaf chwilfrydig am y byd digidol wrth ddelio â thechnolegau newydd. Mae angen i Radio 1 barhau i esblygu er mwyn parhau i ddifyrru'r gwrandawyr a bodloni'u hanghenion a'u disgwyliadau.
Lansio elfen newydd sy'n canolbwyntio'n benodol ar gynulleidfaoedd iau ac yn dathlu bywyd yn yr arddegau. Ei huchelgais yw bod yn ffynhonnell ac yn arweiniad hanfodol ar gyfer dod i oed ym Mhrydain yn yr unfed ganrif ar hugain.	Bydd creu lle penodol yn yr amserlen yn golygu bod Radio 1 yn gallu cyfathrebu'n uniongyrchol â'r gynulleidfa anodd i'w chyrraedd hon a mynd i'r afael â materion perthnasol sydd o ddiddordeb neu'n destun pryder i'r gynulleidfa.
Bod yn flaenllaw mewn ymgyrch ledled y BBC i gynorthwyo artistiaid a doniau newydd sbon sydd heb label recordio; a hynny ar yr awyr a thrwy hyrwyddo perfformiadau mewn digwyddiadau neu wyliau pwysig.	Ariennir Radio 1 fel gwasanaeth cyhoeddus felly mae'n gallu bod yn fwy mentrus gydag artistiaid sydd heb ennill eu plwyf a rhoi sylw i artistiaid newydd a'r rhai sydd newydd ddechrau eu gyrfaoedd cerddorol.

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae gan Radio 1 ran hollbwysig yn y gwaith o gynorthwyo creadigrwydd cerddorol, gan ddarparu llwyfan arwyddocaol i gerddoriaeth ac artistiaid newydd, yn enwedig o'r DU. Yn ystod y dydd mae rhestr helaeth o ganeuon yn rhoi cyfle i gynulleidfa eang glywed y caneuon newydd gorau a gyda'r nos mae portffolio o DJs arbenigol blaenllaw yn canolbwyntio ar fathau allweddol o gerddoriaeth ar gyfer y gynulleidfa. Mae cerddoriaeth fyw a darllediadau o ddigwyddiadau byw yn elfen flaenllaw hefyd.

Eleni, bwriadwn ychwanegu cyngerdd cerddoriaeth mawr ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed, wedi'i drefnu gan Radio 1) at ein calendr digwyddiadau. Byddwn hefyd yn darlledu llawer mwy o Download, gŵyl roc fwyaf Prydain, yn ogystal â dychwelyd i Glastonbury, T in the Park, gŵyl Reading/Leeds a Global Gathering.

Yn y flwyddyn i ddod byddwn ni'n sicrhau:

- Bod o leiaf 40% o'r amserlen wedi'i neilltuo i gerddoriaeth arbenigol neu raglenni llafar [2]
- Yn rhaglenni'r dydd[3], bod o leiaf 40% o'r gerddoriaeth gan berfformwyr o'r DU
- Yn rhaglenni'r dydd, bod o leiaf 45% o'r gerddoriaeth yn newydd [4]
- Bod y gwasanaeth yn darlledu o ryw 25 o ddigwyddiadau a gwyliau mawr byw yn y DU a thramor
- Bod o leiaf 250 o sesiynau a pherfformiadau *Live Lounge* newydd
- Ein bod yn cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Mae Radio 1 yn cyflogi tîm ymroddedig o newyddiadurwyr i ddarparu gwasanaeth newyddion cywir a diduedd mewn iaith ac arddull sy'n apelio at wrandawyr ifanc. Mae'r newyddion yn cael lle canolog yn yr amserlen yn ystod y dydd ac mae'n annog gwrandawyr i archwilio amrywiaeth eang o bynciau a chyfrannu at y drafodaeth.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i adlewyrchu diddordebau a phryderon gwrandawyr fel goryfed mewn pyliau, iechyd rhywiol a'r ddelwedd o'r corff. Bydd gohebwyr arbenigol yn rhoi sylw i dechnoleg a materion rhyngwladol a gwleidyddol o safbwynt pobl ifanc.

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu o leiaf 310 awr o newyddion, chwaraeon a materion cyfoes

Hyrwyddo addysg a dysgu

Mae Radio 1 yn cynnig detholiad o gynnwys llafar wedi'i deilwra. Mae rhaglenni dogfen yn rhoi sylw i bynciau amrywiol ac mae darllediadau am weithredu cymdeithasol yn cynnig cymorth ac arweiniad ynglŷn â phryderon personol, iechyd a phryderon eraill perthnasol.

Ein nod yw bod yn fwy arloesol wrth ddarlledu rhaglenni dogfen eleni, gan eu gwasgaru gydol yr amserlen - fel sy'n briodol ar gyfer pynciau unigol - yn hytrach na'u darlledu ar amser penodol. Byddwn yn dilyn yr arolwg rhyw 'Bare-All' yn 2006 gydag ymgyrch i dynnu sylw at ryw mwy diogel ac yn gweddnewid tudalennau ar-lein *One Life*.

Eleni byddwn ni'n:

- Comisiynu o leiaf 40 o raglenni dogfen newydd

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae amserlen helaeth Radio 1 o ddigwyddiadau byw yn adlewyrchu'r amrywiaeth eang o gerddoriaeth sy'n cael ei chynhyrchu ledled y DU ac mae'r digwyddiadau a drefnir gan y rhwydwaith yn aml yn canolbwyntio ar ardaloedd nad ydynt yn cael sylw digonol gan hyrwyddwyr masnachol. Mae rhaglenni arbennig rheolaidd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn helpu i ddatblygu doniau ar lawr gwlad. Yn ogystal, byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU i helpu i ganfod amrywiaeth o artistiaid newydd sbon sydd heb label recordiau a'u cyflwyno i gynulleidfa ehangach.

---

[2] Cerddoriaeth arbenigol yw cerddoriaeth sy'n apelio at grŵp penodol o wrandawyr – gan ganolbwyntio ar fath penodol o gerddoriaeth neu gerddoriaeth o bob math sy'n torri tir newydd

[3] Diffinnir y dydd fel 6am–7pm Llun - Gwener ac 8am-2pm Sadwrn-Sul.

[4] Naill ai heb gael ei rhyddhau neu lai na mis ers y dyddiad rhyddhau (rhyddhau ar CD/record, nid rhyddhau i lawrlwytho)

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu o leiaf 200 awr o raglenni arbennig gwreiddiol o'r gwledydd

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Mae Radio 1 yn dod â'r gerddoriaeth fyd-eang gyfoes orau i sylw cynulleidfaoedd y DU ac mae'n darlledu o ddigwyddiadau cerddoriaeth rhyngwladol o bwys. Mae newyddion a materion cyfoes yn rhoi straeon rhyngwladol pwysig yn eu cyd-destun i wrandawyr yn y DU yn rheolaidd.

Dulliau cyfathrebu newydd

Yn ogystal â darlledu analog, mae Radio 1 ar gael ar DAB, ar deledu digidol ac fe'i darlledir ar y rhyngrwyd. Mae rhai rhaglenni ar gael ar-alw ar ôl iddynt gael eu darlledu, gan ymestyn oes y rhaglenni trwy alluogi pobl i wrando arnynt os nad yw'r amserlen linol yn gyfleus iddynt. Mae Radio 1 yn hyrwyddo ac yn annog arbrofi gyda thechnolegau newydd wrth iddynt ddod i'r fei er mwyn gofalu bod gwrandawyr yn gallu manteisio i'r eithaf ar raglenni ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai Radio 1 helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynyddu ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun, yn enwedig ymysg ei chynulleidfa darged.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i Radio 1 ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	Y gynulleidfa o'r farn bod Radio 1 yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwrandäwr yr awr* Radio 1.

BBC Radio 2

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae Radio 2 yn wasanaeth unigryw sy'n cynnig cymysgedd o gerddoriaeth a sgwrs. Mae'n targedu cynulleidfa eang a'i nod yw apelio at bob grŵp oed dros 35 oed. Mae'n cynnig rhaglenni cerddoriaeth boblogaidd difyr a chynnwys llafar gan gynnwys newyddion, materion cyfoes, rhaglenni dogfen, crefydd, y celfyddydau, comedi, darlleniadau a deunydd gweithredu cymdeithasol.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Nod Radio 2 yw darlledu detholiad poblogaidd o gynnwys sain a chynnwys digidol cysylltiedig, sy'n arloesol ac o safon uchel, i gynulleidfa eang ac amrywiol. Yn y cyd-destun hwn, bydd cerddoriaeth o bron bob math yn cael ei chwarae a bydd y newyddion, materion cyfoes a rhaglenni dogfen yn ceisio helpu gwrandawyr i ddeall ac ymgysylltu'n ymarferol â'r byd modern.

Ar gyfer y flwyddyn i ddod, mae blaenoriaethau allweddol Radio 2 yn cynnwys:

Blaenoriaeth	Rhesymwaith
Datblygu'r Radio 2 Music Club ymhellach er mwyn ategu ein sylw i gerddoriaeth yn sylweddol mewn sawl ffordd.	Bydd Radio 2 yn ychwanegu elfennau newydd at ei chynnyrch sain mewn meysydd fel darlunio cerddoriaeth fyw, gan gynnig cynnwys mwy trylwyr yn ogystal â chyflwyno'r gynulleidfa i dechnolegau newydd.
Adeiladu ar lwyddiant y gyfres gomedi *Out To Lunch* trwy gomisiynu cyfresi pellach a chyfresi cysylltiedig ar gyfer doniau newydd eithriadol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â BBC Television lle bynnag y bo'n bosibl.	Mae Radio 2 yn allweddol i gefnogi a datblygu fformatau, ysgrifenwyr a pherfformwyr comedi newydd ym mhortffolio'r BBC. Bydd gweithio gyda BBC Television yn sicrhau bod canlyniadau'r creadigrwydd hwn yn cael eu cyflwyno i'r gynulleidfa fwyaf posibl.
Cynnal ein hymrwymiad i ddarlledu cerddoriaeth fyw, gan ddarlledu o ddigwyddiadau cerddoriaeth allweddol yn y DU a thramor a chyflwyno cyngherddau a sesiynau stiwdio	Mae Radio 2 yn galluogi cynulleidfaoedd i fwynhau, archwilio a chymryd rhan yn y broses o greu cerddoriaeth. Mae datblygu cyfansoddwyr caneuon newydd a pherfformiadau byw ac annog artistiaid newydd, yn enwedig rhai o'r DU, i gyd yn elfennau hanfodol o hyn.

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Bydd rhaglenni Radio 2 yn rhoi sylw i gerddoriaeth o bob math, gyda rhaglenni dogfen yn archwilio cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol cerddoriaeth. Bydd Radio 2 yn cefnogi cyfansoddwyr caneuon newydd, perfformiadau byw; ac artistiaid newydd a rhai cyfarwydd - yn enwedig artistiaid o'r DU. Byddwn yn cefnogi comedi trwy ddatblygu doniau ysgrifennu a pherfformio newydd. Bydd rhaglenni celfyddydol rheolaidd yn edrych ar gerddoriaeth, theatr, ysgrifennu a ffilmiau cyfoes.

Byddwn yn comisiynu tymor *Sixties Summer* sy'n dathlu 1967 fel trobwynt yn hanes diwylliant poblogaidd yn sgil rhyddhau Sgt Pepper's Lonely Hearts Club Band a gŵyl gerddoriaeth bop Monterey, lle daeth Jimi Hendrix, Janis Joplin ac Otis Redding i'r amlwg. Yn ogystal, dyma'r flwyddyn y sefydlwyd Radio 1 a Radio 2, a bydd cyfres o raglenni dogfen yn cael ei chomisiynu, gan gyrraedd penllanw gydag amserlen arbennig ar gyfer ein pen-blwydd yn 40 a fydd yn dathlu rhaglenni radio cofiadwy o'r gorffennol.

Byddwn yn datblygu'r gyfres *Radio 2 Music Club Presents…* ymhellach gan roi llwyfan i artistiaid Prydeinig a rhyngwladol ddangos eu doniau ger bron cynulleidfa fach fyw, a bydd yn cael ei darlledu mewn rhaglenni fel un Dermot O'Leary.

Yn benodol eleni bydd Radio 2 yn:

§ Darlledu amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth nag unrhyw orsaf radio arall o bwys yn y DU, gyda thros 1,100 awr o raglenni cerddoriaeth arbenigol.

§ Darlledu dros 60 awr o gerddoriaeth theatr gerdd a ffilm.

§ Darlledu dros 100 awr o raglenni celfyddydau.

§ Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o oriau darlledu cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Bydd Radio 2 yn rhoi sylw cywir, diduedd ac annibynnol i ddigwyddiadau yn y DU a thramor mewn arddull sy'n briodol i'w chynulleidfa. Byddwn yn helpu gwrandawyr i ddeall materion cymdeithasol a gwleidyddol fel y gallan nhw gymryd rhan yn y drafodaeth a bod yn ddinasyddion mwy gweithgar. Byddwn yn darlledu bwletinau newyddion rheolaidd a rhaglen materion cyfoes ryngweithiol, hygyrch bob dydd yn ystod yr wythnos.

Mewn rhaglenni dogfen, byddwn ni'n trafod y newid mewn agweddau a ffyrdd o fyw yn ein cymdeithas dros genedlaethau diweddar. Byddant yn cynnwys edrych ar y mudiad menywod yn *I Am Woman*; effaith 25 mlynedd o AIDS; a bydd *His Hands* yn edrych ar effaith trais yn y cartref trwy gerddoriaeth a phrofiadau dioddefwyr.

Eleni, mae Radio 2 wedi ymrwymo i ddarparu:

§ Dros 800 awr o newyddion a rhaglenni materion cyfoes gwreiddiol, gan gynnwys bwletinau newyddion rheolaidd

Hyrwyddo addysg a dysgu

Bydd Radio 2 yn cefnogi mentrau dysgu ledled y BBC ac yn gweithio gyda phartneriaid ar ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol. Byddwn yn hyrwyddo dysgu anffurfiol trwy gyfrwng rhaglenni dogfen sy'n rhoi dealltwriaeth o'r cyd-destun y caiff cerddoriaeth ei chreu ynddo. Byddwn yn sbarduno pobl i ddysgu a chymryd rhan mewn cerddoriaeth trwy gyfrwng rhaglenni a ddarlledir, gweithdai, rhyngweithio ar-lein a thrwy wobrwyon a chymorth i artistiaid newydd.

Bydd *The Radio 2 Music Club* yn cymell pobl i archwilio gwahanol fathau o gerddoriaeth trwy annog y cyhoedd i rannu eu hargymhellion ar-lein a bydd yn ceisio mynd ati i gynnwys y cyhoedd mewn trafodaeth am gerddoriaeth newydd a chyfarwydd. Bydd *The Radio 2 Music Club* hefyd yn ehangu profiad y cyhoedd o berfformiad byw gan gerddorfa trwy gynnig cynnwys digidol cyfoes ar gyfer ein cyfres achlysurol *Friday Night With…* lle mae perfformiwr cyfoes adnabyddus yn cymryd rhan mewn cyngerdd *Friday Night Is Music Night* arbennig.

Trwy gyfrwng raglenni a digwyddiadau arbennig, byddwn ni'n cymryd rhan ym menter y BBC i annog y cyhoedd i ddysgu canu offeryn cerddorol. Byddwn hefyd yn ymuno ag ymgyrch ledled y BBC i gynyddu dealltwriaeth o faterion amgylcheddol, yn enwedig mynd i'r afael â chynhesu byd-eang.

Eleni byddwn ni'n:

§ Darlledu amserlen sy'n cynnwys tua un rhan o dair o raglenni llafar

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Bydd rhaglenni cerddoriaeth Radio 2 - gan gynnwys perfformiadau byw - ei rhaglenni dogfen, rhaglenni celfyddydol, materion cyfoes a chrefyddol yn adlewyrchu amrywiaeth y DU. Bydd rhaglenni cerddoriaeth Radio 2 yn hwyluso twf cymunedau o ddiddordeb trwy gyfrwng dysgu, cyfranogi a thrafod. Bydd Radio 2 yn dod â phobl at ei gilydd ar gyfer digwyddiadau dethol ledled y DU.

Byddwn yn comisiynu rhaglen ddogfen i olrhain hanes cerddoriaeth Roots Reggae, gan egluro beth yn union yw daliadau'r ffydd Rastaffaraidd a'i dylanwad ar gerddoriaeth.

Byddwn yn bartner sain ar gyfer *A Concert For Diana*, digwyddiad byw a fydd yn ddathliad cenedlaethol, gan ganolbwyntio ar y gerddoriaeth a fu'n ysbrydoliaeth i'r Dywysoges, i nodi 10 mlynedd ers ei marwolaeth

Eleni bydd Radio 2 yn:

§ Darlledu o leiaf 170 awr o raglenni crefyddol gan roi sylw i ddetholiad eang o grefyddau.

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Bydd Radio 2 yn cynnig y gorau o gerddoriaeth arloesol a thalent cerddorol rhyngwladol o bedwar ban byd. Bydd newyddion a materion cyfoes yn rhoi sylw i faterion a digwyddiadau rhyngwladol a bydd ein rhaglenni dogfen yn edrych ar gerddoriaeth, hanes a diwylliant rhyngwladol amrywiol.

Bydd Radio 2 yn llwyfan i ddoniau Prydeinig, gan ddod â cherddoriaeth y DU i gynulleidfa fyd-eang diolch i'w phresenoldeb mewn digwyddiadau rhyngwladol.

Byddwn yn olrhain dirywiad gorllewin gwyllt yr UDA, diwylliant y cowbois a'u canu gwlad mewn cyfres ddogfen.

Byddwn hefyd yn rhoi sylw i ddigwyddiadau cerddoriaeth tramor allweddol gan gynnwys *South by Southwest* a *North By North East* - sydd ill dwy'n hyrwyddo cerddoriaeth Brydeinig yn America - yn ogystal â gwobrau'r Country Music Association a'r gwobrau Americana.

Dulliau cyfathrebu newydd

Yn ogystal â darlledu analog, mae Radio 2 ar gael ar DAB, ar deledu digidol ac fe'i darlledir ar y rhyngrwyd. Mae rhai rhaglenni ar gael ar-alw ar ôl iddynt gael eu darlledu, gan ymestyn oes y rhaglenni trwy alluogi pobl i wrando arnynt os nad yw'r amserlen linol yn gyfleus iddynt.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai Radio 2 helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynyddu ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun, yn enwedig ymysg ei chynulleidfa darged.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i Radio 2 ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	Y gynulleidfa o'r farn bod Radio 2 yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwrandäwr yr awr* Radio 2.

BBC Radio 3

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae Radio 3 yn cynnig cymysgedd o raglenni cerddoriaeth a diwylliannol er mwyn difyrru a diddanu ei chynulleidfa. Cerddoriaeth glasurol yw prif arlwy'r orsaf ac fe'i hategir gan raglenni llafar sy'n ceisio hysbysu ac addysgu'r gynulleidfa am gerddoriaeth a diwylliant. Mae jazz, cerddoriaeth y byd, drama, y celfyddydau a syniadau a rhaglenni crefyddol yn cael sylw yn yr amserlen hefyd.

Nod y gwasanaeth yw apelio at wrandawyr o bob oed sydd am ehangu eu gorwelion diwylliannol trwy ymgysylltu â byd cerddoriaeth a'r celfyddydau.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Bydd Radio 3 yn parhau i roi pwyslais arbennig ar gerddoriaeth fyw a cherddoriaeth sydd wedi'i recordio'n arbennig. Bydd yn cyfoethogi bywyd diwylliannol y DU trwy adlewyrchu'i hagenda cerddoriaeth a chelfyddydau. Bydd yn comisiynu gwaith a pherfformiadau newydd gan gyfansoddwyr, cerddorion ac awduron ac yn defnyddio'r doniau gorau oll o bedwar ban byd i greu ei phortffolio eang o raglenni.

Blaenoriaethau Radio 3 eleni yw:

Blaenoriaeth	Rhesymwaith
Rhoi mwy o sylw i'r sin gerddoriaeth ryngwladol yn rhaglenni'r dydd, gan gynrychioli perfformwyr a gwyliau pwysica'r byd gydag o leiaf 100 o gyngherddau neu berfformiadau opera o dramor.	Mae Radio 3 yn ymateb i natur ryngwladol y sin gerddoriaeth trwy roi sylw mwy rheolaidd i gerddoriaeth y tu allan i'r DU.
Darparu rhaglen reolaidd newydd i wrandawyr ar gyfer gwerthfawrogi barddoniaeth, wedi'i ategu gan gerddoriaeth addas.	Bydd y rhaglen ddi-gyflwynydd newydd yn cynyddu arlwy farddoniaeth yr orsaf y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd ar *The Verb*.
Gwneud mwy o argymhellion cerddorol ar yr awyr ac yn y cyfryngau rhyngweithiol, gan gynyddu ein swyddogaeth fel canllaw i'r gwahanol fathau o gerddoriaeth yn ein hamserlen.	Nod y pwyslais hwn mewn rhaglenni yw rhoi man cychwyn da i wrandawyr llai profiadol, tra'n meithrin trafodaeth ymhlith gwrandawyr mwy gwybodus.
Darlledu rhaglenni i gyd-fynd â chyflwyniad hanesyddol Radio 4 i gerddoriaeth glasurol mewn chwedeg rhaglen.	Bydd y gyfres yn fan cychwyn i wrandawyr, gan roi cyd-destun ac ysgogiad i archwilio cerddoriaeth glasurol ymhellach.

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae Radio 3 yn ymroi i gyflwyno cerddoriaeth o bob cwr o'r DU o leoliadau a gwyliau o bob math, gan gynnwys pob un o gyngherddau'r BBC Proms. Rydym yn defnyddio grwpiau perfformio'r BBC ac yn cydweithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau allanol fel y gall gwrandawyr wrando ar berfformiadau. Mae deunydd llafar, drama a chomisiynau ysgrifenedig yn elfen hollbwysig o'r cymysgedd o raglenni.

Byddwn yn ysgogi ac yn dathlu creadigrwydd yn benodol trwy ein cyfraniad at Wobrau'r Gymdeithas Ffilharmonig Frenhinol, Gwobrau Cyfansoddwyr Prydain a Gwobrau Radio 3 ar gyfer Cerddoriaeth y Byd. Gan adeiladu ar ein taith trwy gerddoriaeth o Brydain yn 2006, byddwn yn nodi pen-blwydd Edward Elgar, gan roi sylw manwl i'w gerddoriaeth a'i gyd-destun diwylliannol.

Eleni byddwn ni'n:

- Sicrhau mai cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth a recordiwyd yn arbennig yw 50% o raglenni cerddoriaeth yr orsaf

- Darlledu o leiaf 500 o berfformiadau byw neu rai wedi'u recordio'n arbennig

- Comisiynu o leiaf 30 o weithiau cerddorol newydd

- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o oriau darlledu cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

Hyrwyddo addysg a dysgu

Rydym yn ceisio rhoi cyd-destun i'n rhaglenni cerddoriaeth, yn y modd y byddwn yn eu cyflwyno ac yn y deunydd ategol ar ein gwefan. Byddwn yn cynorthwyo artistiaid newydd trwy'r cynllun New Generation Artists.

Nod y pwyslais newydd ar argymhellion yw ennyn diddordeb a thrafodaeth mewn perthynas â'r holl fathau o gerddoriaeth sy'n cael eu chwarae ar Radio 3. Byddwn yn datblygu ein rhaglen newydd *Jazz Library* fel cymar i *Building a Library*, rhaglen am gerddoriaeth glasurol sydd wedi hen ennill ei phlwyf.

Eleni byddwn ni'n:

- Comisiynu o leiaf 30 o raglenni dogfen am y celfyddydau a phynciau diwylliannol

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae cerddorfeydd a chantorion y BBC yn dod â cherddoriaeth gerddorfaol a chanu corawl byw i leoliadau o bob math. Mae ein darllediadau rheolaidd o berfformiadau cerddorol a'r celfyddydau'n adlewyrchu creadigrwydd o bob cwr o'r DU.

Yn arbennig eleni, byddwn ni'n nodi deucanmlwyddiant diddymu masnach caethweision yr Iwerydd yn narllediadau Radio 3.

Ar gyfer 2007/2008 byddwn ni'n:

- Sicrhau bod 40% o'r gwariant perthnasol [5] yn digwydd y tu hwnt i ardal yr M25

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Mae Radio 3 yn cyflwyno cerddoriaeth a'r celfyddydau sy'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol i'w gwrandawyr. Rydym yn gweithio'n ddiwyd gyda'n partneriaid darlledu ym mhedwar ban byd i gyflwyno uchafbwyntiau cerddorol y tu allan i'r DU. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein sylw rhyngwladol er mwyn cynnig mwy o berfformiadau arwyddocaol, yn enwedig darllediadau opera.

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Byddwn yn mynd i'r afael â materion y byd sydd ohoni mewn rhaglenni fel *Night Waves* a *Music Matters*, gan drafod materion o safbwynt diwylliannol, cynnig amrywiaeth o opsiynau, ac annog ein gwrandawyr i ddod i'w casgliadau eu hunain.

Byddwn yn trefnu *Free Thinking* unwaith yn rhagor, sef penwythnos o ddigwyddiadau llafar wedi'u seilio ar y prif faterion sy'n wynebu cymdeithas. Bydd cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan, yn yr ŵyl ei hun yn Lerpwl ac yn rhyngweithiol ar yr awyr ac ar-lein.

Dulliau cyfathrebu newydd

Yn ogystal â darlledu analog, mae Radio 3 ar gael ar DAB, ar deledu digidol ac fe'i darlledir ar y rhyngrwyd. Mae rhai rhaglenni ar gael ar-alw ar ôl iddynt gael eu darlledu, gan ymestyn oes y

[5] Mae hyn yn cynnwys gwariant ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf a dyraniad Radio 3 o gymhorthdal y cerddorfeydd canolog ond nid yw'n cynnwys gwariant ar raglenni newyddion neu chwaraeon

rhaglenni trwy alluogi pobl i wrando arnynt os nad yw'r amserlen linol yn gyfleus iddynt. Eleni byddwn ni'n gwella'n gwasanaeth digidol trwy roi gwybodaeth ar ffurf testun yn fwy cyson ar lwyfannau digidol a thrwy ddefnyddio proses ar-lein symlach i ymdrin ag ymholiadau a cheisiadau gwrandawyr.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai Radio 3 helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynyddu ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i Radio 3 ac yn ystyried yr orsaf yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	Y gynulleidfa o'r farn bod Radio 3 yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwrandäwr yr awr* Radio 3.

BBC Radio 4

Cylch gwaith

Gwasanaeth llafar cymysg sy'n cynnig newyddion a materion cyfoes treiddgar ac amrywiaeth eang o ddeunydd llafar arall gan gynnwys drama, darlleniadau, comedi a rhaglenni ffeithiol a chylchgrawn yw Radio 4. Nod y gwasanaeth yw apelio at wrandawyr sydd eisiau rhaglenni deallusol o bob math sy'n hysbysu, addysgu a diddanu.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Rhaglenni newyddion a materion cyfoes cywir, diduedd ac annibynnol yw asgwrn cefn amserlen Radio 4 ac maent yn rhoi sylw i faterion cartref a rhyngwladol o bob math. Ategir y ddarpariaeth hon gan raglenni llafar difyr a llawn her eraill o bob math.

Mae Radio 4 yn ceisio adlewyrchu amrywiaeth y DU ledled yr amserlen. Mae'n feiddgar, yn herio'r hyn sy'n ddealledig ac yn buddsoddi mewn cynnwys gwreiddiol nad yw ar gael yn aml ar orsafoedd eraill. Mae'n darlledu dramâu, darlleniadau a chomedi arloesol gan ddoniau hen a newydd.

Mae'r gwasanaeth ar gael ar Donfedd Hir, felly gall gwrandawyr ddewis gwrando ar ddarllediadau byw o ddigwyddiadau neu chwaraeon pwysig yn hytrach na'r brif amserlen.

Mae blaenoriaethau allweddol Radio 4 eleni yn cynnwys:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Cynyddu effaith ein rhaglenni drama, gan gynnwys dramâu aml-ran yn seiliedig ar themâu cyfoes a hanesyddol ar gyfer *Afternoon Play* a'r *Friday Play*.	Radio 4 yw'r prif gomisiynydd drama radio yn y DU ac mae wedi ymrwymo i sicrhau'r profiadau gorau i'w gwrandawyr gyda'i rhaglenni drama amrywiol
Cyfres hanes naratif estynedig newydd am amrywiaeth o bynciau fel Cerddoriaeth Glasurol a Democratiaeth	Mae Radio 4 yn cynnig rhaglenni ffeithiol mwy eang ac uchelgeisiol o lawer nag unrhyw un o gyfryngau darlledu eraill y DU
Ehangu apêl rhaglenni trwy gyfrwng: • Creu mwy o ymdeimlad o achlysur yn yr amserlen trwy ddarlledu tymhorau o raglenni am bynciau penodol, gan gynnwys rhywioldeb a nodi 60 mlynedd ers annibyniaeth India a Phacistan • Dod o hyd i ffyrdd mwy hyblyg o ymateb i ddigwyddiadau cyfredol ledled yr amserlen	Mae Radio 4 yn ceisio denu gwrandawyr newydd i radio llafar, gan gynnwys cynyddu ei hapêl ymysg pobl 35-54 oed tra'n parhau i ddiddanu a difyrru'r gwrandawyr cyfredol.

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Cynnal dinasyddiaeth

Mae Radio 4 yn darparu newyddion a materion cyfoes trylwyr ar y radio. Rydym yn dod ag adroddiadau a dadansoddiadau manwl gywir ac awdurdodol o faterion cartref a byd-eang i'n gwrandawyr drwy raglenni dyddiol - fel *Today*, *The World at One* a *PM* - a bwletinau newyddion wythnosol a rhaglenni dilynol. Mae rhaglenni newyddion a rhaglenni ffeithiol eraill yn adlewyrchu realiti cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol cyfoes y DU ac yn cynnig safbwyntiau o bob math ar faterion cyfoes i wrandawyr.

Byddwn yn cyflwyno'r newyddion diweddaraf ar raglenni fel *File on 4* ac yn pwyso a mesur materion yn *The Week in Westminster* ac *Analysis*. Rydym yn rhoi adroddiadau dyddiol o ddigwyddiadau San Steffan pan fo'r Senedd yn cyfarfod.

Eleni byddwn ni'n darparu dadansoddiadau sylweddol, trylwyr a diduedd o ymgyrchoedd y pleidiau gwleidyddol ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban ac etholiadau lleol Lloegr. Byddwn hefyd yn rhoi sylw helaeth i newidiadau yn arweinyddiaeth y blaid Lafur a'r Llywodraeth.

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu o leiaf 2,500 awr o raglenni newyddion a materion cyfoes

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae Radio 4 yn comisiynu rhaglenni gan amrywiaeth eang o gyflenwyr mewn sawl maes gwahanol a dyma'r brif farchnad yn y DU ar gyfer radio llafar a gynhyrchir yn annibynnol. Rydym yn arwain y ffordd o ran cynnal a datblygu crefft drama radio. Byddwn yn darlledu gweithiau gan ddramodwyr gwych, yn ogystal â gweithiau llawer o awduron sy'n newydd i'r radio. Byddwn hefyd yn darlledu dramâu aml-ran sydd wedi'u seilio ar themâu cyfoes a hanesyddol fel yr *Afternoon Play* a'r *Friday Play*.

Rydym hefyd yn treulio rhannau helaeth o'n hamserlen yn archwilio llenyddiaeth a'r celfyddydau'n gyffredinol, trwy gyfrwng rhaglenni dogfen, trafodaethau ac adolygiadau. Byddwn yn parhau i ddarparu amrywiaeth o raglenni am lenyddiaeth, fel *Book Club*, *Open Book* ac *A Good Read*. Byddwn yn sicrhau presenoldeb yng Ngŵyl y Gelli yn 2007.

Radio 4 yw cartref comedi radio, ac mae'n datblygu llawer o'r rhaglenni a'r doniau comedi sy'n datblygu ac yn cael lle ar y teledu yn y pen draw. Byddwn yn darlledu mwy o raglenni comedi o ŵyl Glastonbury.

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu o leiaf 730 awr o ddramâu a darlleniadau gwreiddiol
- Sicrhau mai comisiynau cyntaf neu ail-gomisiynau gan awduron sy'n newydd i'r byd radio yw o leiaf 25% o'r deunydd newydd ar *Afternoon Plays*
- Darlledu o leiaf 180 awr o gomedi gwreiddiol
- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o oriau darlledu cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

Hyrwyddo addysg a dysgu

Ochr yn ochr â'r rhaglenni ysgolion a ddarlledir dros nos ar lwyfannau digidol, mae Radio 4 yn cyfrannu'n sylweddol at ddarpariaeth cyfleoedd dysgu anffurfiol y BBC, gan wneud pynciau arbenigol yn hygyrch a chymryd golwg fanwl ar feysydd o bob math mewn amrywiaeth o raglenni fel *In Business* a *The Bottom Line* (busnes), *Money Box* (cyllid) a *Gardener's Question Time* (garddio). Mae'r gwyddorau'n cael sylw rheolaidd, gan gynnwys byd natur a meddygaeth, mewn cyfresi fel *Nature, Material World* a *Case Notes.* Mae rhaglenni sy'n edrych ar y newidiadau yn Llundain, cyflwr y diwydiant papurau newydd a rhywioldeb cyfoes ar y gweill.

Bydd rhaglenni dogfen wythnosol *Archive Hour* yn parhau i fynd ati i ddeall y gorffennol mewn ffyrdd newydd. Bydd cyfres naratif arwyddocaol am Gerddoriaeth Glasurol a Democratiaeth yn edrych yn ôl ymhellach i'r gorffennol. Bydd rhaglenni arbennig eleni i gofio digwyddiadau o bwys fel Annibyniaeth India a Phacistan a rhyfel ynysoedd y Falkland a'r Rhyfel Chwe Diwrnod.

Bydd digwyddiad ar sawl llwyfan ynglŷn â mudo, *World on the Move*, yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored i sicrhau bod cynnwys sy'n cael ei ddarlledu a chynnwys ar-lein yn cyrraedd ac yn effeithio ar gynifer o bobl â phosibl.

Ar gyfer 2007/2008 bydd Radio 4 yn:

- Darlledu o leiaf 200 awr o raglenni dogfen gwreiddiol

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Nod Radio 4 yw adlewyrchu amrywiaeth y DU trwy recordio llawer o raglenni gyda chynulleidfaoedd mewn lleoliadau ledled y DU - darlledir gwasanaeth crefyddol, trafodaeth ar faterion cyfoes a rhaglen arddio o wahanol rannau o Brydain bob wythnos. Mae rhaglenni gemau digrif fel *Just a Minute* yn cael eu darlledu o bob cwr o'r DU hefyd.

Byddwn yn parhau i ddarparu addoliad byw ac adroddiadau trylwyr ar faterion crefyddol yn cwmpasu'r prif gredoau. Bydd rhaglenni eraill fel *Sunday* a *Beyond Belief* yn mynd y tu hwnt i ddadleuon i dreiddio i fyd crefydd, gan roi sylw i'r amrywiaeth o gredoau rhwng ac o fewn cymunedau ffydd. Byddwn yn darlledu digwyddiadau gwladol pwysig yn fyw, gan uno pobl ar hyd a lled y DU.

Bydd dilynwyr selog criced yn parhau i allu dilyn *Test Match Special* ar Radio 4 Tonfedd Hir eleni, gyda sylwebaeth fyw o Gwpan Criced y Byd a'r gyfres o Gemau Prawf.

Yn 2007/2008 bydd Radio 4 yn:

- Darlledu o leiaf 200 awr o raglenni crefyddol gwreiddiol

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Mae Radio 4 yn rhoi sylw eang a thrylwyr i faterion a digwyddiadau rhyngwladol – gan drafod detholiad helaeth o straeon a materion ac ychwanegu at y newyddion bob dydd gyda rhaglenni fel *Crossing Continents* sy'n archwilio materion byd-eang yn drylwyr. O wneud hyn mae Radio 4 yn helpu pobl i wneud synnwyr o'r byd rydym yn byw ynddo.

Yn 2007, yr economegydd Jeffrey Sachs fydd yn traddodi'r Reith Lectures, *Bursting at the Seams*. Byddant yn cael eu recordio yn Llundain, Caeredin, Efrog Newydd a Beijing ac yn rhoi safbwyntiau newydd ar heriau byd-eang i gynulleidfaoedd yn y DU, a diolch i'r we a'r BBC World Service, i gynulleidfaoedd ym mhedwar ban byd hefyd.

Dulliau cyfathrebu newydd

Yn ogystal â darlledu analog, mae Radio 4 ar gael ar DAB, ar deledu digidol ac fe'i darlledir ar y rhyngrwyd. Mae rhai rhaglenni ar gael ar-alw ar ôl iddynt gael eu darlledu, gan ymestyn oes y rhaglenni trwy alluogi pobl i wrando arnynt os nad yw'r amserlen linol yn gyfleus iddynt. Eleni byddwn ni'n ail-lansio'n gwefan i gynnig ffordd radical newydd i ddefnyddwyr chwilota drwy'r amserlen a dod o hyd i'r cynnwys y maent ei angen.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai Radio 4 helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynyddu ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i Radio 4 ac yn ystyried yr orsaf yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	Y gynulleidfa o'r farn bod Radio 4 yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwrandäwr yr awr* Radio 4.

BBC Radio Five Live

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae Radio Five Live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw 24 awr y dydd, gan gyflwyno straeon newyddion a digwyddiadau chwaraeon arwyddocaol wrth iddynt ddigwydd a rhoi cyd-destun trwy gyfrwng dadansoddi a thrafod helaeth. Nod rhaglenni yw hysbysu, difyrru a chynnwys y gynulleidfa. Pobl 25-44 oed[6] yw cynulleidfa darged y gwasanaeth ond dylai apelio at ddilynwyr newyddion a chwaraeon o bob oed ac o bob cefndir ethnig a phob cwr o'r DU hefyd.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Mae Radio Five Live yn darparu amrywiaeth eang o raglenni newyddion a chwaraeon, gan gynnwys newyddion di-dor pan fo stori newyddion fawr yn digwydd, sylwebaeth fyw ar ddigwyddiadau chwaraeon pwysig (yn amodol ar hawliau) a detholiad o raglenni eraill sy'n cael eu cyflwyno mewn arddull ddeinamig a hygyrch. Caiff y ddarpariaeth newyddion ei hategu gan wasanaeth casglu newyddion byd-eang y BBC. Darlledir llawer o'r amserlen yn fyw.

Ein blaenoriaethau allweddol yn 2007/2008 ar gyfer Radio Five Live yw:

Blaenoriaeth	Rhesymwaith
Parhau i roi pwyslais ledled y rhwydwaith ar symud gwrandawyr o'r Donfedd Ganol i lwyfannau digidol.	Mae nifer y gwrandawyr yn gostwng oherwydd derbyniad gwael mewn rhai rhannau o'r DU.
Ehangu'r defnydd o Gynnwys a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr a rhoi sylw i fwy o straeon gwreiddiol gan wrandawyr	Gwneud ein cynnwys yn fwy perthnasol a gwreiddiol.
Rhoi sylw cynhwysfawr i Gwpan Rygbi'r Byd ym mis Medi/Hydref 2007	Darparu un gwasanaeth sy'n rhoi sylwebaeth, dadansoddiadau a thrafodaethau am gystadleuaeth chwaraeon bwysig, gan uno'n cynulleidfa amrywiol ar sail y digwyddiad

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Mae Radio Five Live yn cynnig gwybodaeth gywir ac annibynnol am ddigwyddiadau yn y DU a thramor mewn ffordd sy'n apelio at wrandawyr. Mae'n manteisio ar yr amserlen fyw hyblyg i ganolbwyntio ar y straeon newyddion pwysig wrth iddynt ddigwydd a bydd yn cynnig newyddion di-dor pan fo'n briodol. Mae tua thri chwarter y rhaglenni bob blwyddyn wedi'u clustnodi i raglenni newyddion, gan gynnwys yr oriau brig yn ystod yr wythnos sef amser brecwast ac amser gyrru adref o'r gwaith gyda'r nos.

Byddwn hefyd yn rhoi sylw i wleidyddiaeth gyda'r nod o ddenu a chynnwys cynulleidfa iau amrywiol. Byddwn yn rhoi sylw i'r etholiadau eleni ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a'r etholiadau lleol yn Lloegr. Yn aml, nid yw gwrandawyr iau yn cymryd rhan yn y broses wleidyddol a byddwn yn eu hannog i gyfrannu at y materion sy'n bwysig iddynt mewn cyfres o raglenni a fydd yn trin a thrafod hyd a lled bod yn Brydeiniwr yn seiliedig ar eu straeon a'u safbwyntiau nhw.

Eleni bydd Radio Five Live yn:

- Darlledu 6,000 awr o newyddion rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol (tua 70% o'r rhaglenni)

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

[6] Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn ystyried amrywiad i'r amod hwn.

Mae Radio Five Live yn darparu gwasanaeth darlledu chwaraeon a newyddiaduraeth chwaraeon o ansawdd uchel y mae pobl yn ymddiried ynddo, waeth ag ydyw'n darlledu gêm bêl-droed ym Mhrydain neu ddigwyddiad rhyngwladol. Ein nod yw dod â phobl at ei gilydd ar gyfer pob math o ddigwyddiadau chwaraeon.

Mae ein rhwydwaith o ohebwyr a chynhyrchwyr ar hyd a lled y wlad yn adlewyrchu digwyddiadau a safbwyntiau gwahanol pobl y DU, a hynny ar leoliad ac ar y ffôn bob dydd yn ein rhaglenni newyddion a chwaraeon. Rydym yn annog ein gwrandawyr i drafod materion a gallant wneud hyn ar yr awyr ac ar-lein ar ein gwefan.

Rydym yn bwriadu rhyngweithio mwy gyda'n cynulleidfa trwy roi mwy o gyfle i wrandawyr ymwneud â'r gwasanaeth, gan gynnwys ein cylchlythyr e-bost *The Five Livewire* a mwy o gyfleoedd i adrodd eu straeon ar yr awyr.

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Mae rhaglenni newyddion a chwaraeon Radio Five Live yn dilyn agenda ryngwladol, cenedlaethol a lleol. Rydym yn manteisio'n llawn ar swyddfeydd newyddion rhyngwladol y BBC a bydd ein dadleuon a'n trafodaethau'n parhau i gynnwys arbenigwyr a phobl ddylanwadol rhyngwladol. Lle bo'n bosibl, byddwn yn cynnwys adroddiadau byw o ganol y cynnwrf yn ystod straeon rhyngwladol arwyddocaol.

Eleni byddwn ni'n rhoi sylw helaeth i chwaraeon a newyddion tramor – gan gynnwys Cwpan Rygbi'r Byd o Ffrainc, Cwpan Criced y Byd o India'r Gorllewin a chyfres o raglenni'n edrych ar effaith Rwsia a'r Rwsiaid ar fywyd ym Mhrydain.

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Yn ogystal â chwaraeon, bydd Radio Five Live yn parhau i adlewyrchu datblygiadau arwyddocaol yn y celfyddydau a bydd theatr, ffilm, cerddoriaeth a llyfrau'n cael sylw ar wahanol adegau o'r amserlen.

Byddwn yn lansio *Creative Calendar* – ffordd arloesol o greu cynnwys gwreiddiol a bodloni'n gwrandawyr trwy roi mwy o'r hyn y maen nhw ei eisiau iddynt.

Eleni bydd Radio Five Live yn:

- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o oriau darlledu cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

Hyrwyddo addysg a dysgu

Bydd Radio Five Live yn cynnig dadansoddiadau, rhaglenni dogfen a rhaglenni arbennig treiddgar ynglŷn ag amrywiaeth eang o bynciau ar draws yr agendâu newyddion a chwaraeon. Byddwn hefyd yn cymryd rhan ym mentrau gweithredu cymdeithasol cyffredinol y BBC sy'n briodol i'n cynulleidfa.

Byddwn yn mynd ati i drefnu cyfres o drafodaethau o bob cwr o'r DU gan roi sylw i ddetholiad o faterion allweddol sy'n arbennig o berthnasol i'n cynulleidfa.

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu tua 50 awr o raglenni dogfen ynghyd â thrafodaethau sydd wedi'u comisiynu'n arbennig am ddigwyddiadau pwysig yn y newyddion a'r byd chwaraeon

Dulliau cyfathrebu newydd

Yn ogystal â darlledu analog, mae Radio Five Live ar gael ar DAB, ar deledu digidol ac fe'i darlledir ar y rhyngrwyd. Mae rhai rhaglenni ar gael ar-alw ar ôl iddynt gael eu darlledu, gan ymestyn oes y rhaglenni trwy alluogi pobl i wrando arnynt os nad yw'r amserlen linol yn gyfleus iddynt.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai Radio Five Live helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynyddu ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i Radio Five Live ac yn ystyried yr orsaf yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	Y gynulleidfa o'r farn bod Radio Five Live yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwrandäwr yr awr* Radio Five Live.

BBC Five Live Sports Extra

Cylch gwaith y gwasanaeth

Estyniad rhan-amser i Radio Five Live yw Five Live Sports Extra sy'n cynnig mwy o ddewis o chwaraeon byw i ddilynwyr chwaraeon. Nod y gwasanaeth yw cynnig mwy o werth am arian i'r sawl sy'n talu ffi'r drwydded gan ddefnyddio'r hawliau chwaraeon sydd eisoes ym meddiant y BBC i gynnig darllediadau gwahanol i'r rhai a ddarperir gan gwasanaethau DU gyfan eraill y BBC.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Nod Five Live Sports Extra yw denu dilynwyr chwaraeon o bob oed ac annog pobl i ddefnyddio llwyfannau digidol i wrando ar y radio trwy gynnig sylwebaeth ar gemau a digwyddiadau. Rydym yn manteisio ar hawliau chwaraeon sydd eisoes ym meddiant y BBC. Mae ein hamserlen yn seiliedig ar y calendr chwaraeon a pha bynnag sylwebaeth sy'n cael ei chynnig gan wasanaethau eraill y BBC. Pan fo chwaraeon neu gemau pwysig yn cael eu cynnal ar yr un pryd, mae Five Live Sports Extra yn cynnig sylwebaeth ar ddigwyddiadau gwahanol i'r rhai a ddarlledir ar Radio Five Live.

Blaenoriaethau Five Live Sports Extra eleni yw:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Datblygu ymhellach fel cartref darpariaeth griced ddi-dor gyda *Test Match Special*	Cynnig gwasanaeth gwell i ddilynwyr criced trwy ddarlledu rhaglenni mwy difyr nag o'r blaen, o ansawdd digidol, heb yr ymyriadau a arferai fod yn rhan o raglenni criced y BBC
Meithrin doniau darlledu chwaraeon newydd	Rhoi mwy o brofiad o ddarlledu digwyddiadau byw i'n newyddiadurwyr, cyflwynwyr ac arbenigwyr presennol a bod yn fan cychwyn i ddarlledwyr chwaraeon y dyfodol

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae Five Live Sports Extra yn ehangu dewis ei chynulleidfa o ddarllediadau chwaraeon o safon uchel o bob cwr o'r DU. Byddwn yn dod â sylwebaeth chwaraeon o'r fan a'r lle - gan uno pobl o bob cwr o'r DU i ddilyn yr un chwaraeon - o gêm bêl-droed rhwng dau dîm lleol i gystadleuaeth chwaraeon fawr genedlaethol - a rhoi gwir ymdeimlad o'r achlysur a'r naws i'r gwrandäwr.

O fewn cyfyngiadau'n gwasanaeth rhan-amser, byddwn yn ysgogi, yn cefnogi ac yn adlewyrchu amrywiaeth y digwyddiadau chwaraeon yn y DU, gan gynnwys y chwaraeon allweddol sy'n creu balchder cenedlaethol neu leol: rygbi, criced a phêl-droed.

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Bydd Five Live Sports Extra yn parhau i ddarlledu chwaraeon byw, gan gynnwys rhai digwyddiadau neu gystadlaethau rhyngwladol o bwys y byddai cynulleidfaoedd y DU yn eu colli fel arall.

Pan fo angen, bydd Five Live Sports Extra yn darparu sylwebaeth sain amgen o ddigwyddiadau a chystadlaethau chwaraeon mawr os oes yna ddigwyddiad neu gystadleuaeth fawr arall yn cael ei darlledu ar Five Live. Mae'r sylwebaeth bob amser yn fyw o'r lleoliad dan sylw, gan ychwanegu at y profiad.

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Un o flaenoriaethau parhaus Five Live Sports Extra yw meithrin doniau darlledu a chynhyrchu chwaraeon newydd ar gyfer y diwydiant, gan gynnwys rhoi cyfle i gyflwynwyr, sylwebwyr ac arbenigwyr newydd weithio ar raglenni chwaraeon o safon uchel sy'n bwrw golwg ar gystadlaethau a digwyddiadau o bob math yn y calendr chwaraeon.

Dros y 12 mis nesaf bydd ein rhaglenni'n cynnwys:

- sylwebaeth ychwanegol o Uwch-Gynghrair Carling yr FA
- sylwebaeth griced estynedig ar gyfer dilynwyr *Test Match Special*
- sylwebaeth o Bencampwriaeth ac Adran Un a Dau Coca-Cola, Cwpan Carling ac Uwch-Gynghrair yr Alban
- sylwebaeth ychwanegol ar Rygbi'r Undeb a Rygbi'r Gynghrair
- rowndiau rhagbrofol Fformiwla Un
- sylwebaeth ychwanegol o Wimbledon a chystadlaethau agored yr UD, Awstralia a Ffrainc

Eleni byddwn ni'n:

- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o oriau darlledu cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

Dulliau cyfathrebu newydd

Yn ogystal â darlledu analog, mae Five Live Sports Extra ar gael ar DAB, ar deledu digidol. Bydd sylwebaeth yn cael ei darlledu'n fyw ar y rhyngrwyd os yw hawliau'n caniatáu hynny. Hwyrach bod rhai rhaglenni ar gael ar-alw ar ôl iddynt gael eu darlledu, gan ymestyn oes y rhaglenni trwy alluogi pobl i wrando arnynt os nad yw'r amserlen linol yn gyfleus iddynt.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai Five Live Sports Extra helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynyddu ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i Five Live Sports Extra ac yn ystyried yr orsaf yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	Ymwybyddiaeth y sawl sy'n talu ffi'r drwydded o Five Live Sports Extra a'r gynulleidfa o'r farn bod Five Live Sports Extra yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwrandäwr yr awr* Five Live Sports Extra.

1Xtra

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau, gyda phwyslais cryf ar gerddoriaeth fyw a chefnogi artistiaid newydd o Brydain. Mae 1Xtra hefyd yn cynnig gwasanaeth newyddion arbennig, rhaglenni trafod rheolaidd a rhaglenni dogfen wedi'u comisiynu'n arbennig sy'n berthnasol i'r gynulleidfa ifanc a dargedir (pobl ifanc 15-24 oed), yn arbennig – ond nid yn gyfyngedig – i rai o leiafrifoedd ethnig.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Mae 1Xtra yn cynnig yr amrywiaeth lawn o ddiwylliant a cherddoriaeth ddu gyfoes i ddiwallu anghenion ei chynulleidfa darged. Bydd pob math o gerddoriaeth ddu berthnasol yn cael sylw yn ein rhaglenni dydd, a bydd amserlen yr hwyr yn canolbwyntio ar raglenni arbenigol ac yn cael eu cyflwyno gan y DJs mwyaf blaenllaw yn eu maes. Bydd y rhaglenni llafar – yn cynnwys y Newyddion – yn ceisio bod yn berthnasol i'n gwrandawyr.

Dyma'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn hon:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Diwygio'r amserlen gan ganolbwyntio ar ddatblygu doniau.	Adfywio'r orsaf gyda'r nod o gynyddu nifer y gwrandawyr ymysg y gynulleidfa darged
Datblygu digwyddiad byw nodedig gan ganolbwyntio ar ddarparu profiad unigryw o gerddoriaeth fyw i'r gynulleidfa	Mae cerddoriaeth fyw yn allweddol i 1Xtra a bydd sefydlu digwyddiad mawr yn cael mwy o ddylanwad ar y gynulleidfa nag sy'n bosibl ei gyflawni gyda'n hamrywiaeth gyfredol o ddarllediadau byw ac yn helpu i ddod â chlod i'r orsaf am yr amrywiaeth o ddarllediadau cerddoriaeth byw
Cynnal adolygiad cynhwysfawr ac ad-drefnu sut mae 1Xtra'n darparu ei rhaglenni newyddion a thrafod bob dydd	Mae 1Xtra'n ymrwymedig i ddarparu rhaglenni newyddion, adloniant a thrafod pwrpasol bob dydd. Caiff y cynnwys hwn ei ddarlledu fel *TXU* 2-4pm ar hyn o bryd a bydd yr adolygiad hwn yn ein galluogi ni i barhau i ddarparu'r cynnwys hwn yn y ffurf fwyaf priodol i'n cynulleidfa.

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae amserlen 1Xtra yn cynnig cymysgedd o gerddoriaeth sydd â'r nod o roi adlewyrchiad dilys o ddiwylliant cerddoriaeth ddu gyfoes. Byddwn yn edrych am y ffurfiau diweddaraf o gerddoriaeth ddu ac yn eu cyflwyno i gynulleidfa ehangach. Mae cerddoriaeth fyw yn allweddol i'n syniadaeth, a byddwn yn darlledu digwyddiadau o leoliadau ledled y DU, yn ogystal ag archwilio'r sin gerddoriaeth ddu dramor.

Mae 1Xtra'n rhoi cefnogaeth gref i ddoniau cerddorol newydd, yn enwedig yn y DU, ac rydym yn ymrwymedig i ddod o hyd i'r genhedlaeth nesaf o gyflwynwyr rhaglenni cerddoriaeth.

Byddwn yn cyflwyno artistiaid newydd sydd heb eu harwyddo yn y rhaglen wythnosol *Homegrown*; ac yn darlledu wythnos arbennig o raglenni yn edrych ar y sin Dancehall Reggae ryngwladol.

Yn 2007/2008 byddwn yn:

- sicrhau bod o leiaf 70% o'r gerddoriaeth a chwaraeir yn newydd [7]
- sicrhau bod o leiaf 40% o'r gerddoriaeth a chwaraeir yn deillio o'r DU

[7] Lai na mis ar ôl rhyddhau yn y DU (rhyddhau gwirioneddol nid lawrlwytho)

- darlledu o leiaf 50 digwyddiad cerddoriaeth byw

- cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys o raglenni gan gynhyrchwyr annibynnol

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Mae 1Xtra yn cynnig gwasanaeth newyddion wedi'i deilwra i'r gynulleidfa drwy ei fwletinau *TX* bob awr a'r rhaglen gylchgrawn *TX Unlimited* bob dydd yn ystod yr wythnos, sy'n cyflwyno a dadansoddi materion cenedlaethol a rhyngwladol er budd cynulleidfa nad yw o reidrwydd yn clywed fawr ddim newyddion yn unman arall. Eleni, byddwn yn adolygu *TXU* gyda golwg ar ail-lansio'r rhaglen i adlewyrchu anghenion a dyheadau'r gynulleidfa darged yn well.

Yn arbennig, yn y flwyddyn i ddod byddwn yn sicrhau bod:

- tua 20% o'n rhaglenni'n ddeunydd llafar

- tua 10% o'n rhaglenni'n newyddion, rhaglenni dogfen a rhaglenni gweithredu cymdeithasol

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae 1Xtra yn darparu canolbwynt cenedlaethol i ddilynwyr cerddoriaeth ddu ledled y DU, gan ddod â chynulleidfaoedd gwahanol at ei gilydd trwy eu diddordeb angerddol mewn cerddoriaeth.

Byddwn yn parhau i ddarparu detholiad unigryw o gerddoriaeth amrywiol, a fydd yn cynnwys darllediad byw cynhwysfawr o Garnifal Leeds eleni.

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Tra bod 1Xtra yn ymroddedig i gerddoriaeth o'r DU, rydym hefyd yn ymrwymedig i gyflwyno'r gorau o gerddoriaeth ddu o'r tu allan i'r DU, yn enwedig cerddoriaeth o UDA sy'n berthnasol i'n gwrandawyr.

Bydd ein rhaglenni'n cynnwys penwythnos arbennig o raglenni o bob cwr o'r DU yn canolbwyntio ar artistiaid sydd wedi ymddangos ar *Homegrown* yn ogystal â phenwythnos arbennig o raglenni'n canolbwyntio ar y sin Hip Hop

Hyrwyddo addysgu a dysgu

Rhwydwaith cerddoriaeth yw 1Xtra yn bennaf, ond rydym hefyd yn darparu rhai cyfleoedd i addysgu'n anffurfiol drwy raglenni dogfen pwrpasol, gwybodaeth a chyngor sy'n berthnasol i'n cynulleidfa darged ifanc. Mae gweithredu cymdeithasol yn rhan o'n hamserlen hefyd - rydym yn bwriadu cynnal ymgyrch yn canolbwyntio ar faterion iechyd ac addysg rhywiol.

Dulliau cyfathrebu newydd

Gorsaf radio ddigidol yw 1Xtra. Mae ar gael ar DAB, trwy deledu digidol, ac yn cael ei darlledu ar y we ar cc.co.uk/1xtra. Mae'n bosibl lawrlwytho rhai rhaglenni ar ôl iddynt gael eu darlledu, sy'n ymestyn oes y rhaglenni trwy eu gwneud yn hygyrch i wrandawyr na lwyddodd i glywed y rhaglen ar yr amserlen arferol.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai 1Xtra helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i 1Xtra ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)

Effaith: Y gynulleidfa o'r farn bod 1Xtra yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.

Gwerth am arian: *Cost y gwyliwr yr awr* 1Xtra

BBC 6 Music

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC 6 Music yn apelio at y rheiny sydd wrth eu bodd â cherddoriaeth boblogaidd, gan gynnig cerddoriaeth o'r 1960au hyd y presennol. Mae ei rhaglenni yn cyfuno recordiau newydd o'r tu allan i'r brif ffrwd gyda recordiau cynharach, yn cynnwys cerddoriaeth o Archif Sain y BBC. Mae'n darparu cyd-destun i'r gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae, ac yn cefnogi cerddoriaeth fyw ac artistiaid newydd.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Mae BBC 6 Music yn canolbwyntio ar gerddoriaeth ac artistiaid nad ydynt yn cael llawer o sylw ar orsafoedd radio eraill. Mae'n cynnig detholiad eang o gerddoriaeth ac mae'r rhaglenni'n cynnwys llawer o waith gan artistiaid o'r DU. Mae traciau, sesiynau a chyngherddau o archif y BBC yn elfen bwysig o'r rhaglenni ac mae'r orsaf yn ychwanegu darllediadau o wyliau, cyngherddau a'i sesiynau ei hun i'r archif. Mae'r orsaf yn darparu cyd-destun i'r gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae trwy gyflwyno gwybodaeth, rhaglenni dogfen, newyddion a thrafodaeth am gerddoriaeth yn awdurdodol gyda'r nod o ddatblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y gynulleidfa. Mae brwdfrydedd BBC 6 Music am gerddoriaeth yn denu gwrandawyr sydd yn chwilio am ffyrdd newydd o ddilyn datblygiad cerddoriaeth a mwynhau cerddoriaeth fyw o ganlyniad i gyfyngiadau ar amser a ffordd o fyw.

Dyma'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn hon:

Blaenoriaeth	Rhesymwaith
Datblygu *The Hub* ymhellach fel canolbwynt ar gyfer cerddoriaeth fyw, yn enwedig gan grwpiau newydd a heb eu harwyddo, gyda'r rhan fwyaf yn dod o'r DU.	Trwy ychwanegu elfennau fel delweddu a chynnwys cysylltiedig, byddwn yn datblygu *The Hub* fel gofod ffisegol a rhithwir i alluogi cynulleidfaoedd i ymgysylltu mwy â cherddoriaeth fyw
Datblygu'n gwasanaeth newyddion cerddoriaeth trwy wella'r gwaith o gasglu newyddion yn y wlad hon a thramor a thrwy ei ddarparu i gynulleidfaoedd ar draws amrywiaeth o lwyfannau digidol.	6 Music fydd prif ddarparwr newyddion cerddoriaeth ym mhortffolio Sain y BBC a bydd yn defnyddio ei pherthynas gyda'r cymunedau cerddoriaeth i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr i wrandawyr.

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae BBC 6 Music yn adlewyrchu esblygiad cerddoriaeth boblogaidd trwy ddefnydd helaeth o archif y BBC.

Byddwn yn cefnogi artistiaid byd-enwog, yn cynnwys y rhai nad ydynt yn cael eu chwarae lawer yn y DU mwyach, yn fwy trylwyr nag yn unman arall.

Byddwn yn cynnal prosiectau arbennig i nodi dathliadau cerddorol o bwys, yn ogystal â rhaglenni archif rheolaidd y BBC yn y rhaglen *Dream Ticket* a *Live at Midnight.* Bydd y rhain yn cynnwys dathlu 30 mlynedd ers record hir gyntaf y Clash, 20 mlynedd ers rhyddhau *The Joshua Tree* gan U2, pen-blwydd Marc E Smith o The Fall yn 50 oed a phen-blwydd recordiau Trojan yn 40 oed.

Byddwn yn canolbwyntio ar gerddoriaeth newydd, yn enwedig cerddoriaeth gan artistiaid o'r DU, gan roi blaenoriaeth i artistiaid llai cyfarwydd, ac yn parhau i gefnogi cerddoriaeth fyw. Byddwn yn parhau i ddatblygu awr olaf rhaglenni dyddiol Steve Lamacq fel cyfle i gyflwyno cerddoriaeth newydd a heb ei harwyddo, o'r DU yn bennaf ac yn sicrhau bod ein digwyddiadau byw yn cynnwys grwpiau newydd neu heb eu harwyddo sy'n perthyn i'r ardal y darlledir y digwyddiad ohoni.

Byddwn yn datblygu'r bwletinau newyddion cerddoriaeth a'n rhaglenni nodwedd ymhellach trwy dreialu'r defnydd o gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr wedi'i greu gan aelodau'r gynulleidfa sy'n mynychu prif wyliau cerddorol y DU.

Eleni, byddwn ni'n:

- Darlledu dros 400 awr o berfformiadau cyngerdd o'r archif
- Sicrhau bod o leiaf 50% o'r gerddoriaeth rydyn ni'n ei chwarae dros bedair oed
- Sicrhau bod o leiaf 15% o'n cerddoriaeth yn draciau cyngerdd a sesiwn o archif gerddoriaeth y BBC
- Darlledu o leiaf 275 o sesiynau newydd
- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o oriau darlledu cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

Hyrwyddo addysg a dysgu

Mae 6 Music yn ehangu'r amrywiaeth o gerddoriaeth sydd ar gael i'r gynulleidfa ac yn ceisio gwella dealltwriaeth trwy ddarparu cyd-destun y gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae mewn rhaglenni dogfen rheolaidd yn ystod yr wythnos. Bydd rhaglenni eleni'n cynnwys deunydd newydd sy'n rhoi cipolwg anffurfiol ar gerddoriaeth fel datganiad cymdeithasol, yn cynnwys *Me & The Devil: Robert Johnson & The Legacy Of The Mississippi Delta Blues*.

Byddwn yn cefnogi mentrau gweithredu cymdeithasol ledled y BBC gydol y flwyddyn fel y bo'n briodol.

Eleni, byddwn ni'n:

- Cyflwyno dros 550 awr o ailddarllediadau a rhaglenni dogfen a thraethodau wedi'u comisiynu o'r newydd

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Gorsaf gerddoriaeth yw 6 Music yn bennaf, ond mae'r amserlen yn cynnig bwletinau newyddion cywir a diduedd yn rheolaidd hefyd.

Mae'r cyd-destun mae 6 Music yn ei roi ar gyfer y gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae yn archwilio'r berthynas rhwng cerddoriaeth a chymdeithas, yn cynnwys rhaglenni dogfen rheolaidd yn ystod yr wythnos a bydd *6 Music Plays It Again* yn darparu cyd-destun penblwyddi arbennig a phrosiectau eraill.

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Bydd cerddoriaeth fyw a darllediadau o wyliau cerddoriaeth BBC 6 Music yn adlewyrchu gweithgarwch ym mhob cwr o'r DU, ac rydym yn bwriadu treialu'r defnydd o Gynnwys a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr gan aelodau o'r gynulleidfa sy'n mynychu prif wyliau cerddorol y DU. Byddwn yn cynnal cyfres arall o gyngherddau *Lamacq In The City*; yn darlledu o rai o wyliau'r haf yn cynnwys *Summer Sundae Weekender* yng Nghaerlŷr a Glastonbury; ac yn darlledu'n fyw o brifysgolion ledled y wlad.

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Bydd BBC 6 Music yn cyflwyno digwyddiadau cerddoriaeth rhyngwladol i gynulleidfa'r DU a bydd ein newyddion a'n rhaglenni dogfen cerddoriaeth ag elfen ryngwladol iddynt. Eleni, byddwn yn datblygu mwy o amrywiaeth o gyfranwyr tramor ar gyfer rhaglenni newyddion cerddoriaeth ac yn adrodd ar a chofnodi cerddoriaeth o ddigwyddiadau tramor fel *South by Southwest*. Byddwn yn parhau i ddarlledu rhaglenni o dramor, fel *Theme Time Radio,* Bob Dylan i ddarparu mwy o greadigrwydd cerddorol i'n cynulleidfa.

Dulliau cyfathrebu newydd

Gorsaf radio ddigidol yw 6 Music. Mae ar gael ar DAB, trwy deledu digidol, ac yn cael ei darlledu ar y we ar cc.co.uk/1xtra. Mae'n bosibl lawrlwytho rhai rhaglenni ar ôl iddynt gael eu darlledu, sy'n ymestyn oes y rhaglenni trwy eu gwneud yn hygyrch i wrandawyr na lwyddodd i glywed y rhaglen ar yr amserlen arferol.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai BBC 6 Music helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i BBC 6 Music ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	*Ymwybyddiaeth* talwr ffi'r drwydded o BBC 6 Music a bod y gynulleidfa o'r farn bod BBC 6 Music yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwyliwr yr awr* BBC 6 Music

BBC 7

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC 7 yn darparu adloniant llafar. Mae'r amserlen yn cynnwys rhaglenni comedi, dramâu, straeon, rhaglenni dogfen, darlleniadau yn eu cyfanrwydd[8] a rhaglenni i blant. Daw'r rhan fwyaf o'r rhaglenni o archifau'r BBC, ond mae'r orsaf yn comisiynu rhywfaint o ddeunydd gwreiddiol, yn enwedig deunydd nad yw i'w gael ar BBC Radio fel arfer. Mae'r orsaf hefyd yn gartref i radio llafar y BBC i blant.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Mae BBC 7 yn darparu gwasanaeth gwahanol i orsafoedd radio llafar eraill y DU. Mae'r rhaglenni ar gyfer oedolion a phlant, yn seiliedig ar amserlen o barthau fel bo pob cynulleidfa'n gwybod pryd i ddisgwyl rhaglenni ar eu cyfer nhw.

Mae deunydd archif clasurol a chyfoes yn cynnwys rhaglenni comedi, dramâu, darlleniadau a rhaglenni nodwedd, sy'n rhoi cyfle i wrandawyr hŷn ail-glywed eu hoff raglenni eto tra'n cyflwyno a phecynnu'r deunydd mewn ffordd a fydd yn apelio i gynulleidfa iau hefyd.

Mae rhaglenni plant yn rhan annatod o'r amserlen. Mae ein darpariaeth, yn cynnwys deunydd newydd ei gomisiynu, yn cwmpasu sawl math gwahanol o raglenni, yn cynnwys rhai dramâu a darlleniadau yn ogystal â rhaglenni nodwedd.

Dyma flaenoriaethau allweddol BBC 7 ar gyfer y flwyddyn hon:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Denu cynulleidfaoedd newydd trwy ddefnyddio'r archif sain yn greadigol a chomisiynu rhaglenni comedi, dramâu a darlleniadau newydd fel *The Further Adventures of Dr Syn* a *Ashenden - Gentleman Spy*	Darparu cymysgedd difyr o raglenni o ansawdd i ddenu mwy o wrandawyr i'r orsaf
Darparu rhaglenni newydd i blant a chyflwyno brand Cbeebies	Yn dilyn lansio'r amserlen blant newydd ym mis Mawrth 2007, mae BBC 7 am atgyfnerthu ei safle fel prif ddarparwyr rhaglenni radio'r BBC i blant ac annog dysgwyr ifanc a'u rhieni i wrando ar y radio a darganfod rhaglenni newydd
Cynnig dulliau ychwanegol ac arloesol i'n cynulleidfa wrando a rhyngweithio gyda'r rhaglenni, ar yr awyr a thrwy bbc.co.uk/bbc/7	Bydd dramâu byr rhyngweithiol, er enghraifft, yn defnyddio'r llwyfannau amrywiol sy'n cael eu defnyddio gan wrandawyr BBC 7 i gael mynediad i'r rhwydwaith

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Nod BBC 7 yw cyflwyno'r gorau o archifau llafar y BBC, rhan o gyfraniad y BBC at dreftadaeth ddiwylliannol y DU. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ceisio denu gwrandawyr i'r rhaglenni trwy'r naws mae'n ei chreu a strwythur yr amserlen. Eleni, byddwn yn dathlu canmlwyddiant geni Daphne Du Maurier trwy ddarlledu tymor o addasiadau o'i nofelau, a chanmlwyddiant Robert A Henlein, un o feistri llyfrau ffuglen gwyddonol. Byddwn yn gwahodd awduron adnabyddus amrywiol i siarad am eu dramâu radio, gan ddarlledu enghreifftiau o'r archif. Byddwn hefyd yn lansio tymor Americanaidd a fydd yn cynnwys rhaglenni comedi a dramâu Americanaidd o'r archif gan awduron fel Dashiell Hammett, Raymond Chandler ac Arthur Miller.

Bydd BBC 7 hefyd yn parhau i gefnogi awduron sy'n newydd i radio trwy gomisiynu gwaith gwreiddiol i annog awduron i ddatblygu dramâu gwreiddiol mewn meysydd nad ydynt yn cael lle yn

[8] MaeYmddiriedolaeth y BBC yn ystyried dileu'r geiriau 'yn eu cyfanrwydd' o'r cylch gwaith.

aml ar rwydweithiau eraill. Rydym yn meithrin doniau newydd trwy gomisiynau gwreiddiol ac yn defnyddio doniau cydnabyddedig i gyflwyno a gosod deunydd archifol mewn cyd-destun. Mae'r dramâu newydd a gomisiynwyd eleni'n cynnwys *Slipstream* gan Simon Bovey, *Never the Bride* gan Paul Magrs, *Rush* gan Annie McCartney ac, yn sgil y gyfres gyntaf lwyddiannus, ail gyfres o *Undone*, *Space Hacks* a *The Spaceship*. Mae rhaglenni comedi newydd yn cynnwys *Spats*, gan awdur a gyrhaeddodd rownd derfynol Gwobrau Comedi Newydd y BBC, Luke Roberts, *No Tomatoes* gan Ian Potter a chyfres arall o *Serious About Comedy* yn adolygu digwyddiadau ac artistiaid y byd comedi.

Eleni, byddwn yn datblygu *Chain Gang* ymhellach fel stori ryngweithiol wedi'i hysgrifennu gan y gwrandawyr lle mae'r gwrandawyr yn cyfrannu at y plot trwy anfon darnau dwy funud ar e-bost.

Yn 2007/2008 bydd BBC 7 yn:

- Darlledu o leiaf 2,800 awr o gomedi (gan gynnwys ailddarllediadau a rhaglenni a brynir)
- Darlledu o leiaf 2,800 awr o ddrama (gan gynnwys ailddarllediadau a rhaglenni a brynir)
- Comisiynu a darlledu o leiaf 10 awr o raglenni comedi gwreiddiol newydd
- Comisiynu a darlledu o leiaf 20 awr o raglenni drama gwreiddiol newydd
- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o oriau darlledu cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol.

Hyrwyddo addysg a dysgu

BBC 7 yw cartref radio llafar i blant y BBC, ac yn 2007 bydd yr orsaf yn ehangu brand cyn-ysgol ar-lein a theledu CBeebies i radio am y tro cyntaf. Bydd Cbeebies yn dod yn ddarpariaeth aml-gyfrwng gwirioneddol, gydag allbwn fideo a sain, a lle penodol ar-lein i'n gwrandawyr ifanc.

Byddwn yn darparu rhaglen gylchgrawn deirawr i gynulleidfa CBeebies saith diwrnod yr wythnos, yn seiliedig ar floc o raglenni llafar, cerddoriaeth, rhaglenni nodwedd, cyflwyniadau a straeon. Byddwn yn darparu hwiangerddi, caneuon poblogaidd, addasiadau newydd o lyfrau stori plant poblogaidd a rhywfaint o ddeunydd o'r archif. Byddwn yn annog ein gwrandawyr i ymuno ble bynnag maen nhw - yn y cartref neu yn y feithrinfa - trwy ganu, gweiddi atebion, dilyn ryseitiau syml, neu ddyfalu'r gwrthrych neu'r anifail er enghraifft. Bydd lleisiau plant yn cael eu clywed ar wahanol raglenni hefyd, yn cynnwys rhaglen fer o'r enw *Out of My Window* lle bydd plant cyn-ysgol yn siarad am eu hamgylchedd.

I blant hŷn, mae *Big Toe Books* yn rhaglen ddyddiol awr o hyd sy'n cynnig darlleniadau hirach, gyda'r llyfrau eleni i gynnwys *Oliver Twist*, *Twenty Thousand Leagues under the Sea* a *The Chronicles of Narnia*.

Ar gyfer plant hŷn ac oedolion, mae BBC 7 yn cyflwyno cyd-destun ei raglenni o'r archif, fel bo gwrandawyr yn deall treftadaeth ddiwylliannol adloniant llafar ar y radio yn well. Ym mis Medi, i ddathlu pen-blwydd Radio 1, 2, 3 a 4 yn 40 oed, byddwn yn darlledu tymor o raglenni comedi o ddyddiau cynnar Radio 2, a detholiad o ddramâu o 1967 ar Radio 4. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno gan gyflwynwyr cyfoes a fydd yn rhoi cefndir y rhaglenni i'r gynulleidfa.

Eleni, byddwn yn:

- Darlledu dros 1,400 awr o raglenni i blant (yn cynnwys ailddarllediadau)

Cynrchioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Byddwn yn parhau i chwilio am yr awduron a'r perfformwyr comedi newydd gorau ledled Prydain. Gan ddatblygu ar Wobrau Comedi Newydd BBC 7 o'r 2 flynedd ddiwethaf, rydym wedi gwahodd y rhai sy'n gobeithio llwyddo yn y byd comedi i anfon enghreifftiau o berfformiadau o'u gwaith, mewn prosiect o'r enw *Witty and Twisted*. I ddatblygu'r doniau newydd hyn bydd BBC 7 yn darlledu 10 perfformiad mewn cyfres o raglenni 15 munud, lle bydd gwrandawyr yn cael cyfle rhyngweithiol i

bleidleisio am y perfformiad sydd â'r potensial mwyaf yn eu tyb nhw. Bydd yr "awdur/perfformiwr buddugol" yn derbyn comisiwn am gyfres gomedi 4 rhaglen.

Unwaith eto byddwn yn darlledu rhai o raglenni gorau gorsafoedd lleol a rhanbarthol y BBC ar y rhwydwaith, fel *The Fred MacAulay Show*, gan Radio Scotland, a detholiad o raglenni nodwedd a dramâu arobryn o orsafoedd radio lleol.

Dulliau cyfathrebu newydd

Gorsaf radio ddigidol yw BBC 7. Mae ar gael ar DAB, trwy deledu digidol, ac yn cael ei darlledu ar y we ar cc.co.uk/1xtra. Mae'n bosibl lawrlwytho rhai rhaglenni ar ôl iddynt gael eu darlledu, sy'n ymestyn oes y rhaglenni trwy eu gwneud yn hygyrch i wrandawyr na lwyddodd i glywed y rhaglen ar yr amserlen arferol.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai BBC 7 helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i BBC 7 ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	*Ymwybyddiaeth* talwr ffi'r drwydded o BBC 7 a bod y gynulleidfa o'r farn bod BBC 6 Music yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwyliwr yr awr* BBC 7

BBC Asian Network

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Asian Network yn darparu rhaglenni cerddoriaeth a llafar i apelio at Asiaid Prydeinig, gan ganolbwyntio'n gryf ar newyddion a materion cyfoes. Gorsaf Saesneg yw hi'n bennaf, ond mae rhai rhaglenni'n cael eu darparu mewn amrywiaeth o ieithoedd De Asia. Er mai Asiaid Prydeinig dan 35 oed yw'r brif gynulleidfa darged, mae'r rhwydwaith yn ceisio apelio at bawb sy'n rhannu diddordeb mewn materion, cerddoriaeth a diwylliant Asiaidd Prydeinig.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Mae'r rhwydwaith yn ymroddedig i fod yn fforwm awdurdodol ar gyfer newyddion cywir a diduedd, trafodaeth ddeallus a materion sy'n berthnasol i Asiaid Prydeinig. Mae'n chwarae amrywiaeth eang o gerddoriaeth sydd â dylanwad De Asia, gyda phwyslais arbennig ar berfformiadau byw ac artistiaid Asiaidd Prydeinig newydd, ac yn darlledu rhywfaint o chwaraeon. Darperir rhaglenni ym mhump o brif ieithoedd De Asia, i adlewyrchu'r dylanwadau ieithyddol ar Asiaid Prydeinig ifanc: Bengali, Gujarati, Hindi/Urdu, Mirpuri a Punjabi.

Dyma'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn hon:

Blaenoriaeth	Rhesymwaith
Ehangu'r amrywiaeth o gerddoriaeth yn yr amserlen	Mae rhai mathau o gerddoriaeth yn apelio'n fawr at wrandawyr ifanc, a gellir eu cynnwys yn yr amserlen mewn ffordd sy'n eu cymell i wrando ar raglenni (llafar) eraill.
Cynyddu effaith newyddiaduraeth ar y rhwydwaith trwy gomisiynu mwy o raglenni gan BBC News a chyflenwyr annibynnol	Bydd cynyddu a gwella darpariaeth newyddion a materion cyfoes ledled yr amserlen yn adlewyrchu bywydau Asiaid Prydeinig ifanc yn well.
Cynyddu nifer yr oriau rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu comisiynu gan y sector annibynnol	Bydd buddsoddi yn yr economi greadigol annibynnol yn dod â manteision, yn cynnwys doniau creadigol newydd i'r orsaf ac yn cynnig safbwyntiau gwahanol i'n gwrandawyr.

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Mae BBC Asian Network yn canolbwyntio ar gynnig newyddion a materion cyfoes cywir, diduedd ac annibynnol mewn arddull sy'n gwneud y rhaglenni'n hygyrch i'w chynulleidfa darged. Caiff materion cymhleth eu hegluro a'u gosod mewn cyd-destun i helpu'r gynulleidfa ddeall digwyddiadau'r DU a digwyddiadau rhyngwladol yn well. Eleni, byddwn yn ehangu ein rhaglen amser cinio ddyddiol *The Wrap* i ddarparu mwy o allbwn ledled yr amserlen.

Eleni, byddwn ni'n:

- Sicrhau bod oddeutu 50% o ddeunydd llafar a 50% o gerddoriaeth yn ein rhaglenni

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae BBC Asian Network yn darparu llwyfan pwysig i arddangos doniau a lleisiau Asiaidd Prydeinig newydd a chydnabyddedig. Mae ein hopera sebon ddyddiol, *Silver Street* yn ymdrin â straeon a materion sy'n berthnasol i'n gwrandawyr. Byddwn yn annog gwaith gan ddoniau cyfarwyddo ac ysgrifennu newydd, ac eleni byddwn yn canolbwyntio ar ganfod doniau Asiaidd Prydeinig newydd, yn bennaf trwy'n rhaglen gelfyddydau a diwylliant yn y prynhawn, *Nikki Bedi.*

Mae ein rhaglenni cerddoriaeth yn cwmpasu sawl math gwahanol o gerddoriaeth gyda phwyslais ar gerddoriaeth newydd a meithrin a datblygu artistiaid newydd. Trwy ein darllediadau o berfformiadau byw - o ddathliad *Future Friction* o ddoniau newydd heb eu harwyddo ar draws y

sbectrwm cerddorol i'r bhangra traddodiadol - byddwn yn parhau i gefnogi a chynyddu gwerthfawrogiad o gerddoriaeth fyw. Eleni, yn benodol, bydd gennym bresenoldeb yng Ngwyliau Glastonbury a Chaeredin am y tro cyntaf, gan ddarlledu'n fwy o'r ddwy ŵyl.

Eleni, byddwn ni'n:

- sicrhau bod o leiaf 40% o'n rhestr gerddoriaeth yn artistiaid o'r DU
- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys o raglenni gan gynhyrchwyr annibynnol

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Bydd BBC Asian Network yn adlewyrchu a chynrychioli amrywiaeth poblogaeth Asiaidd y DU trwy ei rhaglenni. Bydd yr amserlen yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd i bobl ffonio i gyfrannu a fydd yn annog trafodaeth ac yn cyflwyno safbwyntiau amrywiol cymuned Asiaidd wasgaredig y DU i'n cynulleidfaoedd.

Bydd rhaglenni mewn ieithoedd gwahanol yn parhau i gysylltu gwrandawyr â'i gilydd, a chyda'u gwreiddiau diwylliannol ac ieithyddol. Mae'r orsaf yn chwarae amrywiaeth eang o gerddoriaeth, gan annog gwrandawyr i werthfawrogi cerddoriaeth o gymunedau a diwylliannau sy'n anghyfarwydd iddynt o bosibl.

Ym mis Awst bydd hi'n 60 mlynedd ers i India gael annibyniaeth ac i India a Phacistan rannu'n ddwy wlad. Bydd Asian Network yn comisiynu *Asian Nation* fel rhan o'n darllediadau o'r digwyddiadau pwysig iawn hyn, ac yn datblygu cronicl aml-gyfrwng o fywydau Asiaid Prydeinig a sut maen nhw'n cysylltu â'u gwreiddiau.

Eleni, trwy ein darllediadau o gemau pêl-droed a Chwpan Criced y Byd, byddwn yn helpu'n gwrandawyr i uno y tu ôl i'w timau, a chysylltu â'i gildid ledled y DU.

Eleni, byddwn ni'n:

- Darlledu tair i bum awr o raglenni ieithyddol bob dydd ar gyfartaledd

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Mae rhaglenni newyddion a materion cyfoes BBC Asian Network yn rhoi sylw rheolaidd i ddigwyddiadau a materion rhyngwladol, gan ddarparu cyd-destun a safbwyntiau ar faterion sy'n gallu bod yn gymhleth iawn.

Mae ein rhestr gerddoriaeth yn cynnwys artistiaid o bob cwr o'r byd, gyda mwy o bwyslais eleni ar gerddoriaeth Bollywood: byddwn yn lansio rhaglen newydd ar gyfer boreau'r wythnos gyda'r nod o atgyfnerthu rhaglenni tameidiog cyfredol yn y maes hwn.

Hyrwyddo addysg a dysgu

Mae BBC Asian Network yn cynnig llawer o gyfleoedd ar gyfer dysgu anffurfiol, yn arbennig yn ein rhaglenni llafar. Byddwn yn darparu rhaglenni dogfen sy'n cwmpasu amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar fywydau a phrofiadau Asiaid Prydeinig.

Mae rhaglenni iaith Asian Network wedi'u bwriadu ar gyfer gwrandawyr sy'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf mae'n debyg, ac felly'n helpu cysylltu Asiaid Prydeinig gyda'u gwreiddiau ieithyddol mewn ffordd ddifyr. Eleni, byddwn yn datblygu'n rhaglenni ieithyddol ymhellach gan gyflwyno elfennau Bengali, Gujarati, Mirpuri a Punjabi i'n rhaglenni.

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae BBC Asian Network ar gael ar DAB, trwy deledu digidol, ac yn cael ei darlledu ar y we ar bbc.co.uk/asiannetwork. Mae'n bosibl lawrlwytho rhai rhaglenni ar ôl iddynt gael eu darlledu, sy'n

ymestyn oes y rhaglenni trwy eu gwneud yn hygyrch i wrandawyr na lwyddodd i glywed y rhaglen ar yr amserlen arferol.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai BBC Asian Network helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i BBC Asian Network ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Yn ogystal, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (gan gynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	*Ymwybyddiaeth* talwr ffi'r drwydded o BBC Asian Network a bod y gynulleidfa o'r farn bod BBC Asian Network yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwyliwr yr awr* BBC Asian Network

Cyfryngau'r dyfodol

bbc.co.uk

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae gwefan bbc.co.uk yn ateb dibenion cyhoeddus y BBC trwy ddarparu cynnwys arloesol ac unigryw ar-lein a thrwy arlwy unigryw sy'n adlewyrchu ac ehangu gwasanaethau darlledu'r BBC sydd ar gael i bawb.

Mae bbc.co.uk yn galluogi'r BBC i ddatblygu perthynas agosach gyda thalwyr ffi'r drwydded a chryfhau atebolrwydd. Mae'n gweithredu fel man cychwyn ar y rhyngrwyd lle gall defnyddwyr ddatblygu eu defnydd o'r cyfrwng ac mae'n darparu canllaw dibynadwy i'r we ehangach.

Nod bbc.co.uk bob amser yw sicrhau cydbwysedd rhwng y potensial ar gyfer creu gwerth cyhoeddus yn erbyn y perygl o effaith negyddol ar y farchnad.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Bydd bbc.co.uk yn cyfuno rhaglenni a mentrau darlledu mawr y BBC gyda chynnwys wedi'i gyhoeddi, rhyngweithiol ac a gynhyrchwyd gan ddefnyddwyr, a chyd-destun ar gyfer rhaglenni ac offer, fel gwasanaeth llywio. Bydd bbc.co.uk yn archwilio ffyrdd newydd o ddefnyddio nodweddion unigryw'r rhyngrwyd i ddarparu cynnwys a gwasanaethau arloesol ac unigryw.

Bydd bbc.co.uk hefyd yn cynnig mynediad ar-alw i rai o raglenni teledu a radio'r BBC ac yn dechrau agor rhai o archifau cynnwys y BBC i ddefnyddwyr (yn amodol ar gymeradwyaethau).

Dyma'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn hon:

Blaenoriaeth	Rhesymwaith
Lansio ymddangosiad cyntaf y BBC iPlayer, yn cynnwys cyfle i ail-weld rhaglenni teledu'r 7 diwrnod diwethaf ar y rhyngrwyd, darlledu'r un pryd ar y teledu a'r rhyngrwyd a lawrlwytho deunydd sain heb DRM. (Yn amodol ar gymeradwyaeth)	Derbyniwyd cymeradwyaeth mewn egwyddor ar gyfer cynigion ar-alw'r BBC, ac ar ôl i'r gwasanaeth gael ei lansio bydd yn galluogi cynulleidfaoedd i gael mwy o reolaeth ar pryd a ble maent am wylio darpariaeth y BBC
Sefydlu dull portffolio newydd ar gyfer cynnwys a seilwaith y bbc.co.uk trwy ddatblygu protocolau priodol ar gyfer nodi a sefydlu cynigion neu byrth pwnc bbc.co.uk sylweddol (a gohirio neu archifo eraill)	Yn hanesyddol, mae bbc.co.uk wedi tyfu'n organig. Bellach mae angen paratoi portffolio cliriach a seilwaith gwell ar gyfer gofynion defnyddwyr Web 2.0. Bydd hyn yn helpu i wella effaith ein darpariaeth ar-lein.
Cwblhau treial Archif Agored y BBC	Mae dosbarthiad digidol yn cynnig mynediad i'r gwerth cyhoeddus sy'n rhan annatod o ddarpariaeth archif y BBC. Mae angen gwneud rhagor o waith cyn y bydd y BBC mewn sefyllfa i ddiffinio ei ddarpariaeth Archif gyffredinol.

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Mae gwasanaeth newyddion a gwybodaeth bbc.co.uk yn ategu rhaglenni newyddion teledu a radio'r BBC ym mhob maes pwnc, gan gynnwys newyddion a chwaraeon lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae bbc.co.uk yn darparu dulliau gwahanol i bob defnyddiwr, yn cynnwys pobl ifanc, ddefnyddio ein darpariaeth newyddion a rhyngweithio â hi ac yn annog y gynulleidfa i gymryd rhan trwy gynnal trafodaeth ar faterion pwysig. Byddwn yn darparu gwasanaethau sain a fideo gwell i ffonau symudol ynghyd â gwasanaethau testun a data yn cynnwys y bwletinau newyddion cenedlaethol a rhyngwladol diweddaraf.

O ran gweithredu cymdeithasol, byddwn yn parhau i ddarparu amrywiaeth o fentrau sy'n cyfrannu at hyrwyddo llythrennedd cyfryngau ymysg cynulleidfaoedd amrywiol; a byddwn yn ad-drefnu gwefan *Action Network* i ganolbwyntio ar dudalennau materion penodol, gan greu dealltwriaeth well o safbwyntiau amrywiol ar wahanol faterion. Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn cefnogi diddordeb defnyddwyr yn nhymor *Subcontinent* y BBC trwy ddarparu clipiau archif perthnasol drwy dreial yr Archif Agored.

Hyrwyddo addysg a dysgu

Mae bbc.co.uk yn buddsoddi mewn cynnwys a chymwysiadau sy'n creu gwerth addysgol i blant, rhieni, athrawon ac oedolion sy'n dysgu trwy ddulliau ffurfiol ac anffurfiol.

Bydd bbc.co.uk yn cyfrannu at wneud y rhyngrwyd yn llwyfan sylfaenol ar gyfer gweithgarwch dysgu'r BBC. Byddwn yn darparu deunyddiau a chynnwys dysgu cwricwlaidd, megis llyfrgell newydd o glipiau a darnau byr i athrawon fel rhan o ddarpariaeth Parth Dysgu Band Eang ac yn parhau i gynyddu'r cynnwys cyfryngau cynhwysfawr yn *Bitesize* a *Blast*. Byddwn hefyd yn datblygu gwefan CBBC i fod yn *CBBC World,* cartref rhithwir deinamig i blant Prydain, yn cynnig profiad personol ar draws nifer o lwyfannau i hyrwyddo creadigrwydd, sgiliau llythrennedd cyfryngau, cyfraniad cadarnhaol a chydweithredu ymysg ein defnyddwyr ieuengaf.

Ar gyfer defnyddwyr hŷn, byddwn yn parhau i ddarparu cynnwys, ymgyrchoedd a digwyddiadau sy'n fwy addas i oedolion sy'n cefnogi dysgu anffurfiol gyda'n holl gynnwys, yn ogystal â darpariaeth sy'n fwy amlwg yn addysgol.

Byddwn yn parhau i gefnogi ymgyrchoedd dysgu mawr y BBC, fel *RaW*.

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae bbc.co.uk wedi ymrwymo i annog cynulleidfaoedd i symud o ddefnydd goddefol i gymryd rhan yn weithredol - ble bynnag maent yn byw a beth bynnag fo'u cefndir. Mae bbc.co.uk yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran sicrhau cyfathrebu o fewn cymunedau a rhwng y rhai sy'n rhannu'r un diddordebau.

Mae gwasanaethau newyddion bbc.co.uk yn rhoi sylw i ddigwyddiadau a materion allweddol yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU gan ddod â blas lleol unigryw i bob pwnc, yn enwedig y ddarpariaeth chwaraeon. Eleni, byddwn yn cyflwyno darpariaeth chwaraeon unigryw ledled bbc.co.uk gan ddyfnhau'r berthynas gyda defnyddwyr trwy ddod â blas lleol i'r sylwebaeth yn y ddarpariaeth chwaraeon er enghraifft.

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Fel rhan o gynllun y BBC i ymateb i her a chyfleoedd Web 2.0 byddwn yn gweithredu system gymorth rhaglenni awtomatig a fydd yn sicrhau bod gwybodaeth gynhwysfawr a chyson am bob rhaglen yn cael ei chynnwys ar y wefan.

Gan y byddwn yn canolbwyntio ar baratoi seilwaith bbc.co.uk ar gyfer byd Web 2.0, bydd ein pwyslais eleni ar weithgarwch cynnwys tactegol. Er enghraifft, byddwn yn ailddatblygu'r amgylchedd digidol i bobl ifanc yn eu harddegau, gan ganolbwyntio ar wefannau cyfredol fel gwefan Radio 1, yn ogystal â datblygu ffurfiau rhyngweithiol newydd. Byddwn hefyd yn datblygu agwedd weledol radio ar gyfer llwyfannau gwahanol. Bydd ein cynlluniau i lansio gwefan "maes chwarae" newydd ar gyfer y gymuned ddatblygu, trwy *Backstage*, yn ein galluogi i arddangos prototeipiau a syniadau bbc.co.uk ac yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr roi sylwadau arnynt.

Byddwn yn parhau i archwilio ffyrdd newydd o ddefnyddio'r rhyngrwyd er mwyn darparu fformatau arloesol ac unigryw, gyda phwyslais arbennig ar brosiectau sy'n annog defnyddwyr i gynhyrchu, ailgymysgu a rhannu eu cynnwys eu hunain.

Eleni, byddwn ni'n:

- comisiynu o leiaf 25% (yn ôl gwerth) o gynnwys a gwasanaethau cymwys gan gyflenwyr allanol

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Byddwn yn rhoi sylw helaeth i ddigwyddiadau a materion cenedlaethol a rhyngwladol allweddol, gan gyflwyno gwahanol safbwyntiau arnynt a'u dadansoddi'n fanwl a diduedd lle bo'n briodol. Rydym yn darparu cyd-destun sy'n sicrhau bod y defnyddwyr yn cael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd y DU, y tu hwnt i ddarllediad cyntaf y cynnwys.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â BBC Worldwide i ddatblygu darpariaeth bbc.co.uk ymhellach y tu allan i'r DU.

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae bbc.co.uk yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys digidol hygyrch, o ansawdd uchel am ddim gan y BBC a chysylltiadau i gynnwys gan ddarparwyr eraill. Mae ein nod o wneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygu diwydiant rhyngrwyd cyfoethog yn y DU yn sail i'n holl weithgareddau - o Newyddion i Gomedi ac o Arddio i Grefydd.

Byddwn yn parhau i ddatblygu a threialu gwasanaethau a chynnwys ar gyfer defnyddwyr profiadol, tra'n darparu pwyntiau mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer defnyddwyr newydd, gan roi mynediad i'r offer a'r sgiliau perthnasol (trwy gymryd rhan mewn mentrau llythrennedd cyfryngau er enghraifft).

Eleni, byddwn yn gwella profiad y defnyddiwr o bbc.co.uk trwy ddatblygu systemau llywio gwell, gan ddarparu dulliau newydd i ddefnyddwyr ddod o hyd i'r cynnwys gorau o ran ansawdd, ar draws amrywiaeth o ddyfeisiau, gan y BBC ac o fannau eraill. Byddwn yn annog defnyddwyr i gymryd mwy o ran trwy ddatblygu dulliau newydd i alluogi defnyddwyr gael pytiau o gynnwys y BBC a'u defnyddio yn eu hamgylchedd gwe eu hunain, tra'n sicrhau bod y BBC yn cael y clod.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai bbc.co.uk helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i bbc.co.uk ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*.
Effaith:	*Ymwybyddiaeth* talwr ffi'r drwydded o bbc.co.uk a bod y gynulleidfa o'r farn bod bbc.co.uk yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwyliwr yr awr* bbc.co.uk

BBCi

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBCi yn cynnig newyddion, gwybodaeth, addysg, adloniant parhaus sy'n cael eu diweddaru'n gyson i holl gynulleidfaoedd teledu digidol trwy gyfrwng fideo, sain, lluniau a thestun rhyngweithiol.

Mae BBCi yn cynnig cynnwys sy'n cefnogi ac ehangu ar rai rhaglenni teledu llinol. Dylai fod yn bwynt mynediad a llywio ar gyfer cynnwys teledu a radio an-linol y BBC, gan gynnig deunydd ategol a darpariaeth estynedig ar gyfer rhaglenni llinol.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Nod BBCi yw darparu gwasanaethau teledu ar-alw ac estynedig gydag apêl eang ym mhob maes, a chynnig rhywbeth o werth i holl wylwyr teledu digidol. Mae'n darparu cynnwys pwrpasol yn holl feysydd y BBC yn cynnwys addysg, adloniant, rhaglenni ffeithiol, dramâu, rhaglenni plant, darpariaeth ddysgu, newyddion, chwaraeon, yn ogystal â chynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr. Bydd BBCi yn gweithio i wella ansawdd ei wasanaethau ac yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr ganfod eu ffordd o amgylch ein holl wasanaeth.

Dyma'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn hon:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Gwella ansawdd profiad y defnyddiwr trwy gyflwyno dulliau llywio symlach a chyfeiriadau gwell at gynnwys gydol y gwasanaeth, gan gynnal amser llwytho, ac ymchwilio i'r posibilrwydd o ail-lansio fersiwn cebl o BBCi	Nod BBCi yw sicrhau bod defnyddwyr yn gallu llywio'r we yn effeithiol a bod hynny'n cael ei ddatblygu i'r eithaf ar draws llwyfannau teledu digidol gwahanol ac mae'n ceisio sicrhau gwelliannau parhaus yn y maes hwn i roi profiad gwell i'r defnyddiwr. Mae nifer y defnyddwyr cebl wedi gostwng o ganlyniad i brofiad gwael defnyddwyr. Bydd hyn yn datrys llawer o faterion i ddefnyddwyr ac yn codi'r niferoedd ar y llwyfan hwn.
Defnyddio dull mwy cydlynus o ddarparu cynnwys chwaraeon rhyngweithiol trwy ddatblygu darpariaeth integredig a chysylltiedig	Mae chwaraeon yn rhan allweddol o'n gwasanaeth ac yn boblogaidd iawn gan y gynulleidfa, yn enwedig dynion ifanc. Bydd integreiddio elfennau o'r ddarpariaeth chwaraeon yn gwella profiad y defnyddiwr mewn ffordd gyson, gan ddarparu ar gyfer dilynwyr chwaraeon rheolaidd a dilynwyr digwyddiadau mawr fel y Gemau Olympaidd neu Wimbledon.
Lansio gwasanaeth ar-alw newydd y BBC ar o leiaf un llwyfan teledu digidol ar-alw	Mae cynigion ar-alw newydd y BBC wedi derbyn cymeradwyaeth amodol. Gallai teledu digidol gynnig ffordd hawdd o gael mynediad i ddarpariaeth ar-alw'r BBC i filiynau o wylwyr heb gysylltiad band eang neu gyfrifiadur.
Cwblhau'r gwaith cynllunio priodol i sicrhau bod cynnwys gwasanaeth Ceefax analog a gwasanaeth digidol BBCi yn cyfateb erbyn hydref 2008. (Cyn belled bod lled band ac adnoddau'n caniatáu hynny).	Mae'n hanfodol nad oes yr un gwyliwr yn colli gwasanaethau arwyddocaol y maent wedi dibynnu arnynt gan Ceefax pan ddaw'r amser i newid o deledu analog i deledu digidol (dechrau yn hydref 2008 yn Borders).

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Nod BBCi yw bod yn ffynhonnell hanfodol o newyddion ar-alw i wylwyr teledu digidol, gan ddarparu'r prif newyddion, chwaraeon a thywydd rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol unrhyw bryd. Mae ein newyddion a'n gwybodaeth yn gywir, diduedd ac annibynnol, ac yn cael ei ddiweddaru'n barhaus.

Mae chwaraeon yn elfen allweddol o'r gwasanaeth, ac yn boblogaidd gyda'n defnyddwyr, yn enwedig dynion ifanc – cynulleidfa sy'n anodd i'w chyrraedd. Eleni, byddwn yn cynllunio ac yn paratoi ar gyfer ail-lansio gwasanaeth chwaraeon wedi'i ailgynllunio ar BBCi – gan integreiddio'r elfennau fideo, testun a data. Gobeithio y byddwn yn gallu cael y gwasanaeth newydd ar waith erbyn Gemau Olympaidd 2008 yn Beijing.

Hyrwyddo addysg a dysgu

Mae BBCi yn ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau dysgu a'r cynnwys a ddarperir gan y BBC. I blant iau, byddwn yn parhau i ddatblygu gwasanaeth rhyngweithiol CBeebies, gan ddarparu cyfleoedd rhyngweithio ychwanegol trwy gemau datblygol ac addysgol. Eleni byddwn yn lansio gemau newydd i ddefnyddwyr iau.

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae ein gwasanaethau newyddion a gwybodaeth yn rhoi sylw i ddigwyddiadau a materion allweddol yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU. Yn y flwyddyn i ddod byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr Newyddion ar astudiaeth ddichonoldeb i lansio darpariaeth deledu leol ar lwyfannau teledu digidol.

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae ein gwasanaethau rhyngweithiol wedi torri tir newydd, gan gefnogi datblygiad technoleg a gwella cynnwys darlledu ledled teledu digidol. Ein nod yw parhau i arloesi a byddwn yn gweithio i ddatblygu gwasanaethau eDeledu i gefnogi blaenoriaethau sianel llinol.

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Dim ond cynulleidfaoedd y DU sy'n gallu derbyn BBCi. Ond mae'n gwasanaeth newyddion yn cynnwys cyd-destun a chynnwys ategol ar gyfer straeon o bedwar ban byd, ac yn rhoi gwybodaeth gefndir am faterion o bwys rhyngwladol. Eleni, er enghraifft, byddwn yn cefnogi tymor *Subcontinent* ehangach y BBC a phrosiectau eraill y BBC sy'n helpu i greu dealltwriaeth well o faterion sy'n effeithio ar gynulleidfaoedd y DU ac sy'n berthnasol iddynt.

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae BBCi yn cefnogi swyddogaeth arweiniol y BBC yn y newid i deledu digidol trwy ddarparu gwasanaethau a chynnwys newydd i lwyfannau digidol a fydd yn cynyddu apêl teledu digidol. Er enghraifft, byddwn yn ehangu llwyfan BBCi i gynnwys lansio gwasanaethau ar-alw newydd y BBC ar o leiaf un llwyfan teledu fideo ar-alw eleni (yn amodol ar gymeradwyaeth).

Byddwn hefyd yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o fanteision teledu rhyngweithiol, ac yn gweithredu fel pwynt mynediad i wasanaethau teledu rhyngweithiol ac an-llinol y BBC.

Eleni, byddwn yn sicrhau bod y gwaith cynllunio sydd ei angen i wneud yn siŵr bod Ceefax a BBCi yn cyfateb â'i gilydd mewn pryd ar gyfer y newid i ddigidol yn rhanbarth y Borders yn hydref 2008 yn cael ei gwblhau (yn amodol ar led band).

Byddwn yn darparu mwy a mwy o gynnwys ar BBCi, ac er y byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella cyflymder profiad y defnyddiwr, byddwn yn ceisio cynnal yr amser llwytho cyfredol er gwaethaf darparu mwy o ddeunydd gwell.

Byddwn yn parhau i ddatblygu gwasanaethau ac yn manteisio ar gyfleoedd a ddaw yn sgil teledu digidol.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai BBCi helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.

Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i BBCi ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*.
Effaith:	*Ymwybyddiaeth* talwr ffi'r drwydded o BBCi a bod y gynulleidfa o'r farn bod BBCi yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwyliwr yr awr* BBCi

Newyddion

BBC News 24

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC News 24 yn darparu'r newyddion diweddaraf gyda dadansoddiadau a sylwebaeth yn gywir, diduedd ac annibynnol. Mae'n rhoi sylw cyflym a chynhwysfawr i ddigwyddiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol wrth iddynt ddigwydd, ac yn cynnig dadansoddiad arbenigol i roi'r newyddion yn ei gyd-destun.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Mae BBC News 24 yn cyflwyno newyddion a chyd-destun hygyrch a chywir gyda chymorth gwasanaeth casglu newyddion y BBC ledled y DU ac ym mhedwar ban byd. Mae'n cynnig gwasanaeth newyddion llawn bob awr, yn cynnwys y newyddion diweddaraf am chwaraeon, busnes a'r tywydd o bob cwr o'r DU. Nod BBC News 24 yw bod y cyntaf i roi newyddion fel mae'n digwydd a, lle bo'n bosibl, yn syth ond nid ar draul cywirdeb. Mae'n rhoi sylw helaeth i'r DU, o bob cwr o'r DU ac i weddill y byd.

Dyma flaenoriaethau allweddol BBC News 24 ar gyfer y flwyddyn hon:

Blaenoriaeth	Rhesymwaith
Rhoi lle canolog i News 24 yn narpariaeth ar-lein y BBC ac ehangu cyfleoedd rhyngweithio'r gynulleidfa trwy negeseuon testun ac e-bost.	Mae BBC News 24 bob amser yn ceisio gwella ei pherthynas â'i chynulleidfa, gan wneud ei hun yn hygyrch iddynt a harneisio eu profiadau a'u safbwyntiau i gefnogi hyn
Defnyddio cyflwynwyr ar straeon newyddion mawr a dyddiau thema arwyddocaol wedi'u cynllunio, gan fynd â nhw o'r stiwdio ac i gymunedau lle mae newyddion yn digwydd	Creu mwy o effaith a darparu adroddiadau yn y fan a'r lle o ddigwyddiadau mawr a materion sy'n bwysig i'n gwylwyr
Cynyddu nifer y gwylwyr, yn enwedig ymysg y gynulleidfa iau a chynulleidfa C2DE, trwy roi mwy o newyddion am adloniant ar y sianel	Nod BBC News 24 yw cynyddu cynulleidfaoedd ymysg grwpiau nad ydym yn eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd, yn cynnwys y rhai o dan 34 oed a chynulleidfa C2DE
Cynhyrchu mwy o raglenni dogfen cost isel am straeon a themâu newyddion allweddol	Defnyddio'r adnoddau sydd gennym i gynhyrchu mwy o ddeunydd yn sgil straeon newyddion mawr gan roi mwy o werth am arian o ganlyniad

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Nod BBC News 24 yw darparu newyddion a dadansoddiadau cywir, diduedd ac annibynnol, gan archwilio safbwyntiau amrywiol a rhoi llais iddynt er mwyn gwasanaethu pob cynulleidfa. Mae ein hagenda amrywiol, yn mynd y tu hwnt i'r penawdau er mwyn darlledu straeon pwysig, gan egluro'r rhain yn glir trwy ddefnyddio dadansoddiadau a graffeg arbenigol i wella dealltwriaeth gwylwyr a'u galluogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain am faterion.

Bydd ein hadroddiadau seneddol yn parhau i roi sylw i drafodaethau arwyddocaol a digwyddiadau seneddol o San Steffan a'r senedd a'r cynulliadau datganoledig, sy'n arbennig o arwyddocaol i gynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a byddwn yn parhau i egluro sefydliadau Ewropeaidd a'u gwaith. Mae eleni'n flwyddyn gyffrous ym myd gwleidyddiaeth - bydd BBC News 24 yn cynnig eglurhad a dadansoddiad, a'r cyfle i drafod, wrth i'r ddwy brif blaid wleidyddol weddnewid eu hunain o dan arweinwyr newydd ym Mhrydain wedi oes Blair.

I hyrwyddo trafodaeth genedlaethol, rydym yn annog gwylwyr i ryngweithio gyda'r sianel, i gyflwyno sylwadau ar faterion ac i holi arbenigwyr a phobl mewn awdurdod.

Yn benodol byddwn yn:

- Darlledu gwasanaeth newyddion cynhwysfawr bob awr, yn cynnwys y tywydd a'r chwaraeon diweddaraf, a chrynodeb o'r newyddion bob hanner awr

- Darlledu newyddion busnes ar yr awr o 9am i 7pm yn ystod dyddiau'r wythnos

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Nod BBC News 24 yw cynnig agenda sy'n cynnwys mwy o newyddion rhyngwladol na phrif sianel(i) newyddion parhaus eraill y DU, felly mae straeon rhyngwladol mawr yn nodwedd amlwg o'r ddarpariaeth. Wrth i ni roi sylw iddynt, rydym yn tynnu ar arbenigedd gohebwyr y BBC sydd wedi'u lleoli mewn swyddfeydd casglu newyddion ledled y byd i roi sylwadau a dadansoddiad. Mae newyddion parhaus yn cael ei gyd-gyflwyno'n rheolaidd o leoliadau straeon mawr sy'n torri ym mhob cwr o'r byd.

Lle bo'n briodol, bydd BBC News 24 yn cynnwys amrywiaeth o leisiau rhyngwladol ledled y ddarpariaeth, gan gynnwys cyfweliadau manwl gyda gwleidyddion rhyngwladol a phobl gyhoeddus o bwys.

Eleni byddwn yn:

- Darparu mwy newyddion rhyngwladol na phrif sianel(i) newyddion parhaus eraill y DU, yn cynnwys sylw cynhwysfawr i'r paratoadau ar gyfer Etholiadau Arlywyddol 2008 UDA a Ffrainc

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae BBC News 24 yn rhoi llawer o sylw i newyddion rhanbarthol, gan dynnu ar arbenigedd gohebwyr y BBC ledled y DU a cheisio cynnwys safbwynt rhanbarthol o'r tu allan i Lundain mewn straeon mawr er mwyn dangos y gwahanol effaith ar wahanol rannau o'r wlad. Rydym yn gofyn am farn a sylwadau gan amrywiaeth o ffynonellau ledled y DU – pobl fusnes, academyddion, grwpiau pwyso a'r cyhoedd, ac yn rhoi cyfle i wylwyr ofyn cwestiynau i westeion y sianel.

Mae gwleidyddiaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol yn cael lle amlwg ledled yr amserlen, yn cynnwys trafodaethau'r senedd a'r cynulliadau datganoledig. Eleni, byddwn yn rhoi sylw helaeth i Etholiadau Cynulliad Cymru a Senedd yr Alban a'r etholiadau lleol yn Lloegr.

Eleni, byddwn ni'n:

- Cynnwys mwy o newyddion lleol a rhanbarthol na phrif sianel(i) newyddion parhaus eraill y DU, yn rhannol trwy roi safbwyntiau rhanbarthol ar straeon cenedlaethol

- Darparu newyddion am chwaraeon gydol y dydd, gan gyflwyno prif straeon chwaraeon y dydd bob nos, a darparu 100 awr o newyddion chwaraeon y flwyddyn

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae BBC News 24 ar gael ar bob llwyfan teledu digidol, a bydd unrhyw stori newyddion fawr yn parhau i gael ei darlledu'n fyw ar wefan newyddion y BBC. Rydym yn ychwanegu at ein darpariaeth newyddion trwy ddarparu fideo, lluniau llonydd a negeseuon wedi'u cyflwyno gan y gwylwyr, lle bo'n briodol, er mwyn cynnig adroddiadau uniongyrchol a safbwyntiau o bob math. Ein nod yw galluogi cynulleidfaoedd i gyfrannu yn y ffordd symlaf bosibl a chreu un ddarpariaeth ddi-dor ar draws pob llwyfan.

Hyrwyddo addysg a dysgu

Mae BBC News 24 yn darparu addysg anffurfiol i wylwyr trwy gyflwyno newyddion a gwybodaeth ddibynadwy ar bynciau amrywiol, fel busnes ac economeg, gwyddoniaeth a thechnoleg, y celfyddydau a diwylliant.

Fframwaith Mesur Pefformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai BBC News 24 helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i BBC News 24 ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*.
Effaith:	*Ymwybyddiaeth* talwr ffi'r drwydded o BBC News 24 a bod y gynulleidfa o'r farn bod BBC News 24 yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwyliwr yr awr* BBC News 24.

Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- 90% o oriau yn rhaglenni gwreiddiol (cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys unrhyw raglenni a gomisiynir gan y BBC, gan gynnwys rhaglenni newydd ac unrhyw ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar unrhyw sianel gwasanaeth cyhoeddus arall o eiddo'r BBC).

- Ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC, gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol[9] sef 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.

[9] nid yw "rhaglenni perthnasol" yn cynnwys newyddion

BBC Parliament

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Parliament yn gwneud gwaith siambrau seneddol y DU a Senedd Ewrop yn hygyrch i bawb. Mae'r gwasanaeth hefyd yn dadansoddi ac yn rhoi pynciau llosg a gwleidyddiaeth sy'n sail i drafodaethau seneddol yn eu cyd-destun.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Mae BBC Parliament yn rhoi pwyslais ar ddangos trafodaethau Senedd San Steffan (yn cynnwys trafodaethau di-dor o'r ddau Dŷ) a siambrau seneddol datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon heb fawr o sylwadau na throslais os o gwbl. Dangosir detholiad o drafodaethau Pwyllgorau hefyd. Y tu allan i'r Senedd, manteisir ar gyfleoedd i ddarlledu areithiau a chynadleddau newyddion yn llawn, a rhoi sylw eang i gynadleddau gwleidyddol Llafur, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn ogystal ag anerchiadau arweinwyr pleidiau eraill â nifer arwyddocaol o aelodau etholedig. Mae'r holl ddarpariaeth yn ddiduedd, cywir ac annibynnol.

Dyma flaenoriaethau allweddol BBC Parliament ar gyfer y flwyddyn hon:

Blaenoriaeth	Rhesymwaith
Archwilio gwaith Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn *The Record Review*, gan ddefnyddio darllediadau o'r ddau dŷ a chyfweliadau gyda gwleidyddion a sylwebwyr arbenigol, wedi'u hategu gan ddeunydd cefnogi newydd ar bbc.co.uk/parliament	Cwblhau'r amrywiaeth o raglenni gwleidyddol a seneddol trwy ganolbwyntio ar San Steffan mewn rhaglen adolygu.
Defnyddio band eang i ddarparu mynediad byw, ar-alw ac uchafbwyntiau fideo o waith Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi a detholiad o bwyllgorau	Defnyddio technoleg ar-lein i wella mynediad defnyddwyr i'r amserlen linol.
Darparu darllediadau yr un diwrnod ar gyfer Cwestiynau'r Prif Weinidog yng Nghymru a'r Alban yn ogystal â darllediadau rheolaidd o'r Senedd a'r Cynulliad ar y penwythnos	Sicrhau mynediad amserol i waith y Senedd a'r Cynulliad datganoledig

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Nod BBC Parliament yw rhoi sylw cywir, diduedd ac annibynnol i drafodaethau aelodau gwleidyddol etholedig y DU, a bwrw golwg agosach ar ddemocratiaeth ar waith nad yw ar gael yn unman arall yn y DU. Rydym yn cyflwyno darllediadau cynhwysfawr o Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, ac yn rhoi sylw sylweddol i wrandawiadau'r Pwyllgorau Dethol a thrafodaethau yn senedd a chynulliadau datganoledig y DU. Rydym hefyd yn archwilio ac egluro gwaith Senedd Ewrop.

Mae cyfran uchel o'r cynnwys yn fyrfyfyr, yn cael ei ddarlledu'n fyw neu fel petai'n fyw heb sylwadau troslais. Mae'r sianel yn defnyddio graffeg a thestun ar y sgrin i gynnig esboniad a chyd-destun i'r cynnwys, gan adael i'r gwylwyr ddod i benderfyniad eu hunain ar faterion pwysig.

Eleni'n benodol bydd BBC Parliament yn:

- Darlledu 70 awr o raglenni o San Steffan mewn wythnos arferol, gan gynnwys 10 awr o drafodaethau'r Pwyllgorau Dethol

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae BBC Parliament yn rhoi sylw eang i waith sefydliadau datganoledig y DU, gan gynnwys rhai trafodaethau yn eu cyfanrwydd o Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad

Gogledd Iwerddon (pan fo trafodaethau) a Chwestiynau'r Maer yng Nghynulliad Llundain, ynghyd ag uchafbwyntiau detholedig o drafodaethau eraill.

Mae'r sianel hefyd yn darlledu trafodaethau senedd Eglwys Loegr (y Synod Cyffredinol) pan mae'n trin a thrafod materion o bwys cyfansoddiadol neu wleidyddol.

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu o leiaf 100 awr o drafodaethau Senedd yr Alban [10]
- Darlledu o leiaf 100 awr o drafodaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru [11]

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Mae BBC Parliament yn darlledu rhaglen wythnosol (yn ystod tymhorau seneddol) am waith sefydliadau Ewropeaidd, gan ganolbwyntio ar Senedd Ewrop. Byddwn hefyd yn darlledu rhaglen wythnosol ar y cyd â darlledwr Americanaidd i roi blas o fyd gwleidyddol cartref a thramor UDA i wylwyr y DU.

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu o leiaf 100 awr o raglenni o Frwsel a Strasbourg (gan gynnwys ailddarllediadau)

Hyrwyddo addysg a dysgu

Mae BBC Parliament yn helpu gwylwyr i ddysgu am wleidyddiaeth a'n democratiaeth. Mae'r holl sylw a rown i drafodaethau, gyda chymorth testun ar y sgrin, yn fodd i'r gwylwyr ddeall mwy am wleidyddiaeth a gweithdrefnau sefydliadau gwleidyddol cenedlaethol, y DU ac Ewrop.

Rydym hefyd yn manteisio ar archifau'r BBC i roi digwyddiadau hanesyddol yn eu cyd-destun. Mae hyn yn hybu ein dealltwriaeth ni o hanes gwleidyddol y DU ers yr Ail Ryfel Byd.

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae BBC Parliament yn defnyddio technolegau digidol a rhyngweithiol i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl, a bydd yn parhau i archwilio technolegau newydd a datblygol gyda'r nod o roi mwy o werth i gynulleidfaoedd a chefnogi dibenion cyhoeddus y BBC.

Fframwaith Mesur Pefformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai BBC Parliament helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i BBC Parliament ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*.
Effaith:	*Ymwybyddiaeth* talwr ffi'r drwydded o BBC Parliament a bod y gynulleidfa o'r farn bod BBC Parliament yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwyliwr yr awr* BBC Parliament.

Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- 90% o oriau yn rhaglenni gwreiddiol (cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys unrhyw raglenni a gomisiynir gan y BBC, gan gynnwys rhaglenni newydd ac unrhyw ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar unrhyw sianel gwasanaeth cyhoeddus arall o eiddo'r BBC).

[10] Efallai na chyflawnir hyn mewn blwyddyn etholiad o ganlyniad i lai o drafodaethau
[11] Efallai na chyflawnir hyn mewn blwyddyn etholiad o ganlyniad i lai o drafodaethau

- Ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC, gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol [12] sef 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.

[12] nid yw “rhaglenni perthnasol” yn cynnwys newyddion

Gwledydd a rhanbarthau

Radio Lleol Lloegr[13]

Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae Radio Lleol y BBC yn Lloegr yn darparu gwasanaeth newyddion, gwybodaeth a thrafodaeth llafar yn bennaf i gymunedau trefol a gwledig. Caiff y rhaglenni llafar eu hategu gan gerddoriaeth. Y gynulleidfa darged yw gwrandawyr 50 oed a throsodd [14], nad yw gorsafoedd eraill yn darparu'n dda ar eu cyfer. Mae yna bwyslais cryf ar ryngweithio a chael y gynulleidfa i gymryd rhan.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth ar gyfer 2007/2008

Mae Radio Lleol y BBC yn darparu rhaglenni newyddion a llafar cywir, diduedd ac annibynnol sy'n gosod materion lleol yn eu cyd-destun. Mae ei raglenni'n berthnasol i'w wrandawyr lleol, yn cyflwyno materion lleol a materion eraill sydd o bwys iddyn nhw. Mae'n hyrwyddo'r ardal leol ac yn galw gwneuthurwyr penderfyniadau i gyfrif. Mae rhaglenni hefyd yn rhoi cyfle i wrandawyr ddweud eu hanesion amrywiol eu hunain a rhannu eu profiadau. Cerddoriaeth prif ffrwd sy'n cael ei chwarae yn ystod yr oriau brig gyda cherddoriaeth arbenigol briodol i'r gynulleidfa leol sy'n cael ei chwarae yn ystod yr oriau eraill.

Dyma flaenoriaethau allweddol Radio Lleol y BBC yn Lloegr ar gyfer 2007/2008:

Blaenoriaeth	***Rhesymwaith***
Cynnal nifer cyffredinol gwrandawyr y gwasanaeth, gan gynnig rhaglenni eang eu hapêl sy'n darparu pwyntiau mynediad i radio llafar lleol i wrandawyr newydd	Mewn amgylchedd cyfryngau sy'n mynd yn fwyfwy tameidiog, heb dwf arfaethedig o ran buddsoddiad, mae hwn yn darged sy'n her gynyddol
Diwygio'r rhaglenni i wasanaethu cynulleidfa darged radio lleol yn well	Ein huchelgais barhaus yw cynnal ein hamrywiaeth a'n cymysgedd cyfredol o raglenni a deall cynulleidfaoedd yn well ar yr un pryd trwy ein trafodaethau'n hunain a gwaith gyda Chyngor Cynulleidfa Ymddiriedolaeth y BBC yn Lloegr

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb dibenion y BBC yn 2007/2008

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Rhaglen gyfan gwbl lafar yw rhaglen frecwast ddyddiol Radio Lleol y BBC ledled y wlad. Yng ngweddill yr amserlen, mae Radio Lleol y BBC yn annog ymdeimlad o gyfrifoldeb sifil ar y cyd ymysg gwrandawyr trwy ddarparu newyddion a gwybodaeth gywir sy'n cael eu diweddaru'n barhaus am faterion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r rhaglenni'n cynnwys cyfleoedd i drafod a dadlau, yn cynnwys sesiynau rheolaidd i wrandawyr rannu eu safbwyntiau a holi gwneuthurwyr penderfyniadau etholedig ac anetholedig.

Cafodd fformat *Groundswell* ei ddatblygu gan BBC Radio Nottingham ac mae gorsafoedd eraill wedi'i fabwysiadu erbyn hyn. Bydd yn parhau i gael cymunedau lleol i helpu i drefnu trafodaethau cyhoeddus ar fater sydd o bwys i'r gymdogaeth leol, gan recordio'r drafodaeth i'w darlledu. Eleni, rydym yn gobeithio dilyn llwyddiannau blaenorol - er enghraifft, cynorthwyodd BBC Radio Solent wrandawyr i herio gwneuthurwyr polisi ar "alwadau distaw" sy'n cael eu gwneud gan ganolfannau telefarchnata. Yn sgil hynny, codwyd y mater yn y Senedd.

Bydd llawer o wasanaethau radio lleol unigol yn parhau i godi ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol ac yn annog gwirfoddoli.

[13] Ar 1 Ebrill 2007 mae 38 gorsaf radio leol yn Lloegr – gweler y tabl ar y diwedd
[14] Ac eithrio BBC London – gweler Trwydded y Gwasanaeth a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC ym mis Ionawr 2007

Bydd pob gwasanaeth lleol yn parhau i fod yn brif ffynhonnell o wybodaeth leol yn ystod argyfyngau tywydd neu argyfyngau eraill.

Eleni'n benodol byddwn ni'n:

- darlledu o leiaf 60% o gynnwys llafar yn yr oriau craidd, a 100% yn ystod oriau brig brecwast ar gyfartaledd

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae Radio Lleol y BBC yn darparu gwasanaeth llafar unigryw ledled Lloegr sy'n canolbwyntio ar faterion lleol a chymunedol. Mae pob gorsaf yn darlledu rhaglenni crefyddol sy'n adlewyrchu'r credoau yn eu hardal a byddant yn parhau i ddarparu rhaglenni crefyddol ar y Sul.

Yn ystod y flwyddyn i ddod rydym yn bwriadu ategu hyn gyda phrosiectau eraill fel prosiect y llynedd oedd yn edrych ar hunaniaeth Hindŵiaid yn yr 21ain Ganrif ac a ddarlledwyd ar sawl gorsaf a *Fresh Expressions*, cyfres am eglwysi sy'n datblygu yn y traddodiad Cristnogol.

Mae Radio Lleol y BBC yn dod â chymunedau ynghyd i ddathlu digwyddiadau lleol allweddol, ac mae darllediadau allanol o bob cwr o'r ardal leol yn nodwedd gyson o'r amserlen. Lle bo'n briodol, mae Radio Lleol y BBC yn gweithio gyda radio rhwydwaith i ddarparu deunydd lleol mewn rhaglenni cenedlaethol - yn cynnwys chwaraeon, lle mae teyrngarwch a brwdfrydedd lleol yn cael llwyfan cenedlaethol.

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu o leiaf 230,000 awr o gynnyrch lleol (bydd llai na 2.5% o hyn yn ailddarllediadau)

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae Radio Lleol y BBC yn rhoi cyfle i gerddorion lleol arddangos eu doniau - yn cynnwys *The Weekender* gan BBC Radio Northampton a *South Live* gan BBC Southern Counties Radio eto eleni.

Bydd safleoedd *Where I Live* hefyd yn galluogi grwpiau heb eu harwyddo i uwchlwytho eu cerddoriaeth ar gyfer cynulleidfa leol a fyd-eang.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'n canolfannau agored a'n bysiau arbennig pwrpasol i gyrraedd cymunedau amrywiol ac i annog unigolion a grwpiau i ddarparu eu cynnwys creadigol eu hunain i'w ddarlledu.

Gyda thros 300 o gyflwynwyr ar y gwahanol orsafoedd, mae Radio Lleol y BBC bob amser yn chwilio am gyflwynwyr newydd o gefndiroedd amrywiol - mae llwyddiannau diweddar yn cynnwys Toby Foster ar BBC Radio Sheffield, Charlie Crocker ar BBC Radio Solent, Jeremy Sallis ar BBC Radio Cambridgeshire a Janine Machin ar BBC Radio Stoke.

Hyrwyddo addysg a dysgu

Bydd Radio Lleol y BBC unwaith eto'n defnyddio ei fysiau a'i ganolfannau agored - yn aml mewn partneriaeth gydag asiantaethau addysgol fel colegau addysg bellach yng Nghaerlŷr a Lerpwl - i ymgysylltu ag oedolion sy'n dysgu. Maent yn gam tuag at ennill sgiliau cyfrifiadurol, a chan ein bod ni'n cael ein hystyried fel ffrind dibynadwy gan ein gwrandawyr rydym yn ffordd ddiogel o fanteisio ar gyfleoedd sy'n gallu peri braw fel arall.

Byddwn hefyd yn parhau gyda'n gwaith dysgu a llythrennedd cyfryngau gydag ysgolion a cholegau - er enghraifft, trwy brosiect parhaus *All2gether Now* yn Leeds. Eleni hefyd bydd ein holl orsafoedd radio lleol yn cyflwyno agwedd leol ar ymgyrch prosiectau cyffredinol y BBC fel *How We Built Britain*, a *Saving Planet Earth*.

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Mae BBC English Regions yn ymrwymedig i wasanaethu materion lleol yn bennaf, yn cynnwys rhoi safbwynt lleol i straeon cenedlaethol. Ond mae ei raglenni hefyd yn rhoi sylw i faterion a digwyddiadau rhyngwladol allweddol. Mae pob gorsaf radio leol yn cael ei darlledu ar y rhyngrwyd a byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o gysylltu unigolion a chymunedau ar raddfa fyd-eang. Er enghraifft, mae darpariaeth radio ac ar-lein BBC Radio Cornwall, *Cornwall Connected* yn uno trigolion Cernyw a phobl o Gernyw sy'n byw ym mhob cwr o'r byd.

Dulliau cyfathrebu newydd

Bydd Radio Lleol y BBC yn parhau i hyrwyddo technolegau digidol i'w gynulleidfaoedd, a bydd ei fysiau a'i ganolfannau agored yn rhoi cyfleoedd i wrandawyr arbrofi gyda llwyfannau digidol. Mae gan bob gorsaf radio leol wefan sy'n darparu newyddion a gwybodaeth leol sy'n cefnogi defnyddwyr i ennill sgiliau llythrennedd cyfryngau a'u gwella.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai Radio Lleol y BBC helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei *gyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i Radio Lleol y BBC ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Hefyd, cyfran y *rhaglenni gwreiddiol* gydol yr holl oriau (yn cynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	Y gynulleidfa o'r farn bod Radio Lleol y BBC yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwrandåwr yr awr* Radio Lleol y BBC.

Gorsafoedd radio lleol y BBC yn Lloegr [15]:

BBC Radio Berkshire BBC Radio Bristol (including Somerset Sound) BBC Radio Cambridgeshire BBC Radio Cornwall BBC Coventry & Warwickshire BBC Radio Cumbria BBC Radio Derby BBC Radio Devon BBC Essex BBC Radio Gloucestershire BBC Radio Guernsey BBC Radio Hereford & Worcester	BBC Radio Humberside BBC Radio Jersey BBC Radio Kent BBC Radio Lancashire BBC Radio Leeds BBC Radio Leicester BBC Radio Lincolnshire BBC London BBC Radio Manchester BBC Radio Merseyside BBC Radio Newcastle BBC Radio Norfolk BBC Radio Northampton BBC Radio Nottingham	BBC Radio Oxford BBC Radio Sheffield BBC Radio Shropshire BBC Radio Solent BBC Southern Counties Radio BBC Radio Stoke BBC Radio Suffolk BBC Tees BBC Three Counties Radio BBC Radio Wiltshire & Radio Swindon BBC WM BBC Radio York

[15] Nodyn i Ymddiriedolaeth y BBC: bydd y rhain i gyd yn gysylltiadau byw i wefannau'r gwasanaeth

Radio Scotland

Cylch gwaith y gwasanaeth

Gwasanaeth llafar yw BBC Radio Scotland sy'n cynnig deunydd o bob math ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl yr Alban. Yn ogystal â materion lleol a chenedlaethol, mae'r rhaglenni hefyd yn trafod materion sydd o bwys i'r DU ac yn rhyngwladol o safbwynt Albanaidd.

Mae BBC Radio Scotland hefyd yn cynnig rhaglenni lleol wedi'u targedu'n benodol ac yn cefnogi cymunedau lleol trwy ei raglenni.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth ar gyfer 2007/2008

Wrth gefnogi cerddoriaeth a chelfyddydau'r Alban, mae BBC Radio Scotland yn meithrin creadigrwydd a doniau Albanaidd ledled ei raglenni llafar a cherddoriaeth. Mae'n gwneud y defnydd gorau posibl o amleddau FM a MW er mwyn darparu dewis cynhwysfawr ac amrywiol o raglenni i wrandawyr. Mae'n darparu gwasanaeth newyddion cywir ac annibynnol a llwyfannau lle gall gwrandawyr ac arbenigwyr drafod materion lleol a chenedlaethol, yn amrywio o wleidyddiaeth i chwaraeon. Mae'r rhaglenni lleol yn adlewyrchu anghenion a diddordebau lleol a'r gwasanaeth yn hyrwyddo technolegau digidol i gynulleidfaoedd a'u defnyddio i annog y gynulleidfa i gymryd rhan. Dyma'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn hon:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Cynnal nifer cyffredinol gwrandawyr y gwasanaeth	Mewn amgylchedd cyfryngau sy'n mynd yn fwyfwy tameidiog, mae hwn yn darged sy'n her gynyddol.
Darlledu o leiaf 7000 awr o raglenni byw neu wreiddiol o bob math	Uchelgais i gynnal a datblygu'n hamrywiaeth a'n cymysgedd cyfredol o raglenni, gan ehangu'r amrywiaeth o leisiau a glywir a'r cyfleoedd i gyflwyno sylwadau a safbwyntiau.
Darparu adroddiadau a dadansoddiad helaeth o etholiadau Senedd yr Alban a'r etholiadau lleol ym mis Mai, yn cynnwys trafodaeth Arweinwyr (darlledu yr un pryd ar BBC One Scotland) a rhifynnau etholiad arbennig o raglenni er mwyn i gynulleidfa'r Alban gael cyfle i holi gwleidyddion a thrafod materion allweddol	Elfen graidd o ddarparu gwasanaeth newyddion a materion cyfoes cywir, diduedd ac annibynnol i'n cynulleidfaoedd, gan ddarparu dadansoddiad a sylwadau awdurdodol a galluogi'n cynulleidfaoedd i ddal y rhai sydd mewn grym i gyfrif.

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Bydd BBC Radio Scotland yn parhau i gyfuno adroddiadau a dadansoddiadau eang gyda chyfranogiad unigolion a'r gymuned. Bydd rhaglenni ffeithiol yn rhoi cipolwg ar faterion ac agweddau ar yr Alban fodern. Bydd newyddion yn ymddangos ar adegau pwysig penodol o'r amserlen - bydd *Good Morning Scotland* yn parhau i fod yn gonglfaen ein hamserlen - gyda bwletinau pellach gydol y dydd. Bydd rhaglenni gwleidyddol yn canolbwyntio ar faterion Albanaidd ond hefyd yn rhoi sylw i San Steffan a Senedd Ewrop.

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu o leiaf 2,200 awr o newyddion a materion cyfoes, yn cynnwys adroddiadau a dadansoddiadau sylweddol ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban a'r etholiadau lleol ym mis Mai

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae BBC Radio Scotland yn darlledu i'r Alban gyfan ac yn adlewyrchu cymunedau amrywiol yr Alban trwy ei rhaglenni, yn cynnwys digwyddiadau, seremonïau a dathliadau cenedlaethol o bwys. Gydol 2007/2008 byddwn yn parhau i ryngweithio gyda'n cynulleidfaoedd trwy ddarpariaeth allgymorth ar lefel leol ac yn eu hannog i gymryd rhan yn ein rhaglenni trwy ffonio a chymryd rhan mewn trafodaethau, er mwyn iddynt fynegi eu pryderon. Byddwn yn defnyddio'n gwefan bbc.co.uk/Scotland i ehangu'r gwaith hwn.

Eleni byddwn yn cyflwyno elfen radio newydd a fydd yn cael ei chynnwys yn yr amserlen fel 'cartref' ar gyfer trafodaeth amserol ar faterion sydd o bwys i bobl yr Alban.

Byddwn ni'n gweithio gyda BBC 7 i gynnig y gorau o Radio Scotland i gynulleidfa ddigidol gyfan y DU, fel *The Fred MacAulay Show*.

Hyrwyddo addysg a dysgu

Bydd BBC Radio Scotland yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu anffurfiol mewn pynciau o bob math yn ein rhaglenni nodwedd, ffeithiol a dogfen. Lle bo'n briodol, byddwn yn cymryd rhan yn ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol cyffredinol y BBC yn yr Alban, gan eu haddasu lle bo angen i gynyddu eu hapêl at gynulleidfaoedd yr Alban.

Mae ein cynlluniau eleni'n cynnwys darparu hyfforddiant aml-gyfrwng i ysgolion yn Ucheldiroedd yr Alban, gyda golwg ar gynhyrchu deunyddiau darlledu (fel rhan o Flwyddyn Diwylliant yr Ucheldiroedd 2007) a gweithio gyda myfyrwyr sy'n astudio'r cyfryngau i gynhyrchu deunydd ar etholiadau 2007.

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Bydd BBC Radio Scotland yn parhau i feithrin a datblygu gwerthfawrogiad o ddiwylliant traddodiadol a chyfoes yr Alban, ac yn rhoi llwyfan i greadigrwydd a doniau gorau'r Alban ym mhob maes. Byddwn yn cynnig llwyfannau i bobl a diddordebau'r Alban, yn chwilio am leisiau newydd ac yn darganfod a chefnogi doniau ysgrifennu, cerddorol ac adloniant. Byddwn yn datblygu ein cysylltiadau â'r sector radio cymunedol ac yn cyfrannu at dwf yr economi greadigol yn yr Alban trwy gynnal ein safle fel prif brynwr radio llafar annibynnol yr Alban – ein nod yw comisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol yn 2007/08.

Byddwn hefyd yn ceisio cynnal ein safle fel prif ddarparwr cerddoriaeth fyw'r wlad, gan ddarlledu mwy o gerddoriaeth fyw na'r holl orsafoedd masnachol eraill gyda'i gilydd. Mae sesiynau cerddoriaeth fyw yn rhan o'n holl ddarpariaeth gerddorol fin nos ac ar y penwythnos, ac yn cynnwys *Global Gathering*, *Travelling Folk*, *The Jazz House* a *Take the Floor*. Fel rhan o Music 07 yr Alban byddwn yn darlledu o wyliau cerddorol fel The Belladrum Festival yn Beauly, T in the Park a Celtic Connections. Byddwn hefyd yn rhoi sylw i Bencampwriaethau Bandiau Pibau'r Byd ac yn gweithio gyda Cherddorfa Symffoni BBC yr Alban ar amrywiaeth o gyngherddau a gweithdai cerddorol.

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu deunydd cerddorol arbenigol yn wythnosol, wedi'i ategu gan amrywiaeth o raglenni fel rhan o Music 2007 yr Alban, gan gwmpasu arddulliau cerddorol o bob math ac adlewyrchu'r gwahanol ddylanwadau ar dreftadaeth gerddorol yr Alban

- Darlledu o leiaf 200 awr o raglenni celfyddydol, yn cynnwys ailddarllediadau o'r rhaglen gelf ddyddiol

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Mae BBC Radio Scotland yn dod â'r byd i'r DU trwy ei ddarllediadau rheolaidd o ddigwyddiadau a materion rhyngwladol ar ei raglenni newyddion a materion cyfoes. Mae'n dod â'r Alban i'r byd trwy ddarparu rhaglenni Radio Scotland ar wefan bbc.co.uk, gan gysylltu â'r niferoedd cynyddol o Albanwyr a gwrandawyr eraill ym mhob cwr o'r byd. Mae ein cynlluniau ar gyfer y 12 mis nesaf yn cynnwys darlledu amrywiaeth ehangach o raglenni trwy gyfleuster Gwrando Eto ac arddangos doniau gorau'r Alban.

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae rhaglenni BBC Radio Scotland yn cael eu darlledu ar radio digidol ac yn fyw ar y rhyngrwyd, gyda chyfran fawr ar gael ar y cyfleuster ar-lein Gwrando Eto, am saith diwrnod wedi'r darllediad cyntaf. Mae ein gwefan – bbc.co.uk/scotland – yn annog y gynulleidfa i gymryd rhan ac yn cyflwyno defnyddwyr i gynnwys a gwasanaethau cysylltiedig. Eleni byddwn yn datblygu ein portffolio o gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ymhellach, gan archwilio'r potensial i raglenni Radio Scotland gynnig deunyddiau sain a fideo cynorthwyol trwy lwyfannau eraill y BBC.

Fframwaith mesur perfformiad

Yn ogystal â'r addewidion blynyddol a roddwyd i gynulleidfaoedd yn y SoPP hwn, mae gan BBC Radio Scotland amodau'n gysylltiedig â'i Thrwydded Gwasanaeth. Yn ystod oes y Drwydded Gwasanaeth gyfredol, mesurir perfformiad BBC Radio Scotland yn erbyn yr amodau canlynol:

Cyrhaeddiad:	Dylai BBC Radio Scotland helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i BBC Radio Scotlad ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Hefyd, cyfran y *rhaglenni gwreiddiol* gydol yr holl oriau (yn cynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	Y gynulleidfa o'r farn bod Radio Lleol y BBC yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwrandåwr yr awr* BBC Radio Scotland.

Radio nan Gàidheal

Cylch gwaith y gwasanaeth

Gwasanaeth llafar a cherddoriaeth cynhwysfawr yw BBC Radio nan Gàidheal ar gyfer siaradwyr Gaeleg mewn amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd yn yr Alban sy'n darlledu rhaglenni o bob math.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth ar gyfer 2007/2008

Mae BBC Radio nan Gàidheal yn darparu gwasanaeth newyddion cywir ac annibynnol ac yn cyflawni swyddogaeth ganolog o ran adrodd am fywyd gwleidyddol cenedlaethol a'i ddadansoddi. Mae'n darparu llwyfannau i wrandawyr ac arbenigwyr drafod a mynd i'r afael â phynciau o bwys. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi cerddoriaeth a chelfyddydau Albanaidd a Gaeleg, yn cynnig newyddion a dadansoddiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol mewn Gaeleg, trafodaeth ac eitemau nodwedd amserol, rhaglenni i blant a phobl ifanc a rhaglenni crefyddol. Mae'n hyrwyddo technolegau digidol i gynulleidfaoedd ac yn eu defnyddio i annog y gynulleidfa i gymryd rhan.

Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn hon:

Blaenoriaeth	***Rhesymwaith***
Cynnal nifer cyffredinol gwrandawyr y gwasanaeth	Mewn amgylchedd cyfryngau sy'n mynd yn fwyfwy tameidiog, mae hwn yn darged sy'n her gynyddol.
Darparu adroddiadau a dadansoddiad helaeth o etholiadau Senedd yr Alban a'r etholiadau lleol ym mis Mai, yn cynnwys sylw dyddiol i'r ymgyrch, dadansoddiad o faterion allweddol yr ymgyrch a thrafodaeth gymunedol ar y radio a'r teledu yr un pryd er mwyn i gynulleidfa'r Alban gael cyfle i holi cynrychiolwyr y pleidiau gwleidyddol	Elfen graidd o ddarparu gwasanaeth newyddion a materion cyfoes cywir, diduedd ac annibynnol i'n cynulleidfaodd, gan roi cyfle i'n cynulleidfaoedd i ddal y rhai sydd mewn grym i gyfrif. Hyd yn oed yn fwy allweddol pan fo cynulleidfaoedd ar wasgar.
Datblygu a chomisiynu rhaglenni gyda photensial i'w rhoi ar sawl llwyfan. Byddwn yn adeiladu ar brofiad y comisiwn aml-lwyfan diweddar Rapal, yn treialu rhaglen adolygu newyddion wythnosol ddychanol ar y radio gyda golwg ar ei datblygu ar gyfer y teledu a gwneud defnydd arloesol o archif ar-lein i gefnogi cynnyrch aml-gyfrwng ym Mlwyddyn Diwylliant yr Ucheldiroedd 2007.	Datblygiad naturiol amcan ehangach BBC Scotland i weithio gyda'r Gwasanaeth Cyfryngau Gaeleg i ddatblygu partneriaeth er mwyn darparu Gwasanaeth Digidol Gaeleg (lansio yn amodol ar gymeradwyaeth).

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Bydd BBC Radio nan Gàidheal yn parhau i ddarparu gwasanaeth newyddion diduedd, gan gyfuno adroddiadau a dadansoddiadau gyda chyfraniadau gan unigolion a'r gymuned a chanolbwyntio'n arbennig ar y materion sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd Gaeleg ac yn effeithio arnynt. Bydd rhaglenni llafar eraill fel *Coinneach Maciomhair*, yn rhoi cipolwg ar faterion ac agweddau ar yr Alban gyfoes. Bydd newyddion yn cael ei ddarlledu ar adegau pwysig penodol o'r amserlen, gyda bwletinau pellach gydol y dydd. Bydd rhaglenni gwleidyddol fel *Aithris na Maidne* a *Aithris na Seachdain* yn canolbwyntio ar faterion Albanaidd ond hefyd yn rhoi sylw i San Steffan a Senedd Ewrop.

Bydd BBC Radio nan Gàidheal yn cynnig llwyfan i gymunedau Gaeleg eu hiaith yn yr Alban. Lle bo'n briodol, bydd yn addasu mentrau llythrennedd cyfryngau ehangach y BBC i'w chynulleidfaoedd ei hun.

Eleni byddwn ni'n:

- darparu dadansoddiad a chyfleoedd ar gyfer trafod materion ymgyrch etholiad Senedd yr Alban a'r etholiadau lleol sy'n bwysig i gynulleidfa BBC Radio nan Gaidheal a chynnig darllediad a dadansoddiad byw parhaus o ganlyniadau'r etholiadau wrth iddynt gael eu cyhoeddi

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae BBC Radio nan Gàidheal yn darlledu i'r Alban gyfan, yn cynnwys cymunedau'r ynysoedd, ac yn adlewyrchu bywydau amrywiol ei wrandawyr trwy ei rhaglenni, yn cynnwys digwyddiadau, seremonïau a dathliadau o bwys cenedlaethol. Gydol 2007/2008 byddwn yn parhau i ryngweithio gyda'n cynulleidfaoedd trwy ddarpariaeth allgymorth ar lefel leol ac yn eu hannog i gymryd rhan yn ein rhaglenni trwy ffonio a chymryd rhan mewn trafodaethau, er mwyn iddynt fynegi eu pryderon. Byddwn yn defnyddio'n gwefan bbc.co.uk/alba i ehangu'r gwaith hwn.

Byddwn yn parhau i adlewyrchu'r gymuned Aeleg fel ag yr oedd hi yn y gorffennol ac fel mae heddiw trwy raglenni unigol a chyfresi a fydd yn canolbwyntio ar faterion gwledig a threfol.

Byddwn yn gweithio i ehangu ein cyrhaeddiad a'n hapêl i adrannau iau'r gynulleidfa, gan ddatblygu potensial traws-gyfrwng gyda rhaglenni fel *RAPAL*, a datblygu sgiliau ymysg plant a phobl ifanc trwy waith allgymorth mewn ysgolion ac ar y cyd â sefydliadau partner.

Hyrwyddo addysg a dysgu

Bydd BBC Radio nan Gàidheal yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu anffurfiol mewn pynciau o bob math yn ein rhaglenni nodwedd, ffeithiol a dogfen. Yn arbennig, byddwn yn darlledu cyfresi addysg ffurfiol ac anffurfiol sy'n cefnogi darpariaeth ddysgu a datblygu Gaeleg, yn cynnwys rhaglenni ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd i ysgogi darllen, siarad a gwrando (yn y flwyddyn bontio ar gyfer cwricwlwm addysgol yr Alban).

Byddwn yn parhau i gefnogi'r rhai sy'n dysgu'r iaith ac yn darparu amrywiaeth o raglenni sy'n cynnig cyfleoedd dysgu anffurfiol i oedolion, ar y cyd ag asiantaethau a sefydliadau allanol. Bydd hyn yn cynnwys annog a chefnogi cyfleoedd ysgrifennu Gaeleg mewn partneriaeth â'r Cyngor Llyfrau Gaeleg.

Lle bo'n briodol, byddwn yn cymryd rhan yn ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol cyffredinol y BBC yn yr Alban, gan eu haddasu lle bo angen i gynyddu eu hapêl at ein cynulleidfaoedd arbennig ni.

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Bydd BBC Radio nan Gàidheal yn parhau i feithrin a datblygu gwerthfawrogiad o ddiwylliant traddodiadol a chyfoes yr Alban, ac yn rhoi llwyfan i greadigrwydd a doniau gorau'r Alban. Byddwn yn cynnig llwyfannau i bobl a diddordebau'r Alban, yn chwilio am leisiau newydd ac yn darganfod a chefnogi doniau ysgrifennu, cerddorol ac adloniant.

Bydd amserlen eleni'n cynnig rhaglenni arbennig ac wythnosau thema i ategu digwyddiadau sy'n cael eu cynnal fel rhan o Flwyddyn Diwylliant yr Ucheldiroedd 2007.

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Mae BBC Radio nan Gàidheal yn dod â'r byd i'r DU trwy ei ddarllediadau rheolaidd o ddigwyddiadau a materion rhyngwladol ar ei raglenni newyddion a materion cyfoes Mae'n dod â'r Alban i'r byd trwy ddarparu cynnwys Radio nan Gàidheal ar wefan bbc.co.uk.

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae rhaglenni BBC Radio nan Gàidheal yn cael eu darlledu ar radio digidol ac yn fyw ar y rhyngrwyd, gyda chyfran fawr ar gael ar y cyfleuster ar-lein Gwrando Eto, am saith diwrnod wedi'r darllediad cyntaf. Rydym yn ceisio darparu deunydd arloesol i adrannau iau ein cynulleidfa yn yr Alban, i'w ddarparu ar fand llydan a ffonau symudol, ac mae ein gwefan – bbc.co.uk/alba – yn annog y gynulleidfa i gymryd rhan ac yn cyflwyno defnyddwyr i gynnwys a gwasanaethau cysylltiedig.

Fframwaith Mesur Pefformiad

Mae gan BBC Radio nan Gàidheal amodau'n gysylltiedig â'i Thrwydded Gwasanaeth. Yn ystod oes y Drwydded Gwasanaeth gyfredol, mesurir perfformiad BBC Radio nan Gàidheal yn erbyn yr amodau canlynol:

Cyrhaeddiad:	Dylai BBC Radio nan Gàidheal helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i BBC Radio nan Gàidheal ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Hefyd, cyfran y *rhaglenni gwreiddiol* gydol yr holl oriau (yn cynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	Y gynulleidfa o'r farn bod BBC Radio nan Gàidheal yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwrandåwr yr awr* BBC Radio nan Gàidheal.

Radio Wales

Cylch gwaith y gwasanaeth

Gwasanaeth llafar i oedolion yw Radio Wales sy'n cwmpasu ystod eang o arddulliau ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru. Yn ogystal â materion lleol a chenedlaethol, mae'r rhaglenni hefyd yn trafod materion o bwys i'r DU a gweddill y byd.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Mae BBC Radio Wales yn rhoi lle canolog i newyddion, chwaraeon a gwybodaeth yn yr amserlen. Mae'n darparu gwasanaeth newyddion cywir a diduedd ac yn rhoi llwyfannau i arbenigwyr a gwrandawyr, sy'n cael eu hannog i gymryd rhan, drafod materion lleol a chenedlaethol – o wleidyddiaeth i bêl-droed. Mae rhaglenni Radio Wales yn ceisio apelio at wrandawyr craidd a gwrandawyr iau. Mae'r orsaf yn meithrin doniau newydd ac yn comisiynu gwaith mewn arddulliau llafar a cherddorol amrywiol gan ddoniau newydd a sefydledig.

Ar gyfer y flwyddyn i ddod, mae blaenoriaethau allweddol Radio Wales yn cynnwys:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Sefydlu BBC Radio Wales fel gwasanaeth 'methu gwneud hebddo' ar gyfer newyddion, chwaraeon a gwybodaeth, sy'n cael ei fesur gan arolwg mesur blynyddol	Mae ymarferoldeb yn allweddol i gynulleidfa BBC Radio Wales audience. Fel yr unig wasanaeth radio Saesneg cenedlaethol yng Nghymru, mae ein gwrandawyr yn disgwyl i Radio Wales ddarparu'r wybodaeth gywir ddiweddaraf pan fyddant ei hangen
Rhoi sylw o ansawdd uchel i etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol	Cefnogi ac arddangos ymrwymiad y BBC i gynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil.
Cyfoethogi cynnwys llafar yn ystod prif raglenni'r dydd	Mae cynulleidfaoedd am gael adloniant a gwybodaeth. Gyda thrafodaeth lafar a chyfweliadau, bydd BBC Radio Wales yn arwain y drafodaeth genedlaethol ar faterion pwysig

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Gwasanaeth newyddion a materion cyfoes cywir, diduedd ac annibynnol yw conglfaen amserlen BBC Radio Wales. Mae holl raglenni llafar amser brecwast ac amser gyrru o'r gwaith yn cynnwys newyddion, a darlledir bwletinau newyddion yn aml gydol y dydd. Mae'r ddarpariaeth wleidyddol yn canolbwyntio ar faterion Cymreig, ond hefyd yn rhoi sylw i San Steffan ac Ewrop.

Mae ein cyflwynwyr yn ymgysylltu â'u gwrandawyr, sy'n cael eu hannog i ryngweithio gyda'r gwasanaeth. Mae rhaglenni BBC Radio Wales yn arwain y drafodaeth genedlaethol ar y materion sy'n berthnasol i bobl Cymru ac yn eu harchwilio'n fanwl, gan gynnwys rhaglen alwadau Richard Evans, y rhaglen wleidyddol *Called to Order* a'r rhaglen fusnes *Wales@Work*.

Bydd BBC Radio Wales yn cyflwyno adroddiadau a dadansoddiadau ar etholiad y Cynulliad ym Mai 2007, yn cynnwys darlledu'r canlyniadau'n fyw a chael gohebwyr yn y canolfannau cyfrif.

BBC Radio Wales yw prif ffynhonnell wybodaeth y BBC o hyd yn ystod argyfyngau tywydd ac argyfyngau sifil yng Nghymru.

Eleni bydd Radio Wales yn:

- Darlledu o leiaf 1,500 awr o newyddion a materion cyfoes

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae BBC Radio Wales yn adlewyrchu cymunedau, diwylliannau a chredoau Cymru'n llawn. Mae darllediadau allanol yn cynnwys digwyddiadau, seremonïau a dathliadau o bwys cenedlaethol - yn cynnwys y Sioe Fawr - sy'n adlewyrchu'r genedl i'w phobl.

Mae chwaraeon yn bwysig i'n gwrandawyr a byddwn yn darparu darllediadau a dadansoddiadau cynhwysfawr o chwaraeon yng Nghymru, gyda gemau pêl-droed a rygbi byw, yn cynnwys Cwpan Rygbi'r Byd yn 2007. Byddwn yn defnyddio ein slot fore Sul *All Things Considered* i ystyried a thrafod materion crefyddol a ffydd yng Nghymru a'r byd ac i gyflwyno materion moesegol a moesol i'w trafod yn ein rhaglenni llafar.

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu o leiaf 5,300 awr o raglenni heblaw newyddion a materion cyfoes (ac eithrio darpariaeth leol)

Hyrwyddo addysg a dysgu

Mae BBC Radio Wales yn rhoi cyfle i ddysgu'n anffurfiol am amrywiaeth eang o bynciau yn ei rhaglenni nodwedd, ffeithiol a dogfen. Eleni bydd ein rhaglenni dogfen ar gelfyddydau a hanes – yn cynnwys darpariaeth aml-lwyfan yn dathlu canmlwyddiant Amgueddfa Genedlaethol Cymru a chyfres ar fywydau pump o fenywod Mwslimaidd yng Nghymru – yn canolbwyntio ar gael effaith wirioneddol ar ein gwrandawyr.

Mae Radio Wales hefyd yn cyfrannu at ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol cyffredinol y BBC, a bydd yn cyfrannu at ymgyrchoedd y DU fel *How We Built Britain* i gael mwy o effaith ar gyfer BBC Wales a'r BBC yn gyffredinol.

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae BBC Radio Wales yn cefnogi doniau sydd wedi ennill eu plwyf ac yn rhoi hwb i'r ddarpariaeth gyda lleisiau a chyfranwyr newydd, yn cynnwys awduron a chyflwynwyr. Mae'n comisiynu rhaglenni gan gynhyrchwyr annibynnol yn ei holl ddarpariaeth gymwys – rydym yn darparu dros 400 awr eleni – ac yn cyfrannu at dwf yr economi creadigol yng Nghymru.

Bydd BBC Radio Wales yn darlledu cyngherddau gan Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ac yn darlledu ei rhaglen reolaidd ar y celfyddydau, *The Radio Wales Arts Show*.

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Bydd BBC Radio Wales yn rhoi sylw rheolaidd i ddigwyddiadau a materion rhyngwladol ar ei rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Bydd yn dod â Chymru i'r byd trwy ddarlledu deunydd BBC Radio Wales ar y rhyngrwyd ac yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o gysylltu â Chymry dramor a grwpiau eraill â diddordeb ym mhob cwr o'r byd.

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae BBC Radio Wales yn defnyddio technolegau digidol a rhyngweithiol i'w gwneud hi'n haws cael gafael ar ei rhaglenni, i annog y gynulleidfa i gymryd rhan ac i'w cyflwyno i gynnwys a gwasanaethau cysylltiedig. Eleni am y tro cyntaf byddwn yn darparu cynnwys trwy BBC iPlayer (yn amodol ar gymeradwyaeth) ac yn chwilio am gyfleoedd newydd i ehangu ein treialon podledu cyfredol.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai BBC Radio Wales helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i BBC Radio Wales ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Hefyd, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (yn cynnwys ailddarllediadau)

Effaith: Y gynulleidfa o'r farn bod BBC Radio Wales yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.

Gwerth am arian: *Cost y gwrandåwr yr awr* BBC Radio Wales.

Radio Cymru

Cylch gwaith y gwasanaeth

Gwasanaeth radio llafar a cherddoriaeth cynhwysfawr i siaradwyr Cymraeg yw Radio Cymru ac mae'n cwmpasu ystod eang o arddulliau ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru. Yn ogystal â materion lleol a chenedlaethol, mae'r rhaglenni hefyd yn trafod materion o bwys i'r DU a gweddill y byd.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Mae BBC Radio Cymru yn wasanaeth radio llawn, sy'n rhoi sylw i arddulliau gwahanol. Mae'n darlledu rhaglenni llafar yn ystod yr oriau brig amser brecwast ac mae'n darparu newyddion cywir a diduedd ledled yr amserlen. Mae'n cyflawni swyddogaeth bwysig o ran adrodd am fywyd gwleidyddol a'i archwilio ac mae'n llwyfan pwysig i arbenigwyr drafod materion ac i wrandawyr rannu eu safbwyntiau a'u profiadau.

Mae Radio Cymru yn cefnogi drama, celfyddydau a cherddoriaeth Gymraeg, ac yn comisiynu amrywiaeth eang o waith gan ddoniau newydd a sefydledig.

Mae blaenoriaethau allweddol BBC Radio Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys:

Blaenoriaeth	**Rhesymwaith**
Rhoi sylw o ansawdd uchel i etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol	Cefnogi ac arddangos ymrwymiad y BBC i gynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil.
Cynyddu cynulleidfa rhaglenni'r prynhawn yn ystod yr wythnos dros y tair blynedd nesaf	Bydd mynd i'r afael â thangyflawniad yr amserlen brynhawn yn helpu i gynnal nifer gwrandawyr wythnosol y BBC yng Nghymru.
Datblygu a gweithredu strategaeth dechnoleg ac aml-lwyfan i gynyddu effaith y brand	Gwrando ar ddymuniadau'r gynulleidfa ac ymateb i newidiadau yn eu hymddygiad trwy gryfhau darpariaeth ar-lein/band eang.

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Rhaglenni newyddion, materion cyfoes a gwleidyddol yw conglfaen y gwasanaeth. Mae holl raglenni llafar amser brecwast ac amser gyrru o'r gwaith yn cynnwys newyddion, a darlledir bwletinau newyddion yn aml gydol y dydd.

Mae darpariaeth a dadansoddiadau gwleidyddol yn canolbwyntio ar faterion Cymreig – etholiad y Cynulliad yn arbennig eleni. Cyflwynir adroddiadau ar Senedd San Steffan a Senedd Ewrop hefyd gan nodi effaith deddfwriaeth a mentrau'r DU ac Ewrop ar Gymru.

Caiff gwrandawyr eu hannog i archwilio ystod eang o bynciau ac i ymgysylltu a rhyngweithio â'r gwasanaeth. Bydd rhaglen faterion cyfoes wythnosol Radio Cymru *Manylu* yn parhau i ymchwilio i faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd ac yn berthnasol i'n gwrandawyr.

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu o leiaf 1,000 awr o newyddion a materion cyfoes

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae darpariaeth leol BBC Radio Cymru yn adlewyrchu cymunedau, diwylliannau a chredoau Cymru'n llawn. Mae'n darlledu o ddigwyddiadau cenedlaethol allweddol – yn cynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Fawr a Gŵyl y Faenol – ac mae'r amserlen yn

cynnwys darllediadau allanol o bob cwr o Gymru yn rheolaidd. Mae'r orsaf yn darparu gwasanaeth chwaraeon cynhwysfawr.

Mae'r rhaglenni crefyddol yn cynnwys *Oedfa* ar ddydd Sul yn adlewyrchu credoau amrywiol Cymru fodern ac mae *Bwrw Golwg* a *Dal i Gredu* yn parhau i ddarparu llwyfannau ar gyfer trafod a myfyrio.

Eleni bydd Radio Cymru yn:

- Darlledu o leiaf 6,200 awr o raglenni heblaw newyddion a materion cyfoes (ac eithrio darpariaeth leol)

Hyrwyddo addysg a dysgu

Yn 2007/2008 bydd BBC Radio Cymru yn rhoi cyfleoedd i ddysgu'n anffurfiol am amrywiaeth eang o bynciau yn ei raglenni nodwedd, ffeithiol a dogfen. Bydd rhaglenni wythnosol fel *Y Celfyddydau* a *Galwad Cynnar* yn cwmpasu ystod eang o bynciau ac yn cyd-fynd â phrofiadau dysgu eraill sy'n cael eu cynnig gan BBC Wales. Bydd rhaglenni dogfen yn parhau i fod yn amrywiol gyda dysgu anffurfiol wrth graidd y cyfan, yn cynnwys cyfres fusnes am entrepreneuriaeth.

Bydd BBC Radio Cymru yn cyfrannu at ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol cyffredinol y BBC, gan eu haddasu lle bo'n briodol i gynyddu eu hapêl i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae BBC Radio Cymru yn cefnogi doniau sydd wedi ennill eu plwyf, ac yn parhau i roi hwb i'r ddarpariaeth gyda lleisiau a chyfranwyr newydd. Mae'n cynnwys sesiynau rheolaidd a chyfleoedd perfformio i grwpiau heb gytundeb recordio ac yn rhoi llwyfan i awduron ifanc sydd wedi cael llwyddiant yng nghystadlaethau ysgrifennu drama yn Eisteddfod yr Urdd.

Mae Radio Cymru yn rhoi sylw wythnosol i'r celfyddydau yng Nghymru ar raglen *Y Celfyddydau* a bydd yn darlledu cyngherddau gan Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.

Byddwn yn ceisio comisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol yn 2007/2008.

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Bydd BBC Radio Cymru yn dod â'r byd i Gymru trwy roi sylw i ddigwyddiadau a materion rhyngwladol ar ei raglenni newyddion a materion cyfoes. Bydd yn dod â Chymru i'r byd trwy ddarlledu deunydd BBC Radio Cymru ar y rhyngrwyd a byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o gysylltu â siaradwyr Cymraeg ym mhob cwr o'r byd.

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae BBC Radio Cymru yn darparu llwyfan mawr i weithgareddau traws-gyfrwng Cymraeg y BBC yng Nghymru a bydd yn defnyddio technolegau digidol a rhyngweithiol i'w gwneud hi'n haws cael gafael ar ei rhaglenni, i annog y gynulleidfa i gymryd rhan ac i'w cyflwyno i gynnwys a gwasanaethau cysylltiedig. Eleni am y tro cyntaf byddwn yn darparu cynnwys ar BBC iPlayer (yn amodol ar gymeradwyaeth) ac yn chwilio am gyfleoedd newydd i ehangu ein rhaglenni radio trwy deledu rhyngweithiol.

Fframwaith mesur perfformiad

Cyrhaeddiad:	Dylai BBC Radio Cymru helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i BBC Radio Cymru ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Hefyd, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (yn cynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	Y gynulleidfa o'r farn bod BBC Radio Cymru yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.

Gwerth am arian: *Cost y gwrandåwr yr awr* BBC Radio Cymru.

Radio Ulster/Foyle

Cylch gwaith y gwasanaeth

Gwasanaeth llafar yn bennaf yw BBC Radio Ulster/Foyle sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o arddulliau gwahanol ac yn adlewyrchu holl agweddau bywyd y rhanbarth. Mae ei rhaglenni'n rhoi sylw helaeth i faterion, diddordebau a digwyddiadau lleol ac yn rhoi sylw i ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth

Nod Radio Ulster/Foyle yw darparu amrywiaeth o raglenni eang a difyr sy'n adlewyrchu bywyd cymunedol amrywiol Gogledd Iwerddon. Mae'r ddarpariaeth yn cyfuno newyddion a materion cyfoes, cerddoriaeth, diddordebau arbenigol, adloniant a rhaglenni dogfen. Mae cyfranogiad y gwrandawyr yn ganolog i'r gwasanaeth ac mae hyn yn digwydd trwy gyfrwng sesiynau galwadau gwrandawyr, darllediadau allanol a gwasanaethau a gweithgareddau wedi'u harwain gan y gynulleidfa.

Mae blaenoriaethau allweddol Radio Ulster/Foyle dros y 12 mis nesaf yn cynnwys:

Blaenoriaeth	Rhesymwaith
Darparu rhaglenni newyddion a materion cyfoes awdurdodol sy'n adlewyrchu materion a digwyddiadau ledled y rhanbarth ac yn cyfuno gwybodaeth, dadansoddi a thrafodaethau.	Mae cynulleidfaoedd yn disgwyl adroddiadau a dadansoddiadau awdurdodol, amrywiaeth a threiddgarwch golygyddol gan BBCNI. Mae Radio Ulster/Foyle yn ymrwymedig i ddarparu o leiaf 1,930 awr o raglenni newyddion a materion cyfoes yn 2007/2008.
Cynnal amrywiaeth, effaith a pherthnasedd rhaglenni Radio Ulster/Foyle a'i swyddogaeth o ran adlewyrchu amrywiaeth cymunedol a diwylliannol ar raglenni yn cynnwys *Arts Extra* a *Your Place and Mine*.	Mae amserlen Radio Ulster/Foyle yn cynnwys cymysgedd amrywiol o leisiau, arddulliau rhaglenni a chynnwys. Mae'n cefnogi mynegiant creadigol, arloesedd a rhaglenni sy'n adlewyrchu traddodiadau arbennig y gymdeithas leol.
Sefydlu mentrau gweithredu cymdeithasol ac addysg oedolion, yn cynnwys *Learning Bites*, sy'n ymateb i anghenion lleol a chysylltu â chynulleidfaoedd mewn dulliau a llefydd gwahanol.	Mae mynd i'r afael â themâu gweithredu cymdeithasol trwy bartneriaethau ac ymgyrchoedd ar yr awyr yn elfen bwysig o swyddogaeth BBC Radio Ulster/Foyle. Mae gwaith o'r fath yn cynnwys hyfforddiant, gwaith allgymorth ac adnoddau dysgu newydd.

Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Mae newyddion, gwybodaeth a thrafodaeth yn nodweddion hanfodol rhaglenni BBC Radio Ulster/Foyle. Mae'n rhaglenni'n rhoi sylw helaeth i ddigwyddiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, ac yn cynnwys dadansoddiad awdurdodol o ddatblygiadau sy'n effeithio ar fywydau cynulleidfaoedd y BBC yng Ngogledd Iwerddon. Byddwn yn adrodd ar ddatblygiadau gwleidyddol, yn adlewyrchu effaith newidiadau cymdeithasol ac eraill ar y gymdeithas leol ac yn rhoi cyfleoedd i wrandawyr gymryd rhan mewn trafodaethau trwy raglenni fel *Talkback* a *The Stephen Nolan Show*.

Yn y flwyddyn i ddod:

- Bydd Radio Ulster yn darlledu dros 1,550 awr o newyddion a materion cyfoes
- Bydd Radio Foyle yn darlledu dros 380 awr o newyddion a materion cyfoes

Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Mae rhaglenni BBC Radio Ulster/Foyle yn adlewyrchu profiadau, cyflawniadau ac amrywiaeth y bobl leol. Mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â'r gynulleidfa mewn ffyrdd a llefydd gwahanol ac yn cynnwys rhaglenni o ddiddordeb arbennig, digwyddiadau rhanbarthol a newyddion. Rydym yn darparu rhaglenni penodol mewn Gwyddeleg a Gaeleg Ulster. Yn y flwyddyn i ddod byddwn yn parhau i ddarparu rhaglen amrywiol o ddarllediadau allanol a gweithgareddau o leoliadau rhanbarthol, yn cynnwys Sioe Balmoral, North West 200 a *Proms in the Park*.

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu 8,400 awr o gynnwys radio lleol bob blwyddyn
- Darlledu cyfres o 40 rhaglen mewn Gaeleg Ulster bob blwyddyn

Hyrwyddo addysg a dysgu

Mae BBC Radio Ulster/Foyle yn darparu cefnogaeth ddarlledu ar gyfer dysgu anffurfiol a datblygiad personol ledled ei gwasanaeth, gyda rhaglenni ar gyfer oedolion yn ogystal ag ar gyfer gwrandawyr iau. Mae hefyd yn darparu darllediadau i ysgolion, yn cynnwys *TANDY* a *One Potato, Two Potato*, ac yn hyrwyddo sgiliau cymdeithasol a llythrennedd cyfryngau trwy *Blast NI*.

Rydym yn darparu ein mentrau gweithredu cymdeithasol ar y cyd â phartneriaid allanol. Eleni byddwn ni'n gweithio i ddatblygu rhaglen a deunyddiau cynorthwyol ar fwlio a phrofiadau pobl hŷn.

Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Mae BBC Radio Ulster/Foyle yn cyflawni swyddogaeth allweddol wrth feithrin ac arddangos doniau creadigol lleol. Mae'n adlewyrchu ffurfiau celf ac arddulliau perfformio gwahanol - o gerddoriaeth i gomedi - ac yn eu darparu i gynulleidfaoedd arbenigol a chyffredinol. Mae'r rhaglenni'n seiliedig ar ymrwymiad i ansawdd, arloesedd a rhagoriaeth greadigol.

Byddwn yn ceisio comisiynu o leiaf 10% o oriau cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol.

Eleni byddwn ni'n:

- Darlledu gwasanaeth cerddoriaeth arbenigol bob nos (yn cynnwys amrywiaeth o arddulliau).
- Darlledu 20 awr o gomedi newydd (fel rhan o'n gwaith parhaus i ddatblygu mentrau i feithrin ac arddangos creadigrwydd lleol).

Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd

Mae BBC Radio Ulster/Foyle yn cysylltu cynulleidfaoedd lleol â materion o bwys cenedlaethol a rhyngwladol yn ei holl raglenni. Mae'r rhaglenni'n adlewyrchu effaith dylanwadau a datblygiadau byd-eang ar fywyd yng Ngogledd Iwerddon a swyddogaeth y rhanbarth yn y byd ehangach. Bydd rhaglenni fel *Sunday Sequence* a *Good Morning Ulster* yn cynnwys eitemau a chyfweliadau a fydd yn adlewyrchu ac yn trafod materion, digwyddiadau a datblygiadau byd-eang a'u harwyddocâd i gynulleidfaoedd lleol.

Byddwn yn darparu darllediad penodol o'r Ŵyl Smithsonian yn Washington a'i dathliad o amrywiaeth diwylliannol y rhanbarth.

Dulliau cyfathrebu newydd

Mae rhaglenni a llwyfannau darparu BBC Radio Ulster/Foyle yn adlewyrchu'r newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn defnyddio'r cyfryngau. Mae'r rhaglenni ar gael ar radio digidol ac yn cael eu darlledu'n fyw ar y rhyngrwyd; gyda chyfran fawr ar gael am saith diwrnod ar ôl y darllediad cyntaf trwy'r cyfleuster ar-lein Gwrando Eto. Mae ein gwefan – bbc.co.uk/ni – yn annog gwrandawyr i gymryd rhan ac yn cyflwyno cynnwys a gwasanaethau cysylltiedig i ddefnyddwyr.

Fframwaith mesur perfformiad

Yn ogystal â'r addewidion blynyddol a roddwyd i gynulleidfaoedd yn y SoPP hwn, mae amodau'n gysylltiedig â Thrwydded Wasanaeth BBC Radio Ulster/Foyle. Yn ystod oes y Drwydded Wasanaeth gyfredol, mesurir perfformiad BBC Radio Ulster/Foyle yn erbyn yr amodau canlynol:

Cyrhaeddiad:	Dylai BBC Radio Ulster/Foyle helpu i sicrhau bod cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y BBC ar gyfer holl wasanaethau'r BBC yn parhau i fod dros 90% trwy geisio cynnal ei *chyrhaeddiad wythnosol* ei hun.
Ansawdd:	Y gynulleidfa'n rhoi *sêl ei bendith* i BBC Radio Ulster/Foyle ac yn ystyried y sianel yn un *safon uchel* ac *arloesol*. Hefyd, y gyfran o *raglenni gwreiddiol* ddydd a nos (yn cynnwys ailddarllediadau)
Effaith:	Y gynulleidfa o'r farn bod BBC Radio Ulster/Foyle yn *ddeniadol* ac yn *llawn her*.
Gwerth am arian:	*Cost y gwrandåwr yr awr* BBC Radio Ulster/Foyle.

Ymrwymiadau pellach

Ymrwymiadau rhaglenni pellach

Gwasanaethau mynediad

Mae'r BBC yn cyflawni'n well na thargedau cyfredol Ofcom ar gyfer isdeitlo, darparu iaith arwyddion a llun-ddisgrifio ac rydym wedi ymrwymo i isdeitlo holl raglenni BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four, CBeebies, Sianel CBBC a BBC News 24 yn 2008. Yn ogystal, darperir isdeitlau ar gyfer rhai adrannau o BBC Parliament hefyd.

Dan Ddeddf Cyfathrebu 2003 rydym wedi'n rhwymo gan god Ofcom o ran darparu ar gyfer pobl fyddar a phobl â nam ar eu golwg. Mae mynediad i wasanaethau gan gynulleidfaoedd (yn cynnwys pobl â nam ar eu golwg, nam ar eu clyw, nam gwybyddol neu nam echddygol) yn cael ei gwmpasu hefyd gan Ran 3 Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005). Rydym wedi cytuno ar bolisïau ac wedi llunio Llawlyfr Cynhyrchu sy'n nodi disgwyliadau ar gyfer cynhyrchwyr rhaglenni. Mae gennym Ganllawiau ar gyfer Cynulleidfaoedd Teledu sydd â Nam ar eu Golwg hefyd. Caiff ein polisïau ar hygyrchedd gwefannau eu cyhoeddi ar-lein yn bbc.co.uk/commissioning/newmedia/websites.shtml.

Ymrwymiadau pellach y BBC

Mae ymrwymiad y BBC i'n cynulleidfaoedd yn mynd y tu hwnt i wasanaethau unigol. Rydym hefyd yn gwneud ymrwymiadau sylweddol sy'n berthnasol i'n gwasanaethau i gyd.

Amrywiaeth

Nod y BBC yw adlewyrchu amrywiaeth gwirioneddol y DU yn ei rhaglenni a thrwy ei gwasanaethau teledu, radio ac eraill i gynnig rhywbeth i bawb yn y DU.

Mae pob cynnig newydd am raglenni yn cynnwys datganiad amrywiaeth yn nodi sut bydd y rhaglen, lle bo'n briodol, yn cyflawni ymrwymiad y BBC i adlewyrchu'n llawn amrywiaeth y cyhoedd sy'n talu ffi'r drwydded, ar ac oddi ar y sgrin. Byddwn yn parhau i asesu pa mor effeithiol yw hyn o ran ein galluogi i gyflawni'r addewid hwn.

Mynediad

Mae'r BBC yn un o aelodau gwreiddiol Rhwydwaith Anabledd y Darlledwyr ac wedi ymrwymo i:

- gynyddu nifer y bobl anabl ar yr awyr ac ar y sgrin
- cynyddu nifer y bobl anabl yn y gweithlu drwyddo draw
- cynyddu mynediad i wasanaethau, ar ac oddi ar yr awyr
- sicrhau mynediad i'r adeiladau

Gwasanaethau'r BBC i bawb

Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein holl wasanaethau ar gael i bawb ac yn cael eu darlledu am ddim a bod pobl sy'n talu ffi'r drwydded yn gallu cael mynediad iddynt trwy gyfryngau newydd wrth i dechnolegau perthnasol ddatblygu. Mae'n gwasanaethau digidol ar gael ar Freeview, lloeren a chebl i'r graddau ac yn y ffordd y mae pob llwyfan yn ei ganiatáu.

Hyfforddi

Bydd y BBC yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant a datblygu sgiliau ei gweithwyr. Byddwn hefyd yn neilltuo amser, arbenigedd ac arian fel cyfraniad at fentrau hyfforddi a datblygu ledled y diwydiant ac yn parhau i gynnal cynlluniau penodol i ddenu pobl newydd i'r diwydiant darlledu.

Atebolrwydd

Mae'r BBC yn sefydliad agored a thryloyw sy'n ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd y mae'n ei wasanaethu. Byddwn yn trafod â'n cynulleidfaoedd er mwyn dysgu ganddynt ac ymateb yn onest i'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud wrthym.

Mae ein gwasanaeth gwybodaeth ar gael i gynulleidfaoedd 24 awr y dydd trwy'r flwyddyn ac mae'n ymdrin â thua 1.5 miliwn o gysylltiadau dros y ffôn, e-bost a thrwy lythyr bob blwyddyn (y rhan fwyaf yn ddigymell). Mae'r cysylltiadau hyn yn amrywio o ymholiadau cyffredinol i gwynion penodol am gynnwys rhaglenni. Caiff ansawdd ein hymateb i bryderon y gynulleidfa ei fonitro'n ofalus ac mae'n destun arolwg annibynnol o foddhad cwsmeriaid.

Mae gennym broses ymdrin â chwynion sy'n ei gwneud hi'n hawdd i'r cyhoedd wneud cwyn ffurfiol a chael ymateb cyflym. Mae yna broses apelio dau gam i unrhyw un sy'n anfodlon â'r ymateb cychwynnol. Pwyllgor Safonau Golygyddol yr Ymddiriedolaeth yw trydydd cam a cham olaf y broses yn y BBC. (Gweler bbc.co.uk/feedback.)

Mae'r BBC yn trefnu ymgynghoriadau cyhoeddus rheolaidd ac yn gwneud llawer o ymchwil ymysg cynulleidfaoedd i glywed safbwyntiau pobl sy'n talu ffi'r drwydded. Mae hyn yn cynnwys astudiaethau ad hoc o ddiddordebau ac anghenion gwahanol rannau o'r gynulleidfa a budd a gwerth gwasanaethau arbennig, yn ogystal ag arolwg misol parhaus sy'n cael barn y gynulleidfa ar y sefydliad a'i raglenni. Hefyd, mae rhwydwaith o Gynghorau Cynulleidfaoedd annibynnol gwirfoddol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhoi adborth uniongyrchol ar wasanaethau'r BBC trwy Ymddiriedolaeth y BBC.

Bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn adrodd ar berfformiad y BBC yn erbyn yr ymrwymiadau a geir yn y datganiadau hyn yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC ar gyfer 2007/2008, i'w cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2008.